Eithr y mae 'r awduron diweddar yn canfod, yn ddiammau, fod hynny yn bod; ac y mae yn ddifyr iawn weled y modd cywrain y maent yn dangos i ni weithredoedd rhagluniaeth mewn dull dieithr, ac yn gosod ger ein bron mor gelfydd, y cyssondeb rhyfeddol sydd rhwng y rhan honno o'r greadigaeth sydd ag einioes iddi, a'r rhan difywyd o honi. Ac y mae yr pennaf o honynt, sef yr enwog LINNEWS, wedi llunio, ac adeiladu TREFN ar y sail honno, yr hon a eilw efe y DREFN YSTLENAIDD; ym mha un y dosperthir llysieuaeth, neu holl flagur y byd, i PEDAIR CENEDL AR UGAIN; sef yn ol y rhifedi o wrrywod a'u trefn ym mhob blodeuyn, fel y gellir gweled yn y rhan flaenaf o'r llyfr hwn, sef, CATALOGUE, &c. (*tu dal.* 1.) megis y GENEDL gyntaf UNGWRRYW, yr ail GENEDL DEUWRRYW, y drydedd TRIGWRRYW, &c. ym mha rai y mae cynnifer o wrrywod, ac un neu ychwaneg o fenywod, canys y mae i'r rhan fwyaf o llysiau, ne flagur y byd, flodau *deuryw, gwrfenywaidd,* sef aelodau gwrrywaidd a benywaidd yn yr un blodeuyn, am hynny y gelwir hwynt yn *briodawl;* a thair genedl ar ugain o'r pedair ar ugain a ddywedir eu bod yn *Amlwg-briodawl.* Eithr yn y genedl olaf, sef y bedwaredd ar

ugain, nid ellir dirnad yr aelodau hynny o'r blodeuyn mor amlwg, ac eglur, ag yn y tair ar ugain eraill, o herwydd eu bod mor fân ac eiddil, am hynny y genedl honno a elwir *Dirgel-briodawl.*

Er eglurhâd y drefn hon, sef y DREFN YSTLENAIDD, gosodir ger bron, yn niwedd y traethawd hwn, ddarluniad o un esampl o bob CENEDL. *edr.* MYNEGAI CENEDLODD LLYSIEUAETH, &c. *tu dal.* xv.

Heblaw hynny, pob un o'r PEDAIR (I.) CENEDL (CLASSES, NATIONS) AR UGAIN a dosperthir i (II.) LWYTHAU, (ORDINES, TRIBES);—a'r *Llwythau* i (III.) DYLWYTHAU, (GENERA, FAMILIES);—sef cynnifer ag a ddygwyddo fod yn y *Llwyth* hwnnw;—a thrachefn pob *Tylwyth* a adrenir i (IV.) RYWOGAETHAU, neu UNIGUNAU, (SPECIES, INDIVIDUALS);—ac weithiau e ddywedir ynghylch (V.) AMRYWIAETHAU, (VARIETATES, VARIETIES);—sef yr un *Rywogaeth* yn ymrithio dan amryw ddulliau; yr hyn a ddygwydd o herwydd rhai damweiniau, sef pan dyf llysieuyn mewn lle sychach, neu leithach nag y bo yn naturiol yn e'i chwennych, neu o herwydd rhyw achos arall. Edrych esampl o hyn oll yn y *Bedwaredd* GENEDL *(tu dal.* 14) sef PEDWARGWRRYW, a'r LLWYTH *Cyntaf,* sef UNFENYW, a'r *Seithfed* TYLWYTH (50.), sef LLYRIAD, *(tu dal.* 15) ym mha *Dylwyth* y gwelir pedair RHYWOGAETH, sef 1. LLYRIAD *mwyaf,*—2. LLYRIAD *Llwynhidydd,*—3. LLYRIAD *y mor,*—4. LLYRIAD *Llys Efa;* a'r ddwy *Rywogaeth* olaf hyn a newidiant eu dull yn aml, yn ol cyflwr y lle y bont yn tyfu ynddo, ac yna eu gelwir AMRYWIAETHAU.

Canfydder yma un peth ychwaneg, sef bod yn angenrheidiol i bob llysieuyn gael dau enw, yn unwedd ag i bob dyn, sef enw *tylwythaidd,* ac enw *neillduol;* heb hyn nis gellir gwahanu rhwng y naill unigun, neu rywogaeth, a'r llall, pan ddywedir yn eu cylch.

Gan hynny bydded ysbys nad llwyr ddigonol, mewn un modd, ydyw adnabod yr amryw *Dylwythau* yn unig, eithr angenrhaid yw adnabod y *Rhywogaethau,* o herwydd er dygwydd yn aml bod pob rhywogaeth o unrhyw dylwyth yn meddiannu, mewn rhan, yr un rhinweddau, y naill a'r llall, etto y mae rhai yn feddiannol o honynt mewn uwch gradd na'u gilydd, ac yn rhagori llawer ar eraill; am hynny y mae'r wybodaeth hon o honynt, o fawr bwys, canys heb hyn nis gellir eu harferu yn ddiogel, a llwyddiannus, at y gwasanaeth yr amcenir hwynt iddo.

Gan nad allaf ddisgwyl ond i ychydig nifer o 'm cydwladwyr, dynion o'r radd honno yn y byd, er mwyn pa rai yr amcenir y rhagymadrodd byr hwn, dreulio llawer o'u hamser ar fyfyrdodau sydd yn gofyn cymmaint o amynedd, diwydrwydd, dwys ystyriaeth a manwl olrhain, heblaw y fath gymmorth i'r golwg o syllwydrau, a thrembeiriant, na ddichon i bobl gyffredin yn hawdd eu cael, gan nas gellir disgwyl hyn, meddaf, nid ymdrafferthaf i hel a llunio enwau i'r blagur diwlan a mân, ac anhawdd eu sylwi a'u deall, ac ydynt yn yr un pryd yn lliosog iawn, ym mron aneirif, y rhai a gynhwysir yn y bedwaredd genedl ar ugain, sef y *dirgel-briodawl,* heblaw yn unig yr enwau *tylwythaidd;* etto yr wyf yn tybio nad anghymmwys fydd rhoddi hyn o fyr adroddiad, a chryno wybodaeth, o'r *drefn ragorol,* yr hon y mae pob llysieuwr celfydd o'r oes hon yn ei dilyn, er nad ymboenaf i draethu yn helaeth, ac yn fanwl ar egwyddorion y DREFN YSTLENAIDD.

Gallaf, er hynny, fyned ychydig ym mlaen, gan obeithio y geill fod yn ddifyr wybod, ped fai ond ychydig yn ei chylch. E mae i'r rhan fwyaf o llysiau, fel y dywedais uchod, flodau *deuryw,* sef *gwrfenywaidd,* hynny yw, ac aelodau gwrrywaidd a benywaidd yn yr un blodeuyn;—y mae i eraill flodau cyfan-wrryw a chyfan-fenyw, a 'r rhai hyn ar yr un plannigyn,

ac a ddywedir eu bod o'r Genedl UNANNEDDAWL. Y mae i eraill amryw anneddau, hynny yw, y maent yn ysgaredig; sef y mae o'r un tylwyth, ac o'r un rywogaeth un planhigyn yn wrryw, ac un arall yn fenyw, un yn ddiau yn dwyn blodau gwrryw, a'r llall yn dwyn blodau benyw, a'r fenyw yn unig sydd yn dwyn ffrwyth neu had; ac os na thyf gwrryw yn agos at y fenyw ni bydd yr had yn ffrwythlon.

Dangosiad o'r genedl ddiweddaf hon a ellir ei ganfod yn y llysieuyn cyffredin, sef y *Cywarch*, yr hwn sydd lysieuyn o'r genedl DDWYANNEDDAWL; ac a'i gelwir yn wrryw a benyw, er yn fynychaf y camenwir hwynt, sef y gwir wrryw a elwir y fenyw, a'r fenyw a elwir y gwrryw.

Os oes neb cywraint yn chwennych dirnad yn fanwl ddangosiad, neu siampl o'r drefn ystlenaidd, cymmered flodeuyn yr *Elestren*, sef y lili, yr hon a welir yn gyffredin mewn gerddi, ac ym mha un y mae pob aelod eppilaidd o'r blodeuyn ym mwy amlwg nac yn odid un arall, ac wedi lledu y Blodeu-ddail *a. a. a. a. a. a, (edr. y darluniadau)* ymddengys yn y canol *Baledryn* o dair rhan, sef y Bôn *b.* yr hwn a gynnwys rith yr had,—y Goesig *c.* a'r Pen neu y Blaen *d.* hwn yw yr aelod eppilaidd benyw o'r blodeuyn. O amgylch hwn gellir canfod chwech sylweddyn, sef y *Briger*, mal edafedd a chnepyn hir-gul ar ben pob un o honynt, *e. e. e. e. e. e.* y chwech hyn ydynt yr aelodau gwrryw o 'r blodeuyn, a'r cnapiau ar flaenau y briger ydynt megis blychau, y rhai, pan addfedant, a agorant, ac a wasgarant, ac a daenant flawd* ar led, yr hwn gan ddisgyn ar flaen y paledryn a ffrwythlona yr had. Y blodeuyn hwn a'r cyffelyb a ddywedir

* O'r defnydd hwn, mewn rhan, y gwna yr wenynen ei chell. Y mae i rai blodau ran arall, yr hon a eilw y dysgedigion *Nectarium*, a nyni a'i cyfieithwn y *Melgell*, yr hon a gynnwys ychydig sug melus, o'r hon y casgl y gwenyn diwyd eu per drysorau! Y mae agos pob plentyn yn gydnabyddus a hon mewn rhai llysiau; sef *Mel y gweunydd, Gwyddfid*, &c.

ei fod yn *wrfenywaidd*, o herwydd, mal y dywedais o'r blaen, iddo gynwys aelodau o'r ddwy ystlen, sef gwrryw a bennyw, a'r rhan fwyaf o flagur y byd ydynt, megis hwn, yn wrfenywaidd, ac y mae iddynt aelodau cyfattebol i'r rhai hyn, er iddynt ragori llawer yn eu llun, eu rhifedi a'u maintioli.

Ym mhlith y rhestr ganlynol o enwau cymreig, nid ellir llai na dal sulw ar gryn nifer o rai go anghyfiaith, nid amgen na BWFFONIA, IUNGERMANNIA, KNAPPIA, LINNEA, TOFFIELDIA, a'r cyffelyb, y rhai a arferir yn yr un modd ym mhob iaith, ynghylch y cyfryw, cymmwys yw i mi rybyddio y darllenydd, mai gorchymmyn yr ardderchoccaf lysieuwr Linnews ydyw, y dylid eu cadw a'u cynnal yn fwyaf gofalus, canys enwau ydynt, a roddwyd i'r cyfryw lysiau er parch i wyr, a choffadwriaeth am danynt,* sef *Bwffon, Iungerman, Knapp, Linnews, Toffield*, &c. y rhai a fuant enwog a gwasanaethgar gan ddwyn ym mlaen, a dyrchafu, mewn rhyw foddion y gelfyddid o llysieuaeth, heb dderbyn un mantais neu wobr arall, oddieithr y boddlondeb (yr hwn sydd yn wir ddigonol) o ganfod y Creawdwr mawr yn ei weithredoedd, a " nodi——

" Gwyrth Duw mewn rhagorwaith Dail."

Gr. Owain.

* Nid amgen yr arferai rhai o'n hynafiaid ein hunain ddangos eu hewyllys da i enwau parchedig, pan roddasant i'r llysiau canlynol eu henwau; sef 1. GWENONWY.—2. ERBIN.—3. CLYCH ENID.—4. BOLED OLWEN.—5. YSPYDDADEN,—&c.——*Gwenonwy* oedd fenyw a grybwyllir am dani yn aml gan ein beirdd, er na wyddom ni yn awr ddim ychwaneg o'i hanes na'i bod yn lân odiaethol.—*Erbin* ydoedd dywysog Dyfnaint ynghylch canol y bummed ganrhif.—*Enid* oedd ferch Yniwl, yr hon oedd dra theg ac un o'r tair ardderchog fenywod yn llys Arthur.—*Olwen* * oedd ferch Yspyddaden;—as *Yspyddaden* oedd enwog yn ei ddydd tan y gorenw Pencawr.

* See Owen's Cambrian Biography, *Olwen* and *Culhwch*.

At yr hyn a addewais yn y dalenau rhagflaenol myfi a chwanegais, nid ychydig, ynghylch gwasanaeth a rhinweddau meddygawl gryn rifedi o'r llysiau mwyaf rhagorol, yr hyn a gymmerais allan o ysgrifenadau a llyfrau yr awduron mwyaf enwog yn y gelfyddid o feddyginiaeth, gan dybied y buasai fy mwriad a'm llafur yn ddiffygiol heb ryw fesur o'r cyfryw orchwyl; ac fel y byddai y rhân honno yn fwy cyflawn, tybiais yn addas roddi ychydig hyfforddiad ynghylch y moddion i barottöi yr amryw gyffyriau, ynghyd a'r dognau, sef yr hyn a ddylid ei roddi i glaf ar dro, o'r meddyginiaeth; a hyn a wneuthym wrth fesurau, neu bwysau, megis y modd mwyaf cywir; felly yn lle mawaid,—llonaid llaw,—dyrneidyn (yr hyn nid yw ddim amgenach nag ar amcan) o wraidd neu ddail, y rhai fyddant annilys a siomgar, dywedir pwys gronyn,—scrwpl,—dram,—wns,* &c. Ac yn lle diod, sef y gair a arferai hen feddygon ein gwlad am gymmaint ag a yfai ddyn ar unwaith, dywedir am yfed hyn neu hyn o wnsiau,—chwarter neu hanner peintiaid o unrhyw feddyglyn.

Bellach, gan obeithio y bydd fy llafur, y rhan hon yn enwedig o hono, yn fuddiol i'm cydwladwyr, yr wyf yn ei gyflwyno i'r darllenydd hynaws, tan obaith y derbyn efe hyn o gais gyda mwyneiddra a thiriondeb, gan radlawn faddeu y diffygiadau a ddygwyddant ym mhob gwaith dynol, ac yn enwedig pan fo 'r awdur gwedi ymdeithio, yspaid nid bychan, tu hwnt i'r terfyn a osododd y Psalmydd ar "ddyddiau ein blynyddoedd." Ac os derbyn efe wrth ei ddarllen a'i chwilio, foddlondeb yn agos cyfattebol i'r drafferth a ddygwyddodd i mi wrth ei gasglu a'i drefnu, e'm llwyr foddlonir am fy llafur.

* Yma dalier sulw fod *wns* yn cynnwys *wyth dram*;—a *dram* yn cynnwys *tri scrwpl*;—a *scrwpl* yn cynnwys *ugain gronyn* o wenith iach gwedi ei gynhauafa.

I ddiweddu, cymmwys yw i mi rybyddio y darllenydd, mai dan y llythyren wreiddiol y mae iddo geisio y gair a ewyllysio ei weled yn y rhestr ganlynol;—sef *Bedwen*, nid y *Fedwen*.—*Candoll*, nid y *Gandoll*.—*Dannogen*, nid y *Ddannogen*.—*Garllegog*, nid yr *Arllegog*.—*Meillionen*;—*Penfelen*;—*Torfagl*. &c.

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
18
19
20
24.A.
24.B.
24.C.
a
b
c
d
e

Cenedlodd.	Mynegai Cenedlodd Llysieuaeth. *edr.* Y darluniadau, &c.	Esamplau.
1 Ungwryw	Un Brigeryn ym mhob blodeuyn	Rhawn y gaseg.
2 Deuwryw	2 Friger ym mhob, &c.	Rhwyddlwyn.
3 Trigwryw	3 Briger ym mhob, &c.	Gwellt.
4 Pedwargwryw	4 Briger ym mhob. &c. cyhyd; *edr.* cenedl 14	Teilai.
5 Pumgwryw	5 Briger ym mhob, &c.	Gwyddfid.
6 Chwegwryw	6 Briger ym mhob, &c. cyhyd; *edr.* cenedl 15	Bwtias y gôg.
7 Seithgwryw	7 Briger ym mhob, &c.	Gwerddig.
8 Wythgwryw	8 Briger ym mhob, &c.	Clyst yr ewig.
9 Nawgwryw	9 Briger ym mhob, &c.	Engraff.
10 Dengwryw	10 Briger ym mhob, &c. digysswllt eu bonion	Pennigan.
11 Deuddengwryw	12 i 19 Briger ym, &c. gosodedig ar y derbynfa	Bywfyth.
12 Ugeinwryw	20 Briger ym mhob, &c. gosodedig ar y cwpan, ne'r blodeuddail	Mefusen.
13 Amlwryw	20 i 1000 o friger ym, &c. gosodedig ar y derbynfa	Drewg.
14 Deurinweddog	4 Briger ym mhob, &c. dau yn hwy, un paledryn, blodau safnrwth	Bysedd cochion.
15 Pedrinweddog	6 Briger ym, &c. pedwar yn hwy, un paledryn, blodau croes-ddull	Bresych.
16 Uncysswllt	Briger cyssylltiedig yn y bonion, rhyddion eu penau	Hoccys.
17 Deugysswllt	Briger cyssylltiedig yn y bonion ynddwy ran, blodau yn rhith gloyn	Pysen.
18 Amlgysswllt	Briger cyssylltiedig yn dair cymdeithas, neu ychwaneg	Candoll.
19 Cydbenig	Blodeuyn yn cynnwys lliaws o fan flodau, ac i bob un o'r rhai hyn y mae 5 briger a'u penau yn cydgyhwrdd o amgylch y paledryn	Gold yr yd.
20 Benwryw	Briger yn osodedig, neu yn tyfu ar y Paledryn	Tegeirian.
21 Unannedd	Briger a'r Pelydyr yn ysgaredig ar yr un planigyn	Hesgen.
22 Dwyannedd	Briger a'r Pelydyr yn ysgaredig ar amryw blanigion	Blaen yr jwrch.
23 Amrybriodol	Briger yn unig; Pelydyr yn unig; neu eu deuoedd yn yr un blodeuyn	Llygwyn.
24 Dirgelbriodol	Blodau yn anhywel	Cen, A. Rhedyn, B. Mwssogl, C.

LLYSIEUAETH CYMREIG,

&c. &c.

ABAITS; (S. W.) *edr.* BRESYCH.

ABAN; (S. W.) Chrysanthemum *segetum;* Corn Marigold.

ADAFEDDOG. *edr.* EDAFEDDOG.

ADAIN-REDYNEN; Pteris;——Brakes.

ADAIN-REDYNEN Y CHWARELAU; Pteris *crispa;* Curled Stone-fern, Rock Brakes.

AEDORW; Hedera;——Ivy.

AETH. *edr.* EITHINEN.

AETHNEN; AETHWYDDEN; } Populus *tremula;* Trembling Poplar, Aspen.

"Cryn fal dail yr Aethwydd." *Diarh.*

AFAD. *edr.* AFUAD.

AFAL ADDA; Tamus *communis;* Black Bryony.

AFAL DAEAR; Aristolochia;——Birthwort. *edr.* ESGORLLYS.

AFAL DREINIOG; Datura *Stramonium;* Thorn-apple.

AFAL EURAID; Citrus *Aurantium;* Orange.

AFAL GRONYNOG; Punica *Granatum;* Pomegranate.

AFAL MELYNHIR; Citrus *medica* β *Limon;* Lemon.

AFAL PEATUS; Amygdalus *Persica;* Peach.

AFAL { TINDOLL; TINEGORED; } Mespilus *germanica;* Medlar.

AFALWYDDEN; } Pyrus *Malus;* Apple-tree, Crab-tree.
AFALLEN; }

AFAN, AFANLLWYN; Rubus *idæus;* Rasp-berry.

AFANS. *edr.* MABGOLL.

AFUAD, AFFUAD; Marchantia;——Liver-green.

AITH; Ulex;——Furze, Gorse.

ALAN BYCHAN; Tussilago *Farfara;* Colt's-foot. *edr.* CARN YR EBOL.

ALAN MAWR; Tussilago *Petasites;* Common Butter-bur.

ALANNAN; Asarum *europæum;* Asarabacca. *edr.* CARN YR EBOL Y GERDDI.

ÁLAW; Nymphæa *alba;* White Water Lily.

ÁLAW CREWYLL; Convallaria *majalis;* Lily of the valley.

ALAW DIOSGO; Stratiotes *aloides;* Water Aloe, Water Soldier.

ÁLAW GERDDI; Lilium *candidum;* White Lily.

ALAW LLEIAF; Hydrocharis *morsus ranæ;* Frog-bit.

ALELUYA; Oxalis *Acetosella;* Wood-sorrel.

ALISANTR. *edr.* DULYS.

ALMONWYDD; Amygdalus *communis;* Almond.

ALÖEWYDD; Cordia;——Sebeston, or Lign-aloe.

ALLWEST; Gramen;——Grass.

ALLWYDDAU MAIR; Ashe-keys.

AMCWYN; Artemisia *Taragon;* Taragon.

AMDO-WELLT; Elymus;——Lyme-grass.

AMLAETHAI; Polygala *vulgaris;* Milkwort.

Mwydiad o'r llysieuyn hwn mewn dwr berwedig sydd dra llesol rhag clefyd yr ysgyfaint, a pheswch gormwythawl, gan achwanegu peswchboeriad; yfed y claf ynghylch y bedwaredd ran o beintiaid beunydd ar ei gythlwng. E mae yn dda iawn hefyd rhag yr eisglwyf neu wayw ystlys; y dogn ynghylch hanner dram.

AMMRHYDLLWYD; Erigeron;——Fleabane.

AMRAIN; Hydrocotyle *vulgaris;* Marsh Pennywort.

AMRANWEN; Matricaria *Chamomilla;* Wild Chamomile, or Whitewort.

Mae hon yn feddiannol o'r un rhinweddau a'r milwydd neu 'r Camri cyffredin, ond yn wannach, ac a eill wasanaethu pan na byddo honno i'w chael. Cyfrifir hon yn gynhesach ei natur na

honno, am hynny geill hon fod yn fwy llesol i gylla llesg, oeraidd, na honno.

AMRANWEN HELEN LUEDDAWG; Meum *athasmanticum;* Spignel, Meu, Bald-money.

ANDRÆA. *edr.* CREIGYMLYN.

ANFRI; Adoxa *Moschatellina;* Tuberous Moschatel.

ANHILIAWG; Epimedium *alpinum;* Barrenwort.

ANWYWIG; Tillæa *muscosa;* Mossy Tillæa.

ANYS; Pimpinella *Anisum;* Anise.

Yr hâd yn unig a arferir ym meddyginiaeth o 'r llysieuyn rhinweddol hwn; y mae yn beraroglaidd, twymn, a llesol rhag pob math o glefyd gwynt yn yr ymysgaroedd; rhag gwendid a llesgedd o 'r cylla, a 'r coluddion. Yr hâd yn ei sylwedd ydyw yr modd goreu o 'i gymmeryd. Ei cyfrifir yn mwy llesol nac yr un llysieuyn o 'r un genedl ag ef; y dogn o hwn (ac o 'r Brwysgedlys) yw ynghylch scrwpl neu ddau.

ARCHMAIN; Statice *Armeria;* Thrift.

ARFOG; Erysimum *officinale;* Hedge-mustard.

Y dwr berwedig a dywallter ar y llysieuyn hwn, a 'r gwraidd gwedi ei ysigo, sydd droethbair, ac yn llesol i bureiddio y gwaed; y mae hefyd yn fuddiol i 'r ysgyfaint, rhag peswch a chrygni, ac a rwyddha peswchboeriad; hyn oll a gadarnheir gan y Meddyg *Cùlen,* yr hwn hefyd sydd yn canmol y sug ynghyd a 'r un faint o fêl neu siwgr uwchlaw pob peth yn llesol rhag dolur ynghorn y gwddf, a 'r geneu.

Dylid cynhauafa 'r hâd i 'r un gwasanaeth, yr hwn sydd lawn cystal.

ARIAN COR;
ARIAN GWEIRWYR; } Rhinanthus *Crista galli;* Yellow Rattle.
ARIAN GWION;

ARIANLLYS; Thalictrum;——Meadow-rue.

ARLLADLYS; Chironia *Centaurium;* Centaury.

ASPYGAN; Chrysanthemum *Leucanthemum;* Greater Daisy, White Ox-eye.

ASTYLLENLYS; } (s. w.) Plantago *lanceolata;* Ribwort Plantain.
ASTYLLYNES; }

AUR. *edr.* EUR.

AZALEA; Azalea *procumbens;* Creeping Azalea.

BALALWYF. *edr.* PAL.

BALDAR; Satyrium;——Satyrion.

BALAWG. *(llygrair;) edr.* MELAWG Y WAUN.

BANADLEN; }
BANHADLEN; } Spartium *Scoparium;* Common Broom.
BANHALLEN; (s. w.) }

Trwyth neu ferwad y dail a blaenau gleision y brigau ynghyd a llwyaid o hâd mwstardd heb ei ysigo, neu yn gyfan, a jachaodd rai o 'r dyfrglwyf, gan yfed hanner peintiaid o hono bob boreu a hwyr, pan fethodd amryw foddion eraill. Tywalltiad dwr berwedig ar yr had ai yfed yn helaeth sydd effeithiol i 'r un perwyl; e mae yn peri ymadael a dwr yn rhagorol.

Neu; Berwer hanner wns o 'i frigau irion a 'r dail mewn peintiaid o ddwr hyd na leiheir ei hanner; ac yfed y clwyfus ddwy lonaid llwy bob awr hyd na phair arloes, neu hyd nad yfer y cwbl; gan wneuthur hyn bob dydd, neu bob yn ail dydd, y llwyr iachawyd dyfrglwyfus. *(Culen.)*

BANADLEN AUR; } Genista *tinctoria;* Dyer's Greenweed, Dyer's
BANADLOS; } Broom.

BANADLEN BIGOG; Ruscus *aculeatus;* Butcher's Broom.

BARA CAN Y DEFAID; Plantago *maritima;* Sea Plantain.

BARA CAN Y GWCCW; Oxalis *Acetosella;* Wood Sorrel.

BARA CAN A LLAETH; Stellaria *Holostea;* Greater Stitchwort.

BARA 'R CYTHRAUL; Scabiosa *succisa;* Devil's Bit Scabious.

BARA 'R HWCH; Cyclamen *europæum;* Sowbread.

BARF YR AFR; Tragopogon;——Goat's Beard.

BARF Y BWCH. *edr.* ERWAINT.

BARF Y GWR HEN; Clematis *Vitalba;* Traveller's Joy.

BARFAU 'R DERW; Lichen *plicatus;* Tree Lichen, or Moss.

BARFRWYNEN; Iuncus *acutus;* Great Sharp Sea Rush.

BARLYS; Hordeum;——Barley.

BARTHLYS; Parietaria *officinalis;* Pellitory of the wall.

BARTRAMIA. *edr.* CRYNFWSOGL.

BARTSIA. *edr.* GORUDD.

BASIL. *edr.* BRENINLLYS.

BAW MWCCI; Arctium *Lappa;* Burdock.

BAWM. *edr.* GWENYNDDAIL.

BEATWS. *edr.* BETYSEN.

BEDWEN; Betula *alba;* Birch.

BEDWEN CHWERW. *edr.* BYDDON.

BEIDIAWG LAS; Glechoma *hederacea;* Gill, Ground Ivy.

BEIDIAWG LWYD; Artemisia *vulgaris;* Mugwort.

BEIDIAWG RUDD, *neu* GOCH; Polygonum *amphibium;* Amphibious Persicaria.

BEISDONELL; Littorella *lacustris;* Plantain Shore-weed.

BELA; Hyoscyamus *niger;* Common Henbane.

BENDIGEIDLYS; Geum *urbanum;* Common Avens.

BERW (N. W.)
BERWR.
BERWY (S. W.)
} CAERSALEM; Sisymbrium *Irio;* London Rocket.
CHWERW; Cardamine *amara;* Bitter Ladies' Smock.

BERWR Y DWR; Sisymbrium *Nasturtium;* Water Cress.

Fe a'i arferir, neu e ddylid e'i arferu, yn gyffredin yn fwydlys iachus, yn enwedig yn y gwanwyn; gan iddo yn hynod bureiddio 'r gwaed, a'i fod yn llesol iawn i 'r cylla, ac i chwalu rhwystrau yn yr ymysgaroedd; cyffelyb yw ei natur i 'r Llwylys neu ddail yr ysgyrfi. Dr. Cùlen a ddywed fod hwn, a 'r amryw lysiau eraill o 'r un genedl, sef y llwylys, yr hydyf, &c. yn fwy effeithiol eu rhinweddau, ynghyd a llysiau surion, sef Suran y coed, Suran y cwn, neu suran yr yd.

BERWR Y FAGWYR;
BERWR Y CERRIG;
} Arabis;——Wall Cress.

BERWR Y FAM; Sisymbrium *Sophia;* Flixweed.

BERWR FFRENGIG, *neu* YR ARDD; Lepidium *sativum;* Garden Cress.

BERWR Y FFYNONAU, *edr.* B. Y DWR.

BERWR Y GAUAF; Erysimum *Barbarea;* Bitter Winter Cress.

BERWR Y GLINWST; Iberis;——Sciatica Cress.

BERWR GWYLLT; Lepidium *latifolium;* Broad-leaved Pepperwort.

Tebyg ei natur ydyw i ferwr y dwr, ond yn fwy surboeth a chryfach; llesol yw i buro 'r gwaed; trwyth o hono sydd gyfogbair.

BERWR YR IAR; Polygonum *aviculare;* Knot-grass.

BERWR MÔN A MANAW; Sisymbrium *monense;* Dwarf Sea Rocket.

BERWR MELYN BLYNYDDAWL Y DWR; Sisymbrium *terrestre;* Annual Water Rocket.

BERWR Y MEUSYDD; Cardamine *hirsuta;* Hairy Ladies' Smock.

BERWR Y MÔCH; Coronopus *Ruellii;* Wart Cress, Swine's Cress.

BERWR TALIESIN; Sedum *Telephium;* Orpine, Live-long.

Dyferwad o'r dail mewn llefrith sydd droethbair cryf. E mae hefyd yn fuddiol rhag y lledewigwst, gan ei fod yn rhywiog a llysnafeddog.

BERWR Y TORLENYDD; } Sisymbrium *amphibium;* Great
BERWR MELYN MWYAF Y DWR; } Water Rocket.

BERWY. *edr.* BERW.

BERYN; Iberis;——Candytuft.

BERYW; } Juniperus;——Juniper.
BERYWYDD; }

BERYRYN; Vella *annua;* Annual Cress Rocket.

BETYSEN; Beta *maritima;* Sea Beet. MELGED.

BIDAWGLYS; Lobelia *Dortmanna;* Water Lobelia.

BIWLITH; Melampyrum;——Cow-wheat.

BLAEN Y CONYN AR Y MEL; Agrimonia *Eupatoria;* Common Agrimony.

BLAEN Y GWAEW; Ranunculus *Flammula;* Lesser Spearwort.

Sydd dra ysol-sur ac a bair chwysigenau ar gorph dyn. *Edr.* CRAFANGC Y FRAN.

BLAEN YR IWRCH; Mercurialis *perennis;* Perennial Mercury.

BLEIDD-DAG; Aconitum *Napellus;* Wolf's Bane.

BLEIDD-DREM; Lycopsis *arvensis;* Small Bugloss. *Edr.* TAFOD YR YCH CULDDAIL.

BLEWOG; Verbascum *Thapsus;* Great Mullein.

BLEWGEIRCH; Avena *strigosa;* Bristle-pointed Oat.

BLEWYNOG; Hieracium *Pilosella;* Mouse-ear Hawk-weed.

BLIW; BLIWLYS; BLIWYN; } Daphne *Mezereon;* Spurge Olive.

BLODAU AMMOR; Amaranthus;——Flower gentle.

BLODAU 'R BRENIN; Pæonia *officinalis;* Peony.

BLODAU 'R FRAN; Lychnis *Flos cuculi;* Ragged Robin, Meadow Lychnis.

BLODAU 'R GÔG; Cardamine *pratensis;* Meadow Ladies' Smock, Cuckow Flower.

Y blodau, a 'r blodeu-ben a arferir yn llwyddianus rhag y clwyf dygwydd; ac a ddifa lyngyr yn y cylla; y dogn yw o hanner dram i ddwy ddram yn bylor.

Gellir bwyta y llysieuyn, neu tywallter dwr berwedig arno, ac yfer hwnnw.

BLODEUYN Y GWYNT; Anemone *nemorosa;* Wood Anemone.

Pob rhan o'r llysieuyn hwn sydd lymsyr.

BLODEUYN MIHANGEL, Gentiana *Pneumonanthe;* Calathian Violet.

BLODEUYN Y PASC; Anemone *Pulsatilla;* Pasque Flower.

BLODEUYN YR YMENYN; Ranunculus *bulbosus;* Bulbous Crow-foot, Butter-cups.

BLONEG Y DERW; Xylostroma *giganteum;* Oak-leather.

BLONEG Y DDAEAR; Bryonia *dioica;* Red-berried Bryony.

BOCCYS, PREN BOCCYS; Buxus *sempervirens;* Box-tree.

Pylor o 'r dail a ladd lyngyr; a thrwyth o honynt a dewycha gwallt y pen.

BOGAIL Y FORWYN; BOGAIL GWENER; } Cotyledon *Umbilicus;* Common Navelwort.

BOGEIL-GEN; Lichen *Umbilicatus;* Umbilicated Liverwort; a division of the genus LICHEN.

BOGEIL-LYS; Cotyledon;——Navelwort.

BOGLYNON; Eryngium;——Eryngo.

BOGLYNON ARFOR; Eryngium *maritimum;* Sea Eryngo, Sea Holly.

Mae gan y gwraidd yr un rhinweddau a gwraidd y Tegeirian.

BOLED OLWEN; Convolvulus *sepium;* Great Bindweed.

Yr *Olwen* hon oedd lân odiaethol a merch i Yspyddadan.

BOTASEN Y GÔG; Scilla *nutans;* Wild Hyacinth.

BRAGWAIR; Gramina *vivipara;* Viviparous Grasses.

Yr wyf yn tybio i 'n hynafiaid gynnwys tan yr enw hwn bob math o las-wellt bywhiliog.

BRAIL; Rosa;——Rose.

BRATHLYS; (*edr.* GWLYDDYN MAIR.) Anagallis *arvensis;* Pimpernel.

BRAUWYDD; Rhamnus *Frangula;* Berry-bearing Alder.

Chwarter neu hanner wns o 'r ail risgl wedi ei ferwi mewn diod fain sydd garth-ddiod lem, a buddiol rhag y dyfrglwyf; ac hefyd yn hynod i symmud rhwystrau yn ngholuddion anifeiliaid corniog, ac i beri arloes.

BRECHLYS; Stellaria *media;* Common Chick-weed.

Y llysieuyn cyffredin hwn sydd fwydlys iachus a blasus, gwedi ei ferwi, ynghyd a chigfwyd.

BREFAI; } Mentha *Pulegium;* Pennyroyal. *edr.* BRYMLYS.
BREFLYS; }

BREILA, BREILW, BREILYLWYN. *edr.* BRAIL.

BRENINLLYS DOF; Ocymum *Basilicum;* Great Basil.

BRENINLLYS GWYLLT; Clinopodium *vulgare;* Wild Basil.

BRESYCH; Brassica *oleracea;* Sea Cabbage.

BRESYCH BENGRON WEN; Br. *oler.* δ. White Cabbage.

BRESYCH BENGRON GÔCH; Br. *oler.* γ. Red Cabbage.

BRESYCH Y CWN; Mercurialis *perennis;* Perennial Mercury.

BRESYCH Y MÔR. *edr.* YSGEDD.

BRESYCH YR YD; Brassica *Napus;* Rape, Navew, Cole-seed.

BRIAL; Parnassia *palustris;* Grass of Parnassus.

BRIALLU; Primula *vulgaris;* Common Primrose.

Y llysieuyn cyffredin hwn sydd hynod lesol rhag y fynyglog; ysiger y gwraidd, a diferer ychydig o'r sug ar gledr llaw y claf, a ffroen-sugned neu dynned efe hwn i fynu i 'w ffroenau: Gwybuwyd iddo ddwyn esmwythâd yn fuan iawn. Yr hen hynod lysieuwr *Gerard* a ddywed fod dram a hanner o'r gwraidd sychion, a heliwyd yn y cynhauaf, gwedi eu malu, yn gyfogbair cryf a diniweid.

BRIALLU MAIR SAWYRUS; Primula *veris;* Cowslip, Paigle.

BRIALLU MAIR DISAWR; Primula *elatior;* Great Cowslip, Oxlip.

BRICYLLWYDDEN; Prunus *Armeniaca;* Apricot-tree.

BRIGAU 'R TWYNAU; Galium *verum;* Yellow Bed-straw, Cheese-rennet.

BRIGER-FWSOGL; Polytrichum; Hair-moss.

BRIGER GWENER; } Adiantum *Capillus Veneris;* True Maiden-hair.
BRIGER GWENO; }

BRIGWELLT; Aira;——Hair-grass.

BRIGWLYDD; Callitriche;——Water Starwort.

BRIL-LYS; Centunculus *minimus;* Bastard Pimpernel, Small Chaff-weed.

BRIW 'R MARCH; Verbena *officinalis;* Common Vervain.

Yn yr oesoedd gynt, o herwydd rhyw goelgrefydd, lliosog y tybiwyd rhinweddau y llysieuyn hwn; eithr yn yr oes hon ni chaniatteir iddo gan feddygon yr un o honynt.

BRITHEG; Fritillaria *Meleagris;* Checquered Daffodil, Snake's Head.

BRIWEG; Sedum;——Stonecrop.

BRIWEG Y CERRIG; Sedum *anglicum;* English Stonecrop.

BRIWLYS; Stachys;——Woundwort.

BRIWLYS TEWBANNOG; Stachys *germanica;* Downy Woundwort.

BRIWLYS Y TAIOG; Stachys *palustris;* Marsh Woundwort.

BRIWYDD; Galium;——Bedstraw.

BRONWEN. *(llygrair.) edr.* AMRANWEN.

BRONWERTH; Borago *officinalis;* Common Borage. *edr.* GLESYN.

BRONWERTH Y WIBER; Echium;——Viper's Bugloss.

BRONWST; } Ranunculus *Ficaria;* Pilewort.
BRONWYS; }

BRUSEG. *edr.* CELYNEN MAIR.

BRWYNEN; Iuncus;——Rush.

BRWYNEN FLODEUOG. *edr.* ENGRAFF.

BRWYNDDAIL Y MYNYDD; Anthericum *serotinum;* Mountain Spiderwort.

BRWYSGEDLYS; Coriandrum *sativum;* Coriander.

Unnaws ydyw a 'r Anys. *edr.* ANYS.

BRYMLYS; Mentha *Pulegium;* Pennyroyal.

Sug, neu fwydiad y ddeilen rinweddol hon mewn dwr berwedig, ynghyd ag ychydig siwgr, sydd lesol iawn rhag y pâs, mae hi yn dda hefyd rhag clefyd y fam, clefyd y gwynt, a chwlwm y gwythi, ac i gryfhau'r cylla. *edr.* PUPUR FINTYS.

BRYTWN; Artemisia *campestris;* Field Southernwood.

BUELITH. *edr.* BIWLITH.

BULADD. *edr.* BUMUSTL.

BULAS. *edr.* EIRINEN.

BULWG; B. RHUFAIN; } Agrostemma *Githago;* Corn Cockle.

BULWG FFRENGIG; Papaver;——Poppy.

BUMUSTL; Cicuta *virosa;* Water Cowbane, Water Hemlock.

Hwn a gyfrifir ymhlith yr erchyllaf o 'r llysieuaidd wenwyn; er hynny, oddiallan y mae 'n wasanaethgar yn sugaethan, i esmwythau poen a gofid y gymmalwst, a 'r cyffelyb.

Finegr ydyw 'r meddygiaeth goreu rhag effaith gwenwynllyd y llysieuyn hwn,—y Gegiden gyffredin,—y Gysplys a 'r cyffelyb pe digwyddai achos.

BUSTL Y DDAEAR; Chironia *Centaurium;* Centaury.

BWFFONIA; Buffonia;——Chickweed Toad-grass.

BWLTYS; Nymphæa *lutea;* Yellow Water Lily.

Trwyth o bwys o 'r gwraidd îr mewn galwyn o ddwr berwedig, a iachaodd darddiant allan ar fraich dyn, nid anghyffelyb i 'r gwahanglwyf, gan i 'r claf yfed o hono beintiaid hwyr a boreu.

BWRLI. *edr.* GWYRDDLING.

BWTIAS. *edr.* BOTASEN.

BWYD Y BARCUD; Agaricus;——Agaric.

BWYD HWYAID; Lemna;——Duckweed.

BWYD ELLYLLON. B. LLYFFAINT. } *edr.* BWYD Y BARCUD.

BYDIAWG LAS; Glechoma *hederacea;* Ground-ivy, Gill, Alehoof. *edr.* EIDRAL.

BYDIAWG LWYD; Artemisia *vulgaris;* Mugwort.

Trwyth o 'r llysieuyn hwn a gymmerir yn gyffredin rhag y cryd, neu 'r ddeirton. Dram o 'r dail yn bylor a ddodwyd bedair gwaith yn y dydd (gan y Dr. Home) i wraig a fuasai gwla tan glefyd y fam, a 'i gloesiau, tros nifer o flynyddoedd, a hi a iachawyd mewn ychydig ddyddiau: Ni wnaeth na 'r *Asafœtida,* na 'r *Æther* les o 'r hyn lleiaf iddi. Y dail irion wedi eu hysigo, neu eu pwyo, a wnant blastr llesol iawn ar archoll, neu friw newydd gan gyllell, neu unrhyw erfyn arall.

BYDDARLLYS; Sempervivum *tectorum;* Houseleek.

Y sug ei hun, neu yn gymmysgedig a hufen, a rydd esmwythder

buan tan losg tân, neu unrhyw ennynfa, neu wres arall ar gorph dyn; ac yn gymmysgedig a mêl mae yn llesol rhag mân darddiadau, a dolur yn ngeneuau plant, yr hwn a elwir y *gân*.

Nifer o feddygon a dystiant i ddynes ocdranus (yn agos i Toulouse yn Ffraingc) gacl, yn gyntaf mawr lês, ac wedi hynny, ei llwyr iachau o gangcr yn ei bron o hîr barhâd, trwy ddodi ar y dolur blastr neu sugaethan o ddail y llysieuyn hwn.

BYDDON CHWERW; Eupatorium *cannabinum*; Hemp Agrimony.

Dwr berwedig ar lonaid llaw o 'r ddeilen hon sydd gyfogbair, a charthlyn rhwydd lym. Wns o 'r gwraidd gwedi ei ferwi mewn dwr sydd lawn ddogn; eithr yn fân ddognau e mae yn llesol i bureiddio y gwaed.

" O myny na bych veddw, yf loneit plisgin wy o sudd y Fyddon chwerw!"—*Meddygon Myddfai.*

BYSEDD COCHION;
B. Y CWN;
B. ELLYLLON; } Digitalis *purpurea;* Purple Foxglove.

Deilen o rinweddau anghyffredin yw hon; eithr mae hi môr nerthol, nad diberygl ydyw ymhel a hi, oddieithr a dwylaw celfydd iawn, gan fod pwys hanner gronyn o honi, yn bylor, yn ddogn i ddyn cryf. Er hynny mi allaf ganmol tywalltiad dwr berwedig arni, i 'w arferu o 'r tu allan, i olchi goryn ar wyneb, neu ryw gwr llynorawg arall ar gorph dyn, nid amgen, Tân iddwf, crugdarddiad, a'r cyffelyb; geill hefyd, o'r hyn lleiaf, fod mewn rhyw fesur yn llesol rhag y cangcr; ac i ysgafnhau 'r gwaew, onid llwyr jacha efe y crugboethfflam, neu 'r tandde chwyddedig.

BYSEDD YR IAR; Raphanus *Raphanistrum;* Wild Radish.

BYSWELLT; Dactylis;——Cock's-foot-grass.

BYWFYTH; Sempervivum *tectorum;* Houseleek.

BYWFYTH LEIAF; Sedum *acre;* Wall Pepper, Biting Stonecrop.

BYWI; Bunium;——Earthnut.

BYWLYS;
BYWYDOG; } Sedum;——Stonecrop.

BYWYDOG LLYDANDDAIL; Sedum *Telephium;* Orpine, Live-long.

CABATSHEN. *edr.* BRESYCH.

CACAMWCCI; Arctium *Lappa;* Burdock. *edr.* CEDOWRACH.

CACAMWCCI LLEIAF; Xanthium;——Small Burdock.

CADAFARTH: Sinapis *arvensis;* Charlock, Wild Mustard.

"Addwyn Cadafarth yn egin." *Taliesin.*

CAILL Y CI. *edr.* CEILLIAU.

CAINEIRIAN; Ophrys;——Twayblade.

CALAF; Arundo;——Reed.

"Rhudd rhedyn, melyn Calaf." *Llywarch hên.*

CALA'R GETHLYDD; CALA'R MYNYCH; } Arum *maculatum;* Cuckow-pint, Wake Robin.

CALDRIST; Serapias:—Helleborine.

CALDRIST Y BANADL; Orobanche;——Broom-rape.

CALFELFED; Typha;——Cat's-tail, Reed-mace.

CALIWLYN Y MEL; Agrimonia *Eupatoria;* Common Agrimony.

CALLAWDYR; CALLOD; } Lichenes *foliacei;* Foliaceous Liverworts; a division of the genus LICHEN.

CAMAMIL. *edr.* CAMRI.

CAMMAIDD-WELLT. *edr.* CORWELLTYN.

CAMMINED; Iris:——Flower-de-luce, Iris.

CAMRI; Anthemis *nobilis;* Chamomile.

Dwr berwedig ar y blodau sydd hynod lesol i 'r cylla, gan chwalu gwynt, ac iachau cnofeydd, a rhag gwrwst tufewnol, i 'w yfed fel y bo achos yn peri; ac ychydig o hono yn gryf ar gythlwng a gryfha'r cylla, ac a bair awydd i fwyd; llawer o hono a bair gyfogi. Y blodau yn bylor ac yn ddognau go helaeth (ynghylch ugain gronyn o bwys) bob pedair awr a hyn tros rai dyddiau, a yrrodd y wrach ar ffo, gwedi i amryw foddion, a arferir gan feddygon, fethu. Da yw hefyd rhag clefyd y fam. E mae 'r dail a 'r blodau yn fuddiol iawn yn feddygolch brwd, ac yn sugaethan, neu lysblastr. Oddifewn ac oddiallan hwy esmwythânt gûr a dolur yn y pen, &c. E mae i 'r blodau hefyd y gair o fod yn dra gwasanaethgar rhag clefyd y graean.

CAMRI Y CWN; Anthemis *Cotula;* Stinking Mayweed, or Chamomile.

Y mae y ddeilen hon yn chwannog i wneuthur niwed i fedelwyr,

a phlant, y rhai a ddigwydd ymhel a hi, gan beri ar eu dwylaw fân chwysigl, a dolur, heb iddynt wybod yr achos.

CANCLWM; Polygonum *aviculare;* Knot-grass.

Deilen rinweddol iawn ydyw hon rhag pob math o friwiau, ac ysigtod oddimewn. Tywallter dwr berwedig ar swm o honi, ac yfer hwnnw yn glauar, neu yn oer; efe a attal, ac a ddiddosa bob math o waedlif oddimewn, ac o 'r ffroenau; e mae hefyd yn llesol rhag y dolur rhydd. Os ysigir hi a'i dodi yn blastr, hi a oera lygaid a fyddant glwyfus gan wres.

CANCLWYF; Lysimachia *Nummularia;* Creeping Loose strife, Money-wort, Herb Twopence.

CANCLYMMIG; Corrigiola *littoralis;* Sand Strapwort.

CANDOLL; Hypericum *perforatum;* Perforated St. John's-wort.

Dywedir i 'r dail ddifa Llyngyr; au bod yn llesol rhag troeth gwaedlyd, a chlwyf y gwaed. Y mae 'r brig neu 'r toppyn, pan fo ar flodeuo, neu yn ei flodau, gwedi ei ysigo yn hynod o blastr ar archoll cyllell, neu 'r cyffelyb erfyn miniog; ac ynghyd a llys y gwaedlif e mae yn hynod o darfgryd, ac yn fuddiol rhag iselder ysprydoedd; triner yn yr un modd a 'r *té.*

CANHAUAWL; Parietaria *officinalis;* Pellitory of the wall.

CANHEWIN; Sedum *Telephium;* Orpine, Live-long.

CANRHI FELEN; Chlora *perfoliata;* Yellow Centaury.

CANRHI FELEN EIDDIL; Exacum *filiforme;* Least Gentianella.

CANRHI GÔCH; Chironia *Centaurium;* Common Centaury.

CANTAFAWD. *edr.* CANHAUAWL.

CANWRAIDD GÔCH; Polygonum *amphibium;* Amphibious Persicaria.

CANWRAIDD LAS; Glechoma *hederacea;* Ground Ivy.

CANWRAIDD LWYD; Artemisia *vulgaris;* Mugwort.

CANWYLL YR ADAR; Verbascum *Thapsus;* Great Mullein.

CANWYLL-FRWYNEN; Iuncus *effusus;* Soft Rush.

CARDDWY; Carum *Carui;* Common Caraway. *edr.* CARWAS.

CARN YR EBOL; Tussilago *Farfara;* Common Colt's-foot.

Sydd chwerwaidd a llyslynaidd i 'w archwaethu; y mae yn llesol rhag y graean a gwres yn yr elwlenau. Tywallter arno ddwr berwedig, ac yfed y clwyfus o hono yn helaeth, ac yn aml. Eithr tra rhinweddol ydyw rhag clefyd yr ysgyfaint, diffyg anadl ar peswch;

a'r modd goreu i 'w arlwyo rhag y Clefydau diweddaf ydyw, malu swm o 'r dail irion a thywallt drostynt ddwr berwedig, a gadael iddynt sefyll dros nos, a rhoddi iddynt ferwad drannoeth, tros ddau funud neu dri, a 'i felysu ag ychydig fêl; yna yfed y claf ddiod (ynghylch hanner peintiaid) o'r trwyth hwn deirgwaith yn y dydd; llesol hefyd fydd ei losgi mewn pibell yn yr un modd a'r myglys neu dybacco. Meddyg enwog (*sef Dr. Cùlen*) yn ddiweddar a 'i cafodd yn dra llesol rhag y manwynau (neu glwyf y brenin); trwyth neu ferwad o 'r dail wedu eu sychu a adferasant iechyd, gwedi methu o heli 'r mor, ac amryw foddion, a chyffyriau eraill. Gwr arall (*sef Fùler*) a'n hyspysa am eneth, a deuddeg o friwiau manwynawg arni, yr hon a iachawyd wrth yfed yn helaeth iawn beunydd, dros bedwar mîs, o drwyth cryf o 'r llysieuyn hwn. Hwsmonwr hynod a ddywed y gellir difetha 'r llysieuyn hwn o dîr, os torrir coron neu ben y gwreiddyn yn y mîs mawrth.

CARN YR EBOL Y GERDDI; Asarum *europæum;* Asarabacca.

Pwys o 20—i—25 gronyn o 'r gwraidd yn bylor sydd gyfogbair ac ysgarthaidd, neu fwydiad o ynghylch dram o 'r dail mewn gwin.

Y dail yn llwch a goethant y ffroenau a'r pen.

Y meddyg *Cùlen* a ddywed yn fwy hyspysol; pe sychid y gwraidd hyd yn unig y gellid ei wneud yn bylor, ei fod yn gyfogbair esmwyth, a diniwed, yn ddognau rhwydd fychain, sef ynghylch pwys ugain gronyn neu weithiau lai na hynny. Ac ym mhlith yr holl gyffyriau nid oes dim cyffelyb iddo am beri dyferlif o 'r pen; y dail sydd oreu i 'r perwyl yma. Os cymmerir i fynu i 'r ffroenau pwys gronyn neu ddau dros rai nosweithiau olynol, efe a bair ddyferlif o 'r ffroenau, yr hwn a barhâ dros rai dyddiau, trwy ba fodd yr iacheir yn effeithiol yr amryw glwyfon canlynol; sef dolur, neu gûr yn y pen,—y ddannodd,—dolur a gwres yn y llygaid,—a rhyw argoel o 'r parlys a 'r hunglwyf.

CARN YR EBOL Y MÔR; Convolvulus *Soldanella;* Sea-Bindweed.

CARNEDD; Senecio;——Groundsel.

CARNEDD FELEN FENYW; Senecio *vulgaris;* Common Groundsel, Simson.

Tywalltiad dwr berwedig ar y llysieuyn hwn, a hwnnw yn o gryf,

sydd gyfogbair. Y dail gwedi eu pwyo ydynt lesol iawn i'w dodi ar benddüyn, neu benddiged.

CARNEDD FELEN WRRYW; Senecio *Jacobæa;* Common Ragwort.

Os berwer gwlan mewn dwr ag alwm a thrachefn mewn trwyth o flodeu y llysieuyn hwn, e gymmer liw melyn hynod o brydferth.

CARTHEIG; Lapsana *communis;* Nipplewort.

CARWAS; Carum *Carui;* Common Carway.

Y mae 'r hâd yn llesol rhag gwendid a gwynt yn y cylla, a rhag yr wrwst, neu gwlwm y gwythi, a chlefyd y fam; y dogn yw ynghylch scrwpl.

CARLLYS; } Tordylium;——Hartwort.
CARWLLYS; }

CAS GAN ARDDWR; Ononis *arvensis;* Rest harrow, Cammock.

CAS GAN BLADURWR. *edr.* CAWNEN DDU.

CAS GAN FURSEN. *edr.* CYWARCHEN.

CAS GAN GYTHRAUL; Verbena *officinalis;* Common Vervain.

CASTANWYDDEN; Fagus *Castanea;* Chensut tree.

CASTANWYDDEN Y MEIRCH; Æsculus *Hippocastanum;* Horse Chesnut.

CASWENWYN; Scabiosa *succisa;* Devil's-bit Scabious.

CAWEN; (s. w.) Sparganium;——Bur-reed.

CAWLEN, CAWL GWYLLT. *edr.* BRESYCH.

CAWNEN DDU; Nardus *stricta;* Mat-grass.

CAWS LLYFFAINT. *edr.* BWYD, &c.

CAWS LLYFFAINT DRAENOG; Hydnum;——Hedgehog Mushroom.

CEBYDDLYS. *edr.* CIBELLYN.

CECYSEN. *edr.* CEGIDEN.

CEDOR Y WRACH; Spergula *arvensis;* Corn Spurrey.

CEDORWYDD; Ferula *communis;* Giant Fennel.

CEDOWRACH; Arctium *Lappa;* Burdock.

Trwyth o'r gwraidd a fernir gan rai meddygon enwog, yn llawn cystal os nid gwell na 'r unrhyw o'r *Sarsaparilla*, yr hwn sydd hynod chwysbair, i deneuhau a phureiddio y gwaed. Nadder wns a hanner o'r gwraidd îr yn fân dafellau, a thywallter arnynt beintiaid a hanner o ddwr berwedig, mewn llestr pridd, a phan oero hidler ef; hyn sydd ddigon yn ddau ddogn; twymner ei hanner a chymmysger a hanner peintiaid o lefrith, ac wns o fel,

yfer ef, un ai ar ei ben ei hun, neu ynghyd a bara yn foreu-bryd, a 'r hanner arall, yn yr un modd, yn hwyr-bryd, neu swpper; neu gellir ei drin a'i yfed yn yr un modd a'r tê, tair cwpanaid neu bedair. Y mae yn hynod feddygiaeth rhag diffyg anadl,—poeri gwaed,—y gymmalwst,—y graeanwst, ac i ryddhau attalfeydd yn y Coludd. Rhag y graeanwst gellir malu 'r hâd ai yfed ar faidd. *edr.* MORONEN Y MAES.

CEDOWRACH LLEIAF; Xanthium *strumarium;* Small Burdock.

CEDOWYDD, CEDOWYS } CYFFREDIN; Inula *dysenterica;* Common Fleabane.

Ymae hanesydd yn mynegi i ni i filwyr ymmerawdwr Rwssia, y rhai ydoedd flin iawn arnynt gan glefyd y gwaed, gael eu hadferu i'w hiechyd gan drwyth o 'r llysieuyn hwn.

CEDRWYDDEN; Pinus *Cedrus;* Cedar of Libanus.

CEDU, CEDW } DU; Sinapis *nigra;* Common Mustard.

Llwyaid, sef hanner wns, neu ychydig ychwaneg o'r hâd yn gyfaion, neu heb eu hysigo, mewn diod o gwrw twymn a wnâ les anghyffredin i ddyn dan y crydcymmalau tostaf, neu'r parlys; boed i'r claf orwedd yn ei wely rai oriau ar ol cymmeryd y meddygiaeth. Tywalltiad dwr berwedig ar gryn swrn o'r hâd gwedi eu hysigo sydd gyfogbair; eithr yn ddognau mân e fydd yn wasanaethgar iawn, gan ei fod yn droethbair ac yn esmwyth ruddhau 'r ymysgaroedd. Buddiol ydyw rhag diffyg anadl. O'r tu allan i'r corph e fydd yn dra buddiol rhag cryd y cymmalau, y glinwst, a'r cyffelyb. Nid oes dim mwy dewisedig i goethi, neu i gynhyrfu teimlad bywiog yn unrhyw gwr o'r corph, na had y llysieuyn hwn. Cyffelyb yn eu heffeithiau ydyw 'r dû ar gwyn.

Os tywelltir hanner peintiaid o ddwr berwedig ar hanner wns o'r had gwedi ei ysigo, ynghyd a hanner wns o'r Rhuddygl mawrth, a gadael iddynt sefyll dros ennyd, a'i gymmysgu ag ychydig fêl efe a wna olch hynod rhag crygni, dolur y safn, a chorn y gwddf. Y mae had y llysieuyn hwn yn gyffelyb ei natur a'i rinweddau i wraidd y rhuddygl mawrth; edrych a ddywedpwyd yno.

CEDW GWYLLT; Sinapis *arvensis;* Charlock, Wild Mustard.

Geill y ddeilen hon wasanaethu yn dda i'w berwi yn lle bresych ynghyd a chigfwyd.

CEDW GWYN; Sinapis *alba;* White Mustard.

CEGIDEN; Conium *maculatum;* Common Hemlock.

Er bod pob rhan o'r llysieuyn hwn yn wenwynig, etto mewn dwylaw celfydd ef a all fod y feddyginiaeth llesol.

Y modd goreu i'w barottoi ydyw hel y dail pan fo y llysieuyn yn ei flodau, a phigo y man ddail oddiar y coesau a'u sychu yn yr haul, neu o flaen tân, a'u cadw yn ofalus mewn codau o bapur llwyd cryf; a phan fo achos, gwneler hwynt yn bylor: gellir cymmeryd o bymthed i bum gronyn ar ugain o'r man-lwch hwn ddwywaith neu dair yn y dydd. Y meddyg *Withering* a'i profodd yn llesol iawn rhag y cryd cymmalau hirbarhaus, a chlefydon eraill a dybir eu bod yn deilliaw oddiwrth surni yn y gwaed.

CEGIDEN Y DWR; Phellandrium *aquaticum;* Horsebane, Water Hemlock.

CEGIDEN FENYW; Chærophyllum *sylvestre;* Cow Parsley, Wild Chervil.

CEGIDEN WEN; Scandix *odorata;* Sweet Cicely, Great Chervil.

CEGLYNNYDD. *edr.* CYNGLENNYDD.

CEGYR MAWR; Cicuta *virosa;* Water Cowbane, Water Hemlock.

CEIAN, CEILYS; Dianthus; Pink. *edr.* PENNIGAN.

CEIDWAD; Salvia *officinalis;* Sage.

Ni chyfrifir, yn y dyddiau hyn, fod i'r ddeilen hon gynnifer o rinweddau ag a fyddid gynnefin yn yr hen oesoedd; eithr canmolir hi gan rai, am attal chwysiad y nôs, triner hi yn yr un modd a'r tê a chymmerer yn rhan o luniaeth; neu tywallter arni ddwr berwedig ac yfer hwnnw yn gryf weithiau yn y dydd.

CEILLIAU'R CI; Orchis;——Dog's-stones, Cullions, Orchis.

CEINIOGLYS CERNYW; Sibthorpia *europæa;* Cornish Moneywort, Sibthorpia.

CEIRCHEN; Avena;——Oat.

CEIRCH-WELLT; Avena;——Oat-grass.

CEIRIOSEN; (S. W.) Prunus *Cerasus;* Cherry-tree.

CEIRIOSEN Y WAUN; Vaccinium *Oxycoccus;* Cranberry.

CELYNEN; Ilex *Aquifolium;* Holly-tree.

CELYNEN MAIR; C. FFRAINGC; } Ruscus *aculeatus;* Butcher's Broom, Knee Holly.

CEN; Lichen;——Liverwort.

CEN Y CERRIG. *edr.* CLAFR-GEN.

CENNINEN GYFFREDIN; Allium *Porrum;* Leek.

Meddyginiaeth rhagorol rhag clefyd y garreg a'r graeanwst a ellir ei barottoi o'r llysieuyn hwn, yn y modd hyn; sef, tywallter deuchwart o ddwr meddal ar lonaid llaw helaeth o'i fânwraidd, a doder gauad arnynt, a gadawer iddynt ferwi yn arafaidd hyd na leiheir y trwyth ynghylch yr hanner, yna yfed y claf beintiaid o hono yn y dydd, yn dair rhan, sef un ran y boreu, yr ail tu a chanol y dydd, a'r drydydd ynghylch pryd gwely; hyn sydd ddigon i ddyn llawndwf. *edr.* CRAF Y GERDDI.

CENNINEN EWINAWG; Allium *sativum;* Garlick.

CENNINEN Y BRAIN; Scilla *nutans;* Wild Hyacinth.

CENNINEN Y GWINWYDD; CENNINEN PEDR; } Narcissus *Pseudonarcissus;* Daffodil.

CENRHI. *edr.* CANRHI.

CERDDINEN, (S. W.) *edr.* CRIAFALLEN, (N. W.)

CERDDINEN GYFFREDIN; Pyrus *Aucuparia;* Quicken tree, Mountain Ash.

CERDDINEN DDÔF; Pyrus *domestica;* True Service tree.

CERDDINEN WEN; Pyrus *Aria;* White Beam tree.

CERDDINEN WYLLT; Pyrus *torminalis;* Wild Service tree.

CERI. *edr.* CERDDINEN.

CERIAFAL. *edr.* CRIAFALLEN.

CEULION; CEULON; } Galium *verum;* Cheese-rennet.

CIAWG. *edr.* CEDOWRACH.

CIBAWG; Panicum;——Panick-grass.

CIBELLYN; CIBELLYS; } Allium *Schænoprasum;* Chive Garlick.

CILGAIN; Asphodelus;——Asphodel.

CINGROEN; Phallus *impudicus;* Stinking Morel.

CIP Y COED; Lichen *imbricatus;* Tiled Liverwort; a division of the genus LICHEN.

CIROS; Rosa *canina;* Dog-rose, Hep-tree.

Dail pob rhyw o'r Rhoswydd, yn enwedig hwn yma, a ganmolir yn lle Tê; gan iddynt, gwedi eu sychu yn gelfydd, roddi blas ac arogl peraidd, a lliw tlws i ddwr berwedig.

CLAER. *edr.* GORCHWYRYDD.

CLAERLLYS; } Samolus *Valerandi;* Water Pimpernel.
CLEYRLLYS;

CLAES MAIR. (s. w.) *edr.* GORCHWYRYDD.

CLAFR-GEN; Lichen *leprosus;* Leprous Liverwort; a division of the genus LICHEN.

CLAFRLLYS; Scabiosa;——Scabious.

CLAFRLLYS MAWR; Inula *Helenium;* Elecampane.

CLAFRLLYS LLEIAF; Scabiosa *columbaria;* Small Scabious.

CLAIS; Scabiosa *arvensis;* Field Scabious.

CLAIS YR HYDD; Mercurialis;——Mercury.

CLAIS Y MOCH; Salvia *Horminum;* Purple Clary.

CLASWYDD; Ulmus;——Elm.

CLAUARLLYS; Sedum *acre;* Biting Stonecrop, Wall Pepper.

CLAW, CLAWAN, CLAWEN, CLEYEYN. *edr.* PENNIGAN.

CLEDDYFLYS; Sparganium;——Bur-reed.

CLEFRYN; Iasione *montana;* Sheep's bit, Sheep's Scabious.

CLOCH YR EOS; Scilla *nutans;* Wild Hyacinth, Hare bells.

CLOCH MABAN; Galanthus *nivalis;* Snowdrop.

CLOFFRWYM Y CYTHRAUL; } Convolvulus *sepium;* Great Bindweed.
CLOFFRWYM Y MWCCI;

CLOR; Bunium;——Earthnut.

CLOR Y BRAIN; Saxifraga *granulata;* White Saxifrage.

CLOR Y MOCH; Tuber;——Trufle.

CLOWS. *edr.* PENNIGAN RHUDD-GOCH.

CLUST YR ARTH; Sanicula *europæa;* Wood Sanicle.

CLUST YR ASSEN; Marchantia *conica;* Conic Livergreen.

CLUST YR EWIG; Daphne *Laureola;* Spurge Laurel.

Y mae yn hynod lesol tan y poethgryd cymmalau; arloes-feddygiaeth llym ydyw, ac yn fuddiol rhag y llyngyr. Yr eithaf ddogn ydyw deg gronyn o'r dail yn bylor.

CLUST Y FUWCH; } Verbascum *Thapsus;* Great Mullein, High Taper.
CLUST Y TARW; } *edr.* SIRCYN Y MELINYDD.

CLUST YR IUDDEW. *edr.* CLUSTIAU 'R YSGAW.

CLUST LLYGODEN; Cerastium;——Mouse-ear Chickweed.

CLUSTIAU 'R DERW; Lichen *pulmonarius;* Tree Lungwort.

Y ddeilen hon a gyfrifir yn dra buddiol rhag nychdod, a chwyn yn yr ysgyfaint; Gwneler trwyth o honi, a chymysger a llefrith. Ef a chwanega beswch-boeriad, &c. nid amgen na 'r *Amlaethai.*

CLUSTIAU 'R DDAEAR; Lichen *caninus;* Ash-coloured Ground Liverwort.

CLUSTIAU 'R YSGAW; Peziza *Auricula;* Jew's ear.

CLUSTOG FAIR; Statice *Armeria;* Thrift, Sea Gilliflower.

CLWP-FRWYNEN; Scirpus;——Clubrush.

CLWP-FRWYNEN Y MORFA; Scirpus *maritimus;* Salt-marsh Club-rush.

Y gwraidd, gwedi eu sychu a'u malu, a arferwyd i wneuthur bara yn amseroedd prinder, neu yn niffyg ymborth.

CLYCH Y CERRIG; Lichen *pyxidatus;* Cup Lichen.

CLYCH DURAM. *edr.* COCHLAS.

CLYCH ENID; Convallaria *majalis;* Lily of the valley.

YR *Enid* hon oedd ferch i Yniwl, ac un o'r tair ardderchawg fenywod yn llys Arthur.

CLYCH Y PERTHI. *edr.* CLOFFRWYM Y MWCCI.

CLYCHLYS; Campanula;——Bell-flower.

CLYMLYS; CLYMMOG; } Polygonum;——Knotgrass.

CLYMMOGYN TROELLAWG; Illecebrum *verticillatum;* Whorled Knotgrass.

CNEUEN Y DDAEAR. *edr.* CYLOR.

CNWPFWSOGL; Lycopodium;——Clubmoss.

CNWPFWSOGL SYTH MWYAF; Lycopodium *Selago;* Fir club-moss.

Y rhyw hwn o fwsogl a wna garth-ddiod ac a bair gyfogi, ac a ladd lyngyr. Trwyth o hono a ddifa lau ar foch a gwartheg.

COCHLAS; Salvia *Horminum;* Purple Clary.

COCHWRAIDD; Rubia;——Madder.

CODEN EURAID; CODEN EURYCH; CODEN HYRED; } Lycoperdon;——Puff-ball.

CODOG; Hedysarum *Onobrychis;* Saintfoin.

CODOWYDD. *edr.* MEDDYG MAIR.

CODRWTH; Silene *inflata;* Bladder Campion.

"Gwynnach oedd ei dwylaw na chenawon y godrwth."

CODWARTH; Atropa *Belladonna;* Dwale, Deadly Nightshade.

Pob rhan o'r llysieuyn hwn sydd wenwynawl. Caled-chwydd, a

chwarenau yn y bronau, hyd yn nod o ryw 'r cangcr, a wasgarwyd ac a iachawyd gan osodiad y dail yn leision ar y fan. Plastr o'r gwraidd gwedi eu berwi mewn llefrith a iachaodd tynchwyddau a gweliau mall crawnllyd.

CODYWASG; Thlaspi;——Mithridate Mustard.

COEDGWLWM. } *edr.* CWLWM *neu* RHWYMYN Y COED.
COEDRWYM. }

COEDWYRDD; Pyrola;——Winter-green.

COEGBERLLYS; Æthusa *Cynapium;* Fool's Parsley, Lesser Hemlock.

COLUDDLYS; Mentha *Pulegium;* Pennyroyal. *edr.* BRYMLYS.

COLLEN; } CORYLUS *Avellana*; Hazel-nut tree.
COLL-LWYN; }

COLLEN FFREINIG; Juglans *regia;* Walnut.

COLWMBEIN. *edr.* MADWYSG.

COMFFRI. *edr.* CYFARDWF.

CORBYSEN; Ervum;——Tare.

CORDEGEIRIAN; Orchis *ustulata;* Dwarf Orchis.

CORFANADL; Genista *tinctoria;* Dyer's Greenweed.

CORFEDWEN; Betula *nana;* Dwarf Birch.

CORFRWYNEN; IUNCUS *uliginosus;* Little bulbous Rush.

CORFWYAREN; Rubus *saxatilis;* Stone Bramble.

CORGLYMMIG; Corrigiola *littoralis;* Sand Strapwort.

CORIANDER. *edr.* BRWYSGEDLYS.

CORN YR AFR; } Orobanche;——Broomrape.
CORN Y BWCH; }

CORN Y CARW; Plantago *coronopus;* Buckshorn Plantain.

CORN CARW Y MOR; Crithmum *maritimum;* Samphire.

CORN CARW Y MYNYDD; Lycopodium *clavatum;* Common Club-moss.

CORN YR HYDD. } *edr.* CORN YR AFR.
CORN YR JWRCH. }

CORNAIDD; Anthoceros;——Anthoceros.

CORNWLYDDYN; Cerastium;——Mouse-ear Chickweed.

CORONLLYS; Pœonia *officinalis;* Pœony.

COR-ROSYN; Cistus;——Rock-rose.

CORSEN GYFFREDIN; Arundo *Phragmites;* Common Reed.

Hon a wna lawer gwell tô ar deisi, ac yn enwedig ar fythod, a llawer mwy parhaus na gwellt.

CORSFRWYNEN; Schoenus;——Bog-rush.

CORSWELLT RHUDDLAS; Sesleria *cærulea;* Blue Moor-grass.

CORSWIGEN; Viburnum *Opulus;* Guelder Rose, Water Elder.

CORWELLTYN Y MORFA; Rotbollia *incurvata;* Sea Hard grass.

CORWLYDDYN; Sagina;——Pearlwort.

CORWREIDDRYDD; Sherardia *arvensis;* Little Field Madder.

CORWYROS; Cornus *suecica;* Dwarf Cornel.

CORWYNWYN. *edr.* CIBELLYN.

CORYSGAWEN; Sambucus *Ebulus;* Dwarf Elder.

Gyffelyb yn ei natur ydyw i'r *Ysgawen gyffredin,* ond yn gryfach, ac yn anhaws ymhel a hi. Dram a hanner o'r gwraidd, gwedi ei ferwi, a wna arloes-feddygiaeth cryf; eithr y ffrwyth addfed sydd fwy llaryaidd yn ei effaeth, ac i'w ddewis pan ellir ei gael. Dywedir fod yr hâd yn droethbair, ac yn llesol rhag y dyfrglwyf. Arogl y dail irion a darfant lygod o dai, ac Ydlofftydd.

COSTOG Y DOM; Polygonum *lapathifolium;* Pale-flowered Persicaria.

COWARCH; Cannabis;——Hemp. *edr.* CYWARCHEN.

CRACH EITHINEN; Genista *anglica;* Petty Whin, Needle Greenweed.

CRAF; Allium;——Garlick.

CRAF Y GEIFR; Allium *ursinum;* Ramsons.

Y llysieuyn hwn ym mwyd mewn *brandi,* neu ryw gyffelyb boethwlyb, sydd dra llesol rhag y graean-glwyf, neu 'r maen tostedd.

CRAF EWINAWG; } Allium *sativum;* Garlick.
CRAF Y GERDDI; }

Nid oes na dadl nac amheuaeth ym mhlith y gwyr mwyaf deallus yn nghelfyddid meddyginiaeth ynghylch rhinweddau meddygawl y tylwyth hwn o lysiau, sef y CRAF. Lleshâd y rywogaeth hon sef *Craf y gerddi,* neu 'r *Garlleg,* sydd amrywiol; hi a ysgafnhâ beswch-boeriad, a'r caethiwed llysnafeddog, neu 'r diffyg anadl yn nghleder y ddwyfron, a pheswch o hir barhâd. Ei rhinwedd megis troethbair, tan y dyfrglwyf sydd ysbys a diddadl. Megis tarfgryd, ac i ddifa llyngyr, y mae hi yn ragorol; ac hefyd rhag y clefri, neu'r ysgyrfi, llesol ydyw. Amryw siamplau a ddangosasant ei rhinwedd rhag clefyd y garreg. Y dogn yw dram ne fwy. Yn wir aml brofiadau a eglur ddangosasant effaeth yr holl rywogaethau o dylwyth y Craf ar y maen, a'r graean, yn nghorph dyn, ac y mae

gennym bob siccrwydd i ddywedyd yn hy fod trwyth o fan wraidd y cennyn, os yfir ef yn helaeth, ac os dyfal barheir i'w gym'ryd dros ennyd o amser, yn hynod lwyddianus rhag y maen tostedd, a'r graeanwst. *(edr.* y gair CENNYN.) Gellir dwyn tystiolaeth am ddau o ddynion, tan y clefyd blîn a thôst hwnnw, ar ba rhai y teimlwyd y garreg yn y bledren, a 'r offeryn sydd gan lawfeddygon i'r cyfryw berwyl, y rhai a dorrwyd ac a lwyr dreuliwyd gan y trwyth hwn.

Dodiad garlleg wrth wadnau y traed a berant yn âml esmwythder i'r pen, a'r ysgyfaint. Tan ryw fath o fyddardod, ewin garlleg, mewn rhyw deneu-we o lîn neu sidan, a'i ddodi yn y glust, a gafwyd yn feddygiaeth effeithiol; neu gellir diferu ychydig o'r sug ar gottwm, a'i ddodi yn y glust. Gellir cym'ryd y garlleg mewn amryw foddion, a than amryw ddulliau; eithr y modd goreu, a'r mwyaf effeithiol ydyw, llyngcu yr ewin yn gyfan, gwedi ei drochi mewn olew, neu ei dorri yn ddarnau heb ei ysigo; Canys y mae natur poethaidd cyflym y meddygiaeth hwn yn fuan yn ehedeg ymaith, os ysiger ef, ac yn enwedig os triner ef ar dân, fel y byddid gynt gynnefin a gwneuthur, o achos hyn y rhoddwyd yn llwyr heibio y moddion hynny o'i barottoi.

CRAF Y NADROEDD; Allium *Scorodoprasum;* Viper's Garlick.

CRAFANGC YR ARTH; Helleborus *fœtidus;* Stinking Hellebore, Bear's foot, Setterwort.

Y ddeilen hon a ladd lyngyr, eithr e ddylid ei harferi o fesur ychydig, ac yn ofalus. Gellir rhoddi trwyth o ddram o'r dail irion neu bymtheg gronyn o'r dail sychion yn bylor i blant, o bedair i saith mlwydd oed, am ddau foregwaith neu dri. Sug y dail irion yn gymmysgedig a siwgr llwyd sydd dda iawn i'r un perwyl, gan wlychu 'r dail a finegr cyn eu gwasgu. (Y mae 'r finegr yn nadael i'r llysieuyn anghytuno a 'r cylla.) Dogn i blentyn, o dwy i chwe blwydd oed, yw llonaid llwy *dê* ar bryd gwely, ac un neu ddwy dranoeth; gwneler hyn dros ddau foregwaith neu dri.

CRAFANGC YR ERYR; Ranunculus *sceleratus*; Celery-leaved Crowfoot.

Tra ysol-sur ydyw 'r ddeilen hon; taer gardotteion neu glippenau a'i harferant i godi chwysigenau a rhith doluriau ar eu cyrph, a'u haelodau, i beri tosturi dynion teimladwy, ac anadnabyddus a'u castiau twyllodrus.

CRAFANGC Y FRAN SYTH BOETHUS; Ranunculus *acris;* Upright Meadow Crowfoot.

Y mae hon, yn yr un modd ag eraill o'r tylwyth yma, yn dra gwenwynllyd; eithr y mae hi, a'r lleill yn fuddiol megis chwysiglydd, gan eu bod yn fwy buan effeithiol, ac yn fwy diniwed yn aml, na'r cylion a arferir gan feddygon i'r unrhyw berwyl.

CRAITH UN-NOS; Prunella *vulgaris;* Self-heal.

CRAMENOG; Centaurea;——Knapweed.

CRAWEL Y MÔCH; Rosæ *caninæ* fructus; Fruit of the Dog-rose.

CREFLYS BENDDIGED. *edr.* CREULYS.

CREIGBERLLYS; Athamanta;——Stone parsley.

CREIGLYS; Empetrum *nigrum;* Black Crow, or Crake-berry.

CREIGYMLYN; Andræa;——Andræa.

CREITHIG; Scandix;——Shepherd's Needle.

CREULYS BENDDIGED; Hypericum *Androsæmum;* Tutsan, Park-leaves.

CREULYS FAWR; Sambucus *Ebulus;* Dwarf Elder.

CRIAFALLEN. *edr.* CERDDINEN.

CRIAFALLEN DDOF; Pyrus *domestica;* True Service tree.

CRIAFALLEN GYFFREDIN; Pyrus *Aucuparia;* Mountain Ash, Quicken Tree.

Y ffrwyth, neu yn hytrach y ddiod a wneir o ffrwyth y pren hwn, a gyfrifir yn llesol i bureiddio y gwaed, ac i gadw y corph yn rhydd.

CRIAFALLEN WEN; Pyrus *Aria;* White Beam tree.

CRIAFALLEN WYLLT; Pyrus *torminalis;* Wild Service tree.

CRIBAU 'R BLEIDDIAU; Arctium *Lappa;* Burdock.

CRIBAU ST. FFRAID; Betonica *officinalis*, Wood Betony.

Cymmerer lwch y dail crinion i'r ffroenau ac efe a gartha ac a esmwytha 'r pen, ac a oera wres yn y llygaid. Ac os myger y dail trwy bibell, hyn hefyd a esmwytha 'r pen ac a bair, beswch-boeriad, ac a wna les i'r ysgyfaint.

CRIBAU MAIR; Carduus *marianus;* Milk-Thistle.

CRIBAU'R PANNWR; Dipsacus *fullonum;* Fuller's Teasle.

CRIBELL; Rhinanthus *Crista galli;* Yellow Rattle.

CRINLLYS; Viola *odorata*, β; White Sweet Violet.

Dywedir fod y blodau a'r hâd yn gryfion droethbair, ac yn llesol rhag y tostedd, ac i ruddhau 'r ymysgaroedd yn arafaidd. Y gwraidd

yn bylor sydd gyfogbair ac ysgarthbair. Y dogn o hanner dram i ddram a hanner.

CROENEIDD-GEN; Lichen *coriaceus;* Coriaceous Liverwort; a division of the genus LICHEN.

CROESLYS; Galium *cruciatum;* Crosswort.

CROESO-GWANWYN; Narcissus *Pseudonarcissus;* Daffodil.

CROESO-HAF; Scilla *nutans;* Wild Hyacinth, Hare-bells.

CROGEDYF; Spiræa *Filipendula;* Dropwort.

CRON. *edr.* EFWR.

CRONDODDAIDD; Cotyledon *Umbilicus;* Common Navel-wort.

CRONELL; Trollius *europæus;* Globe-flower.

CRON Y GWEUNYDD; Hydrocotyle *vulgaris;* Marsh Pennywort.

CRWYNLLYS; Gentiana;——Gentian.

CRWYNLLYS Y MORFA; Swertia *perennis;* Marsh Felwort, or Swertia.

CRYDAETHNEN; Populus *tremula;* Asp, Aspen, Trembling Poplar.

CRYDWELLT; Briza;——Quaking grass.

CRYDDNYDD. *edr.* GWYDDFID.

CRYGLYS. *(llygrair.) edr.* CREIGLYS.

CRYNFWSOGL; Bartramia;——Apple-moss.

CRYS Y BRENIN; Hyoscyamus *niger;* Common Henbane.

CUCUMER. *edr.* CHWERFWR.

CW; Lactuca;——Lettuce.

CWD Y MWG. *edr.* CODEN EURAID.

CWFL FWSOGL; Encalypta;——Extinguisher-moss.

CWFL Y MYNACH; Aconitum *Napellus;* Monk's Hood.

CWLWM YR ASGWRN; Mercurialis *perennis;* Perennial Mercury.

Niweidiol ydyw i ddefaid, a gwenwynig i ddyn.

CWLWM CARIAD; Paris *quadrifolia;* Herb Paris.

CWLWM Y COED;
CWLWM Y GWYDD; } Tamus *communis;* Black Briony.

CWLYN Y MEL; Agrimonia *Eupatoria;* Agrimony.

Y llysieuyn hwn sydd rwymawl a chryfhaol, ac a chwal attalfeydd, neu rwystrau yn yr ymysgaroedd, yn enwedig yn yr afu; y mae yn llesol rhag y dolur rhydd gwaedlyd yn y coludd, ac i gryfhau y cyfangorph. Gellir ei gymmeryd yn bylor,—yn drwyth, neu yn rhith *té.* E mae pob rhan o'r llysieuyn yn fuddiol, eithr y cwr uchaf o'r gwraidd yn y gwanwyn sydd oreu.

Mwydiad o 'r gwraidd mewn dwr berwedig sydd llesol iawn i ddyn tan y cryd poeth.

Mwydiad chwe wns o gwr uchaf y gwraidd mewn chwart o ddwr berwedig, gwedi ei felysu ag ychydig fêl, sydd dra effeithiol rhag y cryd melyn; yfed y claf hanner peint o hono deirgwaith yn y dydd.

CWMFFRI. *edr.* CYFARDWF.

CWMIN; Cuminum *Cyminum;* Cummin.

CWPPANAU 'R DDAEAR; Lichen *pyxidatus;* Cup Liverwort.

CWT YSGYFARNOG; Lagurus *ovatus;* Hare's-tail grass.

CWYROS; } Cornus *sanguinea;* Wild Cornel-tree, Dogwood.
CWYRWIALEN; }

"Nid unnaws gwyraws a gwern."

CYCHWLYN. *edr.* CWLYN.

CYCYLLOG; } Scutellaria;——Skull-cap.
CYCYLL-LYS; }

CYD-DWF; Monotropa *Hypopitis;* Yellow Bird's-nest.

CYDLLIN; Alyssum *sativum;* Common Camline, Gold of pleasure.

CYDD Y COED; Clematis *Vitalba;* Traveller's Joy.

CYFAGWY. *edr.* LLYS PEN TAI.

CYFARDWF; Symphytum *officinale;* Common Comfrey.

Y dail a 'r coesau ieuangc ydynt, gwedi eu berwi, yn hynod o fwydlys gyd a chigfwyd. Y gwraidd sydd glydaidd a llysnafeddog, ac yn ddilynol yn llesol rhag y tostedd,—y dolur rhydd, a chlefyd y gwaed. Cyffelyb yn ei rinwedd yw 'r llysieuyn hwn i'r Malw yr hêl, eithr cyfrifir hwn yn oreu o 'r ddau.

CYFLAFAN; Conferva;——Hair-weed.

CYFNYDD; Cuscuta;——Dodder.

CYFOGLYS. *edr.* GWRTHLYS.

CYFRDWY. *edr.* RHEDYN.

CYLOR; Bunium;——Earthnut.

"Gnawd i foch turiaw cylor." *Llyw. Hen.*

CYNFFON Y CABWLLT; } Valeriana *officinalis;* Great Wild Valerian.
CYNFFON Y CEILIOG; }

CYNFFON Y GATH; Typha;——Cat's-tail, Reed-mace.

CYNFFON LLYGODEN; Myosurus *minimus;* Mouse-tail.

CYNFFON TITTW; Rheseda *Luteola;* Weld, Dyer's-weed.

CYNGAF } MAWR. *edr.* CEDOWRACH.
CYNGAW }

CYNGAF BYCHAN; Xanthium *strumarium;* Small Burdock.

CYNGAF MAN; Agrimoniæ *fructus;* Fruit of Agrimony.

CYNGAFAN; Galium *Aparine;* Goose-grass, Cleavers. *edr.* GWLYDDYN Y PERTHI.

CYNGAFAN MWYAF; Asperugo *procumbens;* German Madwort.

CYNGHAFAWG; Convolvulus;——Bindweed.

CYNGLENNYDD YR AFON; Iungermannia *epiphylla;* River Star-tip.

CYNHOWLEN; Acer *campestre;* Common Maple.

CYPRESSWYDDEN; Cupressus;——Cypress.

CYRIAWOL. *edr.* CRIAFALLEN.

"Cwrel, lliw Cyriawol llwyn." *D. ab Gwil.*

CYRNOGYN; Phyteuma *orbiculare;* Round-headed Rampion.

CYSGIADYR; Solanum;——Night-shade.

CYWARCHEN; Cannabis;——Hemp.

Berwer yr hâd, gwedi ei ysigo, mewn llefrith, ac hidler ef, hwn sydd dda ragorol rhag peswch o hir barhâd; ac hefyd yn enwedig rhag y cryd melyn.

CYWER Y LLAETH. *edr.* BRIGAU 'R TWYNAU.

CHWEGWRAIDD; Glycyrhiza *glabra;* Liquorice.

CHWEINLYS; Cineraria;——Fleawort.

CHWERFWR; } Cucumis *sativus;* Cucumber.
CHWERWDDWR; }

CHWERWLYS. *edr.* CHWERWYN LLWYD.

CHWERWLYS YR EITHIN; Teucrium *Scorodonia;* Wood-sage.

Gwneir o 'r ddeilen hon, ac ymenyn gwyryf, eli gwasanaethgar iawn mewn perthynas i anifeiliaid; a chan ei bod yn o debyg ei blas a'i harogl, hi a arferwyd weithiau yn lle 'r Bensoeg, neu 'r Hoppys; eithr y mae hi yn peri uwch lliw i 'r ddiod.

Y mae hi o 'r un natur a Derlys y dwr.

CHWERWYN YR ARDD. } *edr.* WERMOD WEN.
CHWERWYN GWYN. }

CHWERWYN LLWYD. *edr.* WERMOD LWYD.

CHWERWYN Y TWYN. *edr.* CHWERWLYS YR EITHIN.

CHWYD AWYR; Tremella *meteorica;* Star-jelly.

"Y waret dafadennau kymer chwyt awyr ac ir wynt, a hwy a ddiflannant."—*Medd. Myddf.* E mae yn llesol rhag y gibwst neu losg eira.

CHWYN HALLT. *edr.* LLYRLYS.

CHWYS ARTHUR; Spiræa *Ulmaria;* Meadowsweet.

CHWYS YR HAUL; Drosera;——Sundew.

CHWYS MAIR; Ranunculus *bulbosus;* Buttercups.

CHWYSIGENWRAIDD; Utricularia;——Bladderwort.

CHWYSOGLEN; Rumex *acutus;* Sharp Dock.

DAEARLLYS; Pæonia *officinalis;* Pæony.

DAGRAU ADDAF; Staphylea *pinnata;* Bladder-nut tree.

DAGRAU MAIR; Primula *veris;* Cowslip, Paigle.

DAIL Y CWRW. *edr.* LLAWRWYDDEN.

DAIL Y DARGOD. *edr.* SIRCYN Y MELINYDD.

DAIL Y FENDDIGED; Hypericum *Androsæmum;* Tutsan.

DAIL Y GRON. *edr.* CRONDODDAIDD.

DAIL Y GRON LLEIAF. *edr.* CRON Y GWEUNYDD.

DAIL Y MELFED. *edr.* TEWBANNOG.

DAIL Y TRYFAN; Tussilago *Petasites;* Butter-bur.

Tri pheintiaid o ddwr berwedig ar ddram o gopa ne gwr uchaf (canys y rhan honno yn unig sydd llesol) o 'r gwraidd, sydd feddyginiaeth tra rhagorol, ac effeithiol ar ddechreuad cryd poeth; yfed y claf ddiod, ynghylch hanner peintiaid, o hwn yn dwymn ambell waith, ym mhen pob awr, neu ddwy, neu dair, pan ddigwydd iddo ddeffroi o gwsg, os hynny a ddaw arno. Y mae 'r Meddyg *Hìl* yn mynegi iddo ef iachau nifer o gleifion a 'r cyffyr diniwed hwn yn unig, gan borthi 'r claf a 'r meddyglyn hwn yn aml; eithr os y clefyd fydd hîr barhaus, ac yn trymhau, angenrhaid fydd i 'r claf gymmeryd chwe gronyn o 'r gwraidd gwedi ei sychu o flaen y tân, a 'i falu yn bylor, a pharhau i yfed y llyn megis o 'r blaen; eithr os, bydd y claf yn alaru ar y meddyglyn, geill yfed yn ei le ef ddwr oddiar y wenynllys *(Bawm y gerddi)* ac ychydig o ryw suran yn gymmysgedig, a hynny yn helaeth, ond parhaed i gymmeryd y pylor bob chwe awr.

DAIL Y TWRCH; Hypericum *Androsæmum;* Tutsan, Parkleaves.

DALEN DDA; Euphorbia;——Spurge. *edr.* FFLAMGOED.

DALEN MEIWON. *edr.* MEIWYN.

DALFEDEL. *edr.* TALFEDEL.

DANADLEN; Urtica;——Nettle.

DANADLEN FWYAF; Urtica *dioica;* Great Nettle.

Gellir trin coesau 'r llysieuyn hwn i wneuthur math o liain, yr hwn sydd mwy parhäus, a gwasanaethgar, na 'r hwn a wneir o lîn. Yn Sîr Amwythig y gwelir, yn agos i fythod, glyttiau o dir lle yr amaethir y rywogaeth hon i 'r perwyl hwn.

Trigolion Rwssia a liwiant wlan o wyrdd tèg a sug y dail, ac o felyn da a 'r gwraidd.

Yr Ysgottiad a wnant gywer da o ferwad cryf o 'r ddeilen hon, gan roddi ynghylch dau bwys o halen at dri pheintiaid o 'r trwyth, a 'i gadw mewn costrelau at wasanaeth; fe ai cyfrifir yn well,—mwy blasus, ac iachus na 'r caul cyffredin.

Aelodau a darawyd a 'r parlys a iachawyd gan eu cyhwrdd, neu eu curo a dynad poethion, sef a hon, neu un o 'r rhywogaethau eraill. Yn y gwanwyn pan fyddo hon yn dyner ac ieuangc y mae hi yn hynod o fwydlys gwedi ei berwi, yn enwedig gyd a chigfwyd hallt, neu i wneuthur cawl o honi ynghyd a bwyd.

Y mae hi yn droethbair, yn fuddiol tan glefyd y graean, y llwg, y gymmalwst, a 'r cryd melyn.

DANADLEN DDALL.
D. FARW,—D. FUD. } *edr.* MARDDANADLEN.

DANNOGEN; Betonica *officinalis;* Wood Betony.

DANNOGEN Y DWR; Scrophularia *aquatica;* Water Figwort, Water Betony.

DANT Y CI; Dactylis *glomerata;* Cock's-foot grass.

DANT Y LLEW; Leontodon *Taraxacum;* Common Dandelion.

Y sug, neu drwyth cryf o bob rhan o'r llysieuyn hwn, yn enwedig y gwraidd, sydd droethbair hynod, ac yn fuddiol rhag rhwystrad yn yr ymysgaroedd neu 'r coluddion, rhag y cryd melyn, y dyfrglwyf, clefydau yr ysgyfaint, a tharddiadau yn y croen. Y dogn yw dwy wns neu ychwaneg o 'r sug, neu ddiod o 'r trwyth deirgwaith neu bedair yn y dydd.

DANT Y LLEW LLEIAF. *edr.* PERADYL.

DANT Y PYSGODYN; Serratula *tinctoria;* Saw-wort.

DAR; Quercus;——Oak. *edr.* DERWEN.

" Gnawd nyth eryr ym mlaen Dar." *Llyw. Hen.*

DAT. *edr.* GWRTHBWYS.

DAUWYNEBOG; Viola *tricolor;* Pansy Violet, Heart's ease.

DEILEN DDU DDA; Scrophularia *nodosa;* Knotty-rooted Figwort.

Moch crestlyd a iacheir gan eu golchi a thrwyth o'r dail.

DEINTLYS; Dentaria *bulbifera;* Coralwort.

DEINTLYS CENOG; Lathræa *squamaria;* Toothwort.

DERIG; Dryas *octopetala;* Mountain Avens.

DERLYS / DERWLYS } Y DWR; Teucrium *Scordium;* Water Germander.

Pylor o honi a ladd lyngyr, trwyth o honi sydd lesol i dwymnolchi hen fraen-ddoluriau.

DERLYS Y FAGWYR; Teucrium *Chamædrys;* Wall Germander.

Y mae i 'r ddeilen hon y gair o fod yn esmwyth arloesaidd, a chryfhaol. Y mae hi o 'r un natur a 'r *Perchwerwyn,* ac yn ddily nol yn fuddiol rhag peswch, diffyg anadl, y gormwyth, ac attalfeydd yn yr ysgyfaint.

DERLYS Y GOEDWIG. *edr.* CHWERWLYS YR EITHIN.

DERWEN. *edr.* DAR.

Natur a rhinwedd rwymawl rhisgl y dderwen, neu'r afala, sef y cnapiau a dyfant yn rhith cnau ar y dail, sydd wasanaethgar mewn amryw foddion meddygawl; sef trwyth o honynt, pan fyddo 'r cylla yn wan a 'r corph yn llesg, ar ol clefyd neu ar ryw achos arall. Meddyginiaeth hefyd yw rhag y cryd dyspeidiol, y dolur rhydd, clefyd y gwaed, a phob math o ddylif anghymedrol arall. Y dogn yn bylor yw o chwe gronyn i scrwpl, ddwywaith neu dair yn y dydd; neu berwer wns mewn chwart o ddwr hyd na leiheir yr hanner, hidler, ac yfer o hono ddwy wns, ddwywaith yn y ddydd. Gwrandewch pa beth a ddywed yr hen *Feddygon Myddfai;* " Cymmer fès a chras, a gwna yn bylor, dod lwyaid mewn diodaid o gwrw da, ac yf yn dwymyn bob bore, dros wythnos i naw diwarnod, a gorwedd yn dy wely awr neu ddwy."—Ac mewn man arall; " bwrw lwyaid ar dy ddiod nos a bore; da yw i bob dyn gwan o gorph wedi ferwi mewn llaeth geifr."

Y dderwen fwyaf ei maintioli, yr ym ni yn cofio clywed am dani,

oedd "Brenhinbren y ganllwyd" neu 'r "Pren teg o 'r ganllwyd;" ynghylch tair troedfedd uwch wyneb y tir yr oedd hi yn chwe troedfedd a 'r ugain o'i hamgylch; uchder y bon, hyd at y fforch, oedd pymtheg troedfedd; O dair o'i changenau y gwnaed tair paladr melin. Hi a werthwyd ynhylch y flwyddyn 1730 am £60 : 0 : 0.

DERWEN Y DDAEAR. *edr.* DERLYS.

DERWEN CAERSALEM; Chenopodium *Botrys;* Oak of Jerusalem.

DERWEN FENDIGAID; Verbena *officinalis;* Common Vervain.

DERWEN ANWYW; Quercus *Ilex;* Evergreen Oak.

DIADWYTH; Valeriana *Locusta;* Corn Salad, Lamb's Lettuce.

DIADDYRN; Adoxa *Moschatellina;* Moschatel.

DIAWDWYDD. *edr.* LLAWRWYDDEN.

DIBEDOLIAD Y MEIRCH. *edr.* LLOER REDYNEN.

DIBYNLOR. *edr.* GYSPLYS.

DIDOL. *edr.* LLYS Y DDIDOL.

DIFLAS. *edr.* EURLLYS.

DIGOLL LWYD; Gnaphalium *minimum;* Least Cudweed.

DILOSG; Sempervivum *tectorum;* House-leek.

DILWYDD FELEN; Chelidonium *majus;* Celandine.

Ei sug sydd surboeth, ac a iacha marchwraint, a 'r tarddwreinyn; ac, wedi ei dymheru a dwr, a dyn ymaith faglau neu dywyllni oddiar lygaid, y mae iddo 'r enw o fod yn effeithiol rhag y cryd melyn a 'r dyspeidiol, ac i ruddhau yr ymysgaroedd; Y dogn ydyw hanner dram, neu ychwaneg, o 'r gwraidd gwedi ei sychu a 'i falu; neu tywalltiad dwr berwedig ar ddram neu ddram a hanner o hono yn îr, neu dri neu bedwar dyferyn o'i sug melyn mewn rhyw ddiod, neu ddwr. Y mae hefyd yn dda rhag y cosi a'r ddafaden ddof.

DINODD; Scleranthus;——Knawell.

DIODWYD. *edr.* LLAWRWYDDEN.

DIOSGLYS MERLLYN; Isoetes *lacustris;* Quillwort.

DISAWR; Hesperis *inodora;* Scentless Dame's Violet.

DISTREWLYS; Achillea *Ptarmica;* Sneese-wort Yarrow, Goosetongue.

DITAIN; DITAWNT; } Dictamnus *albus;* Dittany, Fraxinella.

DITAIN LEIAF; Achillea *Ageratum;* Maudlin.

DIWLITH; DIWLYDD; } Adiantum *Capillus Veneris;* True Maidenhair.

DIWYTHL FEDI; Anagallis *arvensis;* Pimpernel.

DRAENEN DDU; Prunus *spinosa;* Sloe tree, Black thorn.

Y dail tyner gwedi eu sychu a wasanaethant yn oreu o ddim a brofwyd yn lle *tê.* Mwydiad o ddyrnaid o 'r blodau mewn dwr berwedig sydd garthddiod esmwyth a diniwed. Y ffrwyth sydd rwymawl, ac yn llesol pan fyddo y cyfryw yn gyfaddas, ac, ynghyd ag ychydig fêl, a wna olch llesol rhag dolur o 'r safn, a 'r gwddf. Rhai a dybiant fod pigiad y draen yn wenwynllyd, yn enwedig ynghylch amser y cynhauaf.

DRAENEN YSBINUS; Berberis *vulgaris;* Barberry.

DRAENEN WEN; DR. YSPYDDADEN; } Mespilus *Oxyacantha;* Haw-thorn, White-thorn.

DREWG; DREWLYS; } Papaver;——Poppy.

DREWGOED; Anagyris;——Stinking bean trefoil.

DRIGON; DRINGOL; } Rumex *Acetosella;* Sheep's Sorrel.

DRINGIEDYDD. *edr.* CYDD Y COED.

DRYCH GWENER; Campanula *hybrida;* Corn Bell flower.

DRYDON. *edr.* CWLYN Y MEL.

DUDDRAENEN. *edr.* DRAENEN.

DUEGREDYNEN; Asplenium;——Spleenwort.

DUEGREDYNEN FEDDYGAWL; Scolopendrium *Ceterach;* Common scaly Spleenwort.

DUGLWYD; Ononis *arvensis;* Rest-harrow, Cammock.

DUGOESOG; Asplenium *Adiantum nigrum;* Black Maidenhair.

DULYS; Smyrnium *Olusatrum;* Alexanders.

DUWALLT Y FORWYN. *edr.* DUGOESOG.

DWYDDALEN; Ophrys *ovata;* Common Twayblade.

DWYFAWG; Betonica *officinalis;* Wood Betony.

DWYGEINIOGLYS; Lysimachia *Nummularia;* Moneywort, Creeping Loose Strife, Herb twopence.

DYFR-FORONEN; Sium;——Water Parsnep.

DYFR-FORONEN SWPFLODEUOG; Sium *nodiflorum;* Procumbent Water Parsnep.

Tair llwyaid o sug y llysieuyn cyffredin hwn, deirgwaith yn y dydd, a iachaodd blentyn chwe blwydd oed o haint, neu darddia-

dau ar y croen, o hir barhâd, ac nid anghyffelyb i 'r gwahanglwyf. Dynion mewn oedran a dderbyniasant y lleshâd mwyaf dan y cyffelyb glefydon, gan gymmeryd tair neu bedair wns bob boreu o'r unrhyw; ac nid oedd mewn un modd yn anghytuno a 'r pen, na 'r cylla, na 'r ymysgaroedd. *Withering.*

DYFR FWSOGL TRIOCHROG; Fontinalis *antipyretica;* Great Water-moss.

DYFR LYRIAD; Alisma:—Water plantain.

DYFRLLYS; Potamogeton;—Pondweed.

DYFRWLYDDYN; Montia *fontana;* Water Chick-weed, Blinks.

DYLUSG; Fucus *palmatus;* Palmated Sea-weed, Dulse.

DYNAD; DYNHADEN; } Urtica;—Nettle.

DYNAD DDALL, &c. *edr.* MARDDANADLEN.

DYRYSIEN; DYRYSLWYN; } Rubus;—Bramble.

"Archaf it' na mynych wraig, hyd pan welych ddyrysien deubenawg ar fy mêdd."

DYSTREWLYS; Achillea *Ptarmica;* Sneesewort Yarrow, Goosetongue.

Llwch o 'r dail, i 'w gymmeryd i'r ffroenau, a bair ddystrewi ac a goetha, ac a gartha y pen.

EBOLGARN; Tussilago *Farfara;* Colt's foot.

EBOLGARN Y GERDDI; Asarum *europæum;* Asarabacca.

EBOLGARN Y MOR; Convolvulus *Soldanella;* Sea Bindweed.

EDAFEDDOG; Gnaphalium;——Cudweed.

EDAFEDDOG LWYD; Gnaphalium *germanicum;* Common Cudweed.

Y ddeilen hon a roddir i anifeiliaid rhag clefyd y gwaed; ac hi a gafwyd yn llesol i ddynol ryw tan yr unrhyw glefyd; sef trwyth o honi.

EDAUFWSOGL; Bryum;——Thread-moss.

EFRE; EFRYN; } Lolium;——Darnel.

EFWR; EFYRLLYS; } Heracleum *Sphondylium;* Cow-parsnep.

"Melyn eithin, crin Efwr." *Llyw. Hen.*

" Osglawg blaen Derw, chwerw chwaith On,
" Chweg Efwr." — *Llyw. Hen.*

Y mae achos i ni feddwl oddiwrth yr ymadrodd hwn, o waith Llywarch Hen, mai cysson oedd tyb trigolion y wlad yma, yn y cynoesoedd, a thrigolion Camschatca yn yr oes hon, ynghylch y llysieuyn hwn; o herwydd hwy a'i galwant y *melus lysieuyn*, ac a fwytant y coesau gwedi eu piliaw; ac weithiau hwy a'u rhoddant ynghrog i sychu, ym mha waith hwy a daenellir a math o bylor melusaidd, ac eu cyfrifir yn un o'u danteithion; hwy hefyd a ddystylliant o hono boethlyn nid anghyffelyb i *frandi.* Eraill hefyd o drigolion gwledydd gogleddawl ewrop a ddarllawant o hono ddiod, yr hon a yf y bobl isel-radd yn lle cwrw.

EFFROS; Euphrasia *officinalis;* Eye-bright.

Dywedir ei fod yn fuddiol i'r golwg, naill gan ei gymmeryd yn bylor, neu gan yfed tywalltiad dwr berwedig oddiarno, neu gan osod y llysieuyn, gwedi ei ysigo, ar y llygaid; y mae iddo hefyd y gair o fod yn llesol rhag y cryd melyn.

EGEL; Cyclamen *europæum;* Sow-bread.

EGFAEN, Ffrwyth yr

EGFAENWYDD; Mespilus *Oxyacantha;* Hawthorn, Whitethorn.

" Dwy Egfaen deg fwynaidd."—*D. ab Gwil. i rudd merch.*

EGLYN; Chrysosplenium;——Golden Saxifrage.

EGROESEN, ffrwyth yr

EGROESWYDD; Rosa *canina;* Dog-rose. *edr.* CIROS.

" Grisial ynghylch egroesen."—*I rudd merch.*

EGYLLT; Ranunculus;——Crowfoot.

EIDRAL; Glecoma *hederacea;* Ground Ivy, Gill, Alehoof.

Sug y ddeilen hon, yn gymmysgedig ag ychydig wîn, a dyn ymaith dywyllni oddiar lygad march, os arferir hwyr a boreu. Y mae trwyth neu fwydiad o honi mewn dwr berwedig, ynghyd ag ychydig fêl, yn llesol iawn rhag y peswch, i'w yfed yn lle *tê* yn foreu-fwyd, ac yn aml yn y dydd.

EIDRAN; Origanum *vulgare, var.* Pot Marjoram.

EIDDEW; Hedera *Helix;* Ivy.

Awdur hynod *(sef Hàler)* a ddywed bod y dail yn dra rhinwe-

ddol rhag y clefyd di-dycciant ymborth. Y grawn ydynt gyfogbair ac ysgarthbair.

EIDDEW 'R DDAEAR. *edr.* EIDRAL.

EIDDIAR. *edr.* GRUG.

EIDDILWELLTYN CYNNAR; Knappia *agrostidea;* Early Knappia, Anglesey Sand-grass.

EIDDIORWG. *edr.* EIDDEW.

" Car Eiddiorwg cyw 'r ddera."—*D. ab Gwil. i'r ddylluan.*

EILGOROS; Azalea *procumbens;* Trailing Azalea.

EIGRYN: Briza;——Quaking grass, *Crydwellt.*

EILUN BRIWEG; Cherleria *sedoides;* Dwarf Cherleria, Mossy Cyphel.

EIRIAWL. *edr.* CLOCH MABAN.

EIRIN BULAS; Prunus *insititia;* Bullace tree.

EIRIN Y CI; Orchis;——Dog's stones, Cullions.

EIRIN GWION; ffrwyth y WINWYDDEN DDU.

EIRIN GWLANOG; Amygdalus *Persica;* Peach.

EIRIN MAIR. *edr.* GWYFON.

EIRINBERTH. *edr.* DRAENEN DDU.

EIRINBREN; Prunus *domestica;* Plum-tree.

EIRINLLYS. *edr.* EURINLLYS.

EIRYAIDD; Leucojum *æstivum;* Summer Snowflake.

EITHINEN; Ulex;——Gorse, Furze.

" Hardd blodau eithin, eithr ym mhlith drain llymion y tyfant." *Diarh.*

EITHINEN BER; } Juniperus;——Juniper.
EITH. Y CWRW; }

EITHINEN FREINIG; Ulex *europæus;* Common Furze.

EITHINEN YR IAR; Genista *anglica;* Petty Whin, Needle Greenweed.

EITHINFYW; Juniperus *Sabina;* Savine.

O bump gronyn i scrwpl o'r dail sychion yn bylor sydd llesol rhag lyngyr, ac i hwylio teithi gwragedd.

ELEBWR. *edr.* CRAFANGC YR ARTH.

ELESTREN; Lilium:——Lily.

ELINOG; Solanum *Dulcamara;* Woody Night-shade, Bitter-sweet.

Hwn a wna hynod o feddygiaeth i atgyweirio tymmer y corph, ac i buro 'r gwaed. *(Boerhaave.)* Trwyth o 'r gwiail ieuaingc sydd

feddyginiaeth rhagorol rhag y cryd cymmalau llymdost, emmynfeydd, cryd poeth, attaliad teithi gwraig a 'r cymhibau. *(Lin.)* *Dr Hìl* a ddywed ei fod yn effeithiol tan glefyd yr ysgyfaint a diffyg anadl. Gellir ei gasglu yn y gwanwyn, neu ddiwedd y cynhauaf. Tywallter peint o ddwr berwedig ar ddwy ddram o 'r coesau gwedi eu naddu yn fan; gwedi iddynt sefyll dros hanner awr, rhaid yw eu berwi dros chwarter awr; y dogn yw ar y cyntaf hanner wns, yn gymmysgedig a llefrith, ac yn y man, gellir chwanegu y ddogn i dri chwarter wns.

ELINOG GOCH; Polygonum *Persicaria;* Spotted Arsmart.

ELISAWNDYR. *edr.* DULYS.

ELLAST; Carlina *vulgaris;* Common Carline Thistle.

Dywedir fod hwn yn feddyginiaeth rhagorol rhag clwyf y fam.—*Amæn. Acad.* III. 64.

ENGRAFF; Butomus *umbellatus;* Flowering Rush.

ERBIN; Thymus *Calamintha;* Common Calamint.

Poethach a mwy llym ydyw na 'r *Mintys,* eithr go gyffelyb yn ei natur; Y mae yn llesol i'r cylla,—i chwalu gwynt, ac i esmythau cnofeydd yn y coludd. Y mae iddo enw da am rwyddhau neu ddwyn ymlaen teithi benywod.

Erbin oedd dywysog dyfnaint ynghylch canol y bummed ganrhif.

ERCHWAINT, *edr.* ERWAINT.

ERFINEN; Brassica *Rapa;* Turnep.

Dywedir nad ydyw fwyd cyfaddas i rai beichiogion, nac i'r sawl sydd chwannog i glefyd y fam, neu wynt; eithr hi a ryddhâ y coluddion, ac a bureiddia y gwaed. *Meddygon Myddfai* a ddywedant fod yr had yn dda rhag y tostedd.

ERFINEN YR YD; Brassica *Napus;* Rape, Navew, Coleseed.

ERFINEN Y COED; Tamus *communis;* Black Briony.

ERINLLYS. *edr.* EURINLLYS.

ERLLYRIAD. *edr.* LLYRIAD.

ERLLYSG; Vinea *minor;* Lesser Periwinkle.

ERWAINT; Spiræa *Ulmaria;* Meadow-sweet.

ESGARLLYS. *edr.* ESGORLLYS.

ESGID FAIR; Cypripedium *Calceolus;* Ladies' Slipper.

ESGIDIAU 'R GÔG; Viola *odorata;* Sweet Violet. *edr.* CRINLLYS.

ESGOB GWYN. *(llygrair) edr.* ASPYGAN.

ESGOBLYS; Ammi *majus;* Bishop's weed.
ESGORLLYS BYCHAN; Aristolochia *Clematitis;* Climbing Birthwort.
ESGORLLYS CRWN; Aristolochia *rotunda;* Round Birthwort.
ESGORLLYS HIR; Aristolochia *longa;* Long Birthwort.
EUAD; Dianthus;——Pink.
EULUNBERLLYS; Caucalis;——Hedge Parsley, Bur-parsley, Stone Parsley.
EURAFAL; Citrus *Aurantium;* Orange.
EURBERTH. *edr.* EURDDRAENEN.

" Bod eurberth mor anferth wyd
" Beichlwyn ar ên gwr bochlwyd."

Rhys Goch o eryri i'w farf.

EURDDANADL; Galeobdolon *luteum;* Yellow Dead-nettle, Weasel-snout.
EURDDRAENAN; Ribes *Uva crispa;* Smooth Gooseberry.
EURDDRAENEN DDU; Ribes *nigrum;* Black Currant.
EURFAL. *edr.* EURAFAL.
EURFANADL; Genista *tinctoria;* Dyer's Greenweed.
EURINLLYS; Hypericum;——St. John's wort.
EURLLYS; Atriplex;——Orache.
EURON; Cytisus *Laburnum;* Bean-trefoil-tree.
EURWALLT Y FORWYN; Polytrichum *commune;* Common Hair-moss.
EURWERNEN; Tilia *europæa;* Lime tree, Linden tree.
EURWIALEN; Solidago *Virgaurea;* Golden-rod.

Hynod ydyw y llysieuyn hwn am iachau briwiau o 'r ty mewn a 'r tu allan i'r corph; rhinweddol yw rhag y graean yn yr arennau, a 'r maen tostedd. Y mae hefyd yn llesol rhag poeri gwaed,—y dolur rhydd, a chlefyd y gwaed; sef mwydiad o hono mewn dwr berwedig iw yfed yn helaeth.

EWNOFIAU GWYLLTION; Hippocrepis *comosa;* Horse-shoe Vetch.
EWFFRUS. *edr.* EFFROS.
EWR. *edr.* EFWR.

FALERIAN. *edr.* CYNFFON Y CABWLLT.
FANWYLYD; Geum *urbanum;* Common Avens, Herb Bennet.
FEDON, FEDWEN, FEDD-DON, FYDDON, CHWERW. *edr.* BYDDON.
FERFAEN. *edr.* BRIW 'R MARCH.
FIOLED. *edr.* GWIOLYDD.

FIOLED FELEN AUAF. *edr.* MELYN Y GAUAF.

FIOLED FRAITH. *edr.* TRILLIW.

FYRR; Abies.

"Ap howel fain a'r pawl fyrr."—*Dav. Lex.*

FFACBYSEN. *edr.* FFUGBYSEN.

FFAEN; Vicia *Faba;* Bean.

FFAEN CORS; Menyanthes *trifoliata;* Buck-bean, Marsh-trefoil.

Mwydiad o 'r dail mewn dwr berwedig sydd dra llesol rhag y cryd cymmalau, y llwg, y cryd melyn a 'r dyfrglwyf.

Dram o 'r pylor sydd gyfogbair, ac a arloesa y coluddion, ac a lâdd y llyngyr. Dwy wns a wasanaetha yn lle pwys o *hoppys,* lle y digwyddo prinder o'r llysieuyn hwnnw. Cyfrifir y mwydiad yn well meddygiaeth na 'r pylor.

FFAEN FFRENGIG; Phaseolus *vulgaris;* Kidney-bean.

FFAEN Y MÔCH; Hyoscyamus *niger;* Common Henbane.

FFAEN TALIESYN. *edr.* LLYS TALIESYN.

FFAWYDDEN; Fagus *sylvatica;* Beech.

"Mal y môch am y ffawydd."—*Diarh.*

FFEINIDWYDD. *edr.* FFYNIDWYDD.

FFENIGL; Anethum *Fæniculum;* Common Fennel.

Y mae 'r had yn llesol rhag gwendid a gwynt yn y cylla, a 'r tostedd.

"Pwy bynnac vo ry vras yvet y fenygul a hynny a 'e kulaha."—*Medd. Myddf.*

FFENIGL Y CWN; Pyrethrum *inodorum;* Scentless Mayweed.

FFENIGL HELEN LUEDDAWG; Meum *athamanticum;* Spignel, Meu, Baldmoney.

Yr had peraroglaidd sydd llesol i 'r cylla, ac i chwalu gwynt.

FFENIGL YR HWCH; } Peucedanum *officinale;* Sulphurwort, Hog's
FFENIGL Y MOCH; } fennel.

FFENIGL Y MÔR; Crithmum *maritimum;* Samphire.

FFENIGL TRYMSAWR. *edr.* GWEWYRLLYS.

FFETTUR; Avena *fatua;* Wild Oat, Haver.

FFIGYSWYDDEN; } Ficus *Carica;* Figtree.
FFIGYSBREN; }

FFIOL Y FFRIDD. *(llygrair) edr.* FFION, &c.

FFION Y FFRIDD; Digitalis *purpurea;* Purple Foxglove.

FFIOL-GEN; Lichen *pyxidatus;* Cup Liverwort: a division of the genus LICHEN.

FFIOLELL; } Cyathea;——Cup-fern.
FFIOL-REDYNEN;

FFLAMGOED; Euphorbia;——Spurge.

Pob un o 'r tylwyth hwn sydd dra llymsur, ac yn ysu cnawd dyn. Y sug a bair i ddafaden ddof ar law neu wyneb, neu gorn ar droed ddiflanu; dyferyn o hono i dwll mewn daint a esmwythâ 'r gofid, gan farweiddio y gieuyn.

FFLAMGOED FECHAN; Euphorbia *Peplus;* Petty Spurge.

FFLWR DY LÎS. *edr.* CAMMINED.

FFON Y BUGAIL; Dipsacus *pilosus;* Small Teasel, Shepherd's rod.

FFON Y PLANT; Typha *latifolia;* Cat's tail, Reed mace.

FFRITHLYS; } Anemone *nemorosa;* Wood Anemone.
FFRITHOGEN;

FFROMLYS; Impatiens;——Yellow Balsam, Touch me not.

FFUGBYSEN; Vicia;——Vetch.

FFUNELL. *(llygrair) edr.* FFENIGL.

FFWGWS; Nicotiana *Tabacum;* Tobacco.

FFWNG; Fungus;——Mushroom.

FFWNG Y MOCH; Tuber;——Trufle.

FFYNIDWYDD; Pinus *sylvestris;* Scotch Fir.

FFYNIDWYDD-FWSOGL; Lycopodium *Selago;* Fir Club-moss.

FFYNWEWYR ELLYLLON. } *edr.* FFON Y PLANT.
FFYNWEWYR Y PLANT.

GARDDWY. *edr.* CARDDWY.

GARLLEG; Allium *sativum;* Garlick. *edr.* CRAF.

GARLLEG GWYLLT; Allium *vineale;* Crow garlick.

GARLLEGOG; } Erysimum *Alliaria;* Garlick Hedge mustard,
GARLLEG-FERWR; } Jack by the hedge, Sauce alone.

Dwr berwedig ar y llysieuyn bwn sydd nerthol chwysbair, troethbair, ac yn dda iawn i bureiddio 'r gwaed; llesol hefyd yw rhag clefyd yr ysgyfaint, a diffyg anadl. Y dail, gwedi eu ysigo, ynghyd a gwin a iachâodd fadredd, neu fraenedd yn y cnawd ar

goes dyn, yr hon a dorrwyd gan ddyrnod, yr hwn a barasai friw yn yr un pryd.

GEFELL-LYS; Ophrys *ovata;* Tway-blade.

GEFELL-LYS Y GORS; Malaxis *paludosa;* Marsh tender Tway-blade.

GELYST. *edr.* GELLHESGEN.

GELLHESGEN; Iris *Pseudacorus;* Water Flower-de-luce.

Cnoi dernyn o 'r gwraidd sydd hynod rhag y ddannodd. Y sug, os cymmerir i 'r ffroenau, sydd llesol iawn iw coethi, ac i ddofi cûr neu ddolur o 'r pen; y mae 'r gwraidd, wedi ei sychu yn ofalus, yn llesol rhag y darymred, neu 'r dolur rhudd. Y gwraidd îr sydd ysgarthaidd cryf, canys pedwarugain dyferyn o 'r sug, pob awr neu ddwy a barasant arloes helaethlawn o'r ymysgaroedd, pan fethasai cyffyriau cryfion eraill, sef *Jalap, Gamboge,* &c. ac wrth anghwanegu y dogn a pharhau i 'w gymmeryd dros ennyd o amser, efe a lwyr iachaodd dyfrglwyf tost o hir barhâd. Y gwraidd hynaf ydyw 'r goreu, a'r mwyaf effeithiol. Y mae 'r sug hefyd yn llesol iw ddodi ar darddiadau yn y croen, sef dyfrwreinyn, a 'r cyffelyb.

GELLHESGEN PERAROGL; Acorus *Calamus;* Sweet Flag.

GELLHESGEN YR YD; Gladiolus;——Corn Flag.

GELLYGBREN; Pyrus *communis;* Pear tree.

GELLYGLYS; Pyrola;——Winter green.

GEUBERLLYS; Æthusa *Cynapium;* Fool's Parsley.

GEULIN Y FORWYN; Thesium *linophyllum;* Bastard Toad-flax.

GEUPERWRAIDD; Astragalus *glycyphyllos;* Sweet Milk-vetch, Wild Liquorice.

GEWYNLLYS; } Ruscus *aculeatus;* Butcher's Broom.
GIEULYS; }

GINGROEN; Phallus *impudicus;* Stinking Morel.

GINGROEN FECHAN. *edr.* LLIN Y FORWYN.

GITH. *edr.* BULWG.

GITHRAN; } Sison;——Honewort.
GITHROG; }

GLAS; }
GLASDDU; } Isatis *tinctoria;* Woad.
GLASLYS; }

" A 'r hwn y lliwiau 'r Brython gynt eu hwynebau, i gael bod yn

erchyll yn rhyfel."—T. W. Dywedir gan rai iddynt liwio hefyd en cyrph drostynt pan ymbarottoant i ryfel.

GLAS Y GAUAF. *edr.* CLUST YR EWIG.

GLASDONEN. *edr.* DERWEN ANWYW.

GLAS Y LLWYN; Scilla *nutans;* Wild Hyacinth.

GLASNODEN Y MÔR. *edr.* GWELLT Y GAMLAS.

GLASWELLT Y CWN; Triticum *repens;* Couch-grass.

GLASWENWYN; Scabiosa *succisa;* Devil's bit.

GLESYN; Borago *officinalis;* Common Borage.

Da iawn ydyw i 'w ferwi, a'i fwyta yn lle bresych, ynghyd a chigfwyd.

GLESYN Y COED; Ajuga *reptans;* Bugle, Bruise-wort.

Y mae 'r dail, gwedi eu ysigo, yn hynod feddygiaeth i 'w dodi ar archollion, nen friwiau newydd gan erfyn, i ddiddosi y gwaed; gellir eu cymmeryd hefyd rhag ysigdod oddimewn. Y maent yn gyffyr da mewn eli i daclu briwiau, &c.

GLESYN Y GAUAF. *edr.* COEDWYRDD.

GLESYN Y MORLAN; Pulmonaria *maritima;* Sea Lungwort.

GLESYN Y MYNYDD; Ajuga *alpina;* Mountain Bugle.

GLESYN Y WIBER; Echium;——Viper's Bugloss.

GLINIOGAI; Melampyrum;——Cow-wheat.

GLORIA; Iris *fœtidissima;* Stinking Iris, Gladwyn.

GLOEWLYS; Euphrasia *officinalis;* Eye bright.

GLYDLYS; Silene;——Catch fly.

GLYF; Malva;——Mallow.

GLYS; Sedum *reflexum;* Yellow Stonecrop.

GODOWYDD. *edr.* LILI 'R DWR.

GODRWTH. *edr.* CODRWTH.

GODWALLON FAWR; } Hypericum *dubium;* Imperforate St. John's wort.
GODWYLLON; }

GOFERINI. *edr.* LLYCHLYN.

GOFERLLYS; Marchantia *polymorpha;* Common Livergreen.

GOLAETH. *edr.* GWYLAETH.

GOLCH ENID. *edr.* GLESYN Y COED.

GOLCHEURAID; }
GOLCHWRAIDD; } Sanicula *europæa;* Wood Sanicle.
GOLCHYDDES; }

GOLD Y GORS; Caltha *palustris;* Marsh Marigold.

Gwybuwyd iddo ladd buchod, y rhai, o herwydd prinder porthiant, a'i bwytasant.

GOLD MAIR; Calendula *officinalis;* Marigold.

GOLD; GOLD YR YD; } Chrysanthemum *segetum;* Corn Marigold.

GOLEUDREM; Euphrasia *officinalis;* Eye bright.

GOLWG CRIST; Salvia *Verbenaca;* Wild English Clary, *Cleere eye, Ger.*

GOLYGLYS. *edr.* GOLEUDREM.

GORCHWYRAID. GORCHWYRYDD. GORCHWRAIDD. } *edr.* GOLWG CRIST.

GORDDAWN; GORDDON; } Ruta *graveolens;* Rue, Herb of grace.

Ei gelwir, nid yn unig o herwydd ei rhinweddau, eithr hefyd ysgatfydd, am yr un achos ac ei gelwir *Herb of grace* yn y saesoneg; gan mai a hon y taenellwyd gynt y dwr cyssegredig ym mhlith y gynnilleidfa, yn eglwys rhufain.

GORFANADL; GORFANGC; } Orobanche;——Broom-rape.

GORHADAWG; Radiola *millegrana;* Allseed.

GORHILIG; Polycarpon *tetraphyllum;* Four-leaved Allseed.

GORNERTH; GOREUNERTH; } Scrophularia *nodosa;* Knotty-rooted Figwort.

GORTHYFAIL; Chærophyllum;——Chervil.

GORUDD; Bartsia *odontites;* Red Bartsia.

GRABAN; Bidens;——Bur-Marigold.

GRABAN YR YD. *edr.* GOLD, &c.

GRAEANLLYS Y DWR; Veronica *Anagallis;* Water Speedwell.

GRAS DUW. *edr.* GORDDAWN, &c.

GRAWNAFAL. *edr.* AFAL GRONYNAWG.

GRAWN YR HAUL; Lithospermum *officinale;* Common Gromwell.

GRAWN Y LLEW; Lithospermum *arvense;* Corn Gromwell.

GRAWN PARADWYS; GRAWN PARIS; } Amomum *Grana paradisa;* Grains of Paradise.

GRAWN Y PERTHI; Tamus *communis;* Black Bryony.

GREOL ; } Bryonia *dioica ;* White, or Red berried, Bryony.
GREUOLEN ;

Un dram o'r gwraidd yn sylwedd sydd arloesydd, neu hanner wns gwedi ei fwydo mewn gwîn. Sugaethan o hono sydd hynod am chwalu tynchwydd, neu 'r cyffelyb. Trwythiad o bwys o 'r gwraidd yw 'r garthddiod oreu i anifeiliaid corniog.

GRËULYS ; Senecio ; Groundsel.

Cymmerer ofal na ddyrysier mo 'r gair hwn efo 'r CREULYS.

GROEGWYRAN ; Trigonella *Fænum græcum ;* Fenugreek.

GROMIL. } *edr.* MAENHAD.
GROMANDI.

GRUG ; } Erica ;——Heath, Ling.
GRUGLWYN ;

GRUG BREN ; Tamarix *gallica ;* French Tamarisk.

GRUGEILYN ; Frankenia ;——Sea Heath.

GRUWLYS ; Thymus *Serpyllum ;* Wild Thyme.

Diod o dywalltiad dwr berwedig ar ei ddail a esmwythâ gûr mewn pen, yr hyn a ddigwydd o achos gormod o ddiod dda dros nos. Y mae yn llesol i'r pen, y fam, a 'r cylla, rhag cwlwm y gwythî, cnofa yn y cylla, neu 'r coluddion, a phoeri gwaed. Os gosodir wrth arleisiau ef a symmud gûr neu ysgafndra mewn pen, neu syfrdanedd.

GRWML. } *edr.* MAENHAD.
GRWMMIL.

GRWMSYL. *edr.* GRËULYS.

GRWYSWYDDEN ; Ribes *Grossularia ;* Rough Gooseberry.

GRYGLYS. *edr.* CREIGLYS.

GR. } *edr.* CREIGLYS.
GRYGON.

GRYGWELLT ; Dactylis *glomerata ;* Cock's foot grass.

GRYGYN. *edr.* GRUG.

GRYW. *edr.* GRUWLYS.

GWAED Y GWYR. *edr.* YSGAWEN FAIR.

GWAEDLYS ; Polygonum *aviculare ;* Knot-grass.

GWAEDLYS BYCHAN. *edr.* GORUDD.

GWAEDLYS MAWR ; Lythrum *salicaria ;* Purple Grasspoly.

GWAEDLYS GWYN. *edr.* BRIW 'R MARCH.

GWAEW 'R BRENIN; Asphodelus;——Asphodel.

GWAGLWYFEN; Tilia *europæa;* Lime tree.

GWAIR MERLLYN; Isoetes *lacustris;* Quillwort.

GWALCHLYS; Crepis;——Hawk's beard.

GWALLT Y DDAEAR. *edr.* EURWALLT Y FORWYN.

GWALLT Y FORWYN; Asplenium *Trichomanes;* Common Maidenhair.

Unnaws yw hon a'r *Tafod yr hydd.* Y modd i gymmeryd pob un o honynt ydyw, un ai gan dywallt dwr berwedig arnynt, neu eu berwi mewn dwr; rhai a 'u berwant mewn diod frâg fain, ac felly a wnant drwyth o honynt. *edr.* TAFOD YR HYDD.

GWALLT GWENER. *edr.* DIWLYDD.

GWANWDAN; Vinca;——Periwinkle. *edr.* LLAWRIG; ac Erllysg.

GWARCHLYS; GWARCHWYDD; } Vitex *Agnus castus;* Chaste tree.

GWAYW 'R BRENIN; Asphodelus;——Asphodel.

GWDEN Y COED. *edr.* CLOFFRWYM Y MWCCI.

GWE FELEN; Trifolium *minus;* Lesser Yellow Trefoil.

GWEDDLYS. *edr.* GLAS.

GWELL NA 'R AUR; Valeriana *officinalis;* Great Wild Valerian. *edr.* LL. CADWGAN.

GWELLT Y GAMLAS; Zostera *marina;* Grass Wrack.

Tô a wneir o 'r llysieuyn hwn, yn lâs ac yn îr, a barha gant o flynyddoedd ar adeilad. Arferir ef, mewn rhai gwledydd, yn lle peiswyn neu ûs mewn gwelyau.

GWENDON; Galium;——Bedstraw.

GWEN-GRAITH; Sanicula *europæa;* Sanicle.

GWENITHEN; Triticum;——Wheat.

GWENITHWELLT YMDANAWL; Triticum *repens;* Creeping Wheat grass.

Y gwraidd gwedi ei sychu ai malu a arferwyd i wneuthur bara yn amseroedd prinder. Y mae 'r sug yn llesol rhag rhwystrad yn yr ymysgaroedd, yn enwedig rhag y cryd melyn, a chwarennau yn yr afu.

GWENITH Y BRAIN; Sedum *anglicum;* English Stonecrop.

GWENITH Y BWCH; GWENITH YR HYDD; } Polygonum *Fagopyrum;* Buckwheat.

GWENITH Y DDAEAR; GWENITH Y GÔG; } Ranunculus *Ficaria;* Pilewort.

GWENITH YR YSGYFARNOG; Briza *media;* Common Quaking grass.

GWENONWY; *Merch Ifor hael.* } Convallaria *majalis;* Lily of the valley.

GWENWIALEN; Acer *campestre;* Common Maple tree.

GWENWLYDD; Galium;——Bedstraw.

GWENYNDDAIL; GWENYNLLYS; } Melissa;——Baulm.

Nid oes ei gwell, gan dywallt dwr berwedig arni, neu yn rhith *tê,* i wneud diod deneu i glaf tan y cryd poeth, neu glefyd y gwres; yn enwedig ynghyd a 'r *suran dair dalen, suran y cwn,* neu *suran yr yd.*

GWENYNOG; Melittis *Melissophyllum;* Bastard Baulm.

GWERDDIG; Trientalis *europæa;* Chickweed Wintergreen.

GWERDDONELL; Salvia *Verbenaca;* Wild English Clary.

GWERNEN; Betula *Alnus;* Common Alder-tree.

GWEROG; Plantago *maritima;* Sea Plantain. *edr.* tu dalen 16.

GWERYD; Lichen *filamentosus;* Stringy Liverwort: a division of the Genus LICHEN.

GWEUNBLU; Eriophorum;——Cottongrass.

GWEUNWELLT; Poa;——Meadowgrass.

GWEWYDD. *edr.* YSWYDDEN.

GWEWYRLLYS; Anethum *graveolens;* Dill.

Yr unrhyw yw rhinwedd hon a 'r eiddo y *Ffenigl cyffredin;* eithr hon ydyw 'r mwyaf nerthol.

GWIALEN Y BUGAIL. *edr.* FFON, &c.

GWIALEN EURAID. *edr.* EURWIALEN.

GWIBERLYS. *edr.* GLESYN Y WIBER.

GWIBREDYNEN; Blechnum *boreale;* Rough Spleenwort.

GWIFWRNWYDD; Viburnum *Lantana;* Mealy Guelder-rose.

GWIFWRNWYDD Y GORS. *edr.* CORSWIGEN.

GWILFFRAI; Achillea *Millefolium;* Common Yarrow, Milfoil.

GWILLON; Asparagus *officinalis;* Sperage, Asparagus.

GWIMON; Fucus;——Seaweed, Wrack. *edr.* GWMMON, &c.

GWINIOLEN, GWINIOLWYDD, GWINOWLEN. *edr.* GWENWIALEN.

GWINWYDDEN; GWINIEN; } Vitis *vinifera;* Vine.

GWINWYDDEN DDU; Tamus *communis;* Black Bryony.

GWINWYDDEN WEN; Bryonia *dioica;* Red berried Bryony. *edr.* GREOL.

GWIOLYDD; Viola;——Violet. *edr.* CRINLLYS, LLYS Y DRINDOD, PEN Y NEIDR.

GWIRGARIAD. *edr.* CWLWM CARIAD.

GWIWYDDEN; Populus;——Poplar.

GWLITHLYS; Drosera;——Sundew.

GWLYDDYN BLEWOG. *edr.* CLUST LLYGODEN.

GWLYDDYN Y CYWION. *edr.* BRECHLYS.

GWLYDDYN Y DWR; Montia *fontana;* Water Chick weed.

GWLYDDYN Y GEIFR; Silene *maritima;* Sea Campion.

GWLYDDYN GARW. *edr.* CYNGAFAN.

GWLYDDYN GRONYNOG; Cucubalus *baccifer;* Berry-bearing Chickweed.

GWLYDDYN LLYDANFRIG; Holosteum *umbellatum;* Umbelliferous Chickweed.

GWLYDDYN MAIR GWRRYW; Anagallis *arvensis;* Scarlet Pimpernel.

GWLYDDYN MAIR BENYW; Anag. *arvens. var.* Blue Pimpernel.

Y ddeilen hon a arferir yn gyffredin ym meusydd medi, iw hyssigo ai dodi yn blastr ar archoll a ddigwydd gan gryman, a llesol ydyw i friw ar bob cyffelyb achos.

Y mae i 'r sug hefyd y gair o fod yn llesol, yn gymmysgedig a llefrith, rhag nychdod, neu glefyd yr ysgyfaint.

GWLYDDYN Y PERTHI; Galium *Aparine;* Goose-grass, Cleavers.

Tair wns neu bedair o'r sug, nos a boreu, sydd yn dra effeithiol i iachau y tarddiadau, a 'r gwres ar groen dyn, yr hwn a elwir yn gyffredin, eithr yn anaddas, clafrllyd, llwg, neu ysgyrfi; e ddylid ei arferu dros rai wythnosau. Y mae yn yr un modd yn llesol iawn rhag y dyfrglwyf; pan na cheir y dail yn irion, gellir tywallt dwr berwedig ar y sychion.

GWMMON, GWMMWN, GWYMMWN. *edr.* GWIMON.

GWRAIDDIRIOG; Pimpinella;——Burnet Saxifrage.

Y mae gwraidd y llysieuyn hwn yn boethaidd, ac, iw gnoi, yn fuddiol rhag gwayw yn y geneu; cyfrifir ef hefyd yn llesol i 'r cylla, rhag peswch, crygni, diffyg anadl, a'r dyfrglwyf; ac i fenywod ar amryw achosion. Dogn yw hanner dram yn sylwedd, ac hyd dwy ddram yn rhith *té.*

GWRDDLING. } *edr.* GWYRDDLING.
GWRLING. }

GWREGYSAU 'R MÔR; Fucus *saccharinus;* Sweet Sea weed, Sea belts.

GWREIDDBER. *edr.* PERWRAIDD.

GWREIDD-DON; Scabiosa *succisa;* Devil's bit Scabious.

GWREIDDRUDD; Rubia *peregrina*; Wild Madder.

GWRNERTH; Veronica *officinalis;* Male Speedwell.

Deilen iachus yw hon, ac a arferir yn lle *tê;* er nad yw mor flasus, ac yn mwy tueddol i rwymo 'r coluddion.

GWROITH; Tanacetum *vulgare;* Common Tansy.

GWRTHBWYS; Phœnix *dactylifera;* Common Palm tree.

Y mae natur y pren hwn i gynnyddu, gan ymosod yn erbyn pob gormes, ac i wrthsefyll pob pwys a osodir arno. O blegyd hyn y cangau a gymmerodd y dyrfa, yr hon a ddaethai i'r wyl, o'r Palmwydd, fel y darllenir, *Joan* xii. 13. a gymmerwyd o wydden, yr hon yw fel hyn arwydd-lûn o'r hwn, ar ba un " y rhoddes yr ARGLWYDD ein anwiredd ni i gyd;" Yr hwn hefyd a ddug annirnadwy bwys digofaint Duw drosom ni, eithr a oedd cyn belled oddiwrth lwyr ddiffygio tan faich pechod a dyoddefaint, ag iddo, mal y Palmwydden, gynnal a gorchfygu y cwbl,—adgyfodi yn fuddugoliaethus o farwolaeth a'r bedd,—ac, mal y dywed y Psalmydd am dano, a flodeua yn dragywydd fel y Palmwydden.

GWRTHLYS. *edr.* CARN YR EBOL Y GERDDI.

GWRWGAWN; Festuca *elatior;* Tall Fescue grass.

GWSTLYS. *edr.* GYSTLYS.

GWYARLLYS; Lythrum;——Grasspoly.

GWYBYBYR; Elatine *Hydropiper;* Small Waterwort.

GWYDRO; Trifolium *officinale;* Common Melilot.

GWYDD Y PILCOES. *edr.* PILCOES.

GWYDD-DROED; Chenopodium;——Goose-foot.

GWYDDFID; Lonicera *Periclymenum;* Woodbind, Honeysuckle.

GWYDDLWDN; } Poterium *Sanguisorba;* Common Burnet.
GWYDDLWYN; }

Y ddeilen hon a 'r had ydynt esmwyth rwymawl ac yn llesol rhag gwaedlif, a chlefyd y gwaed.

GWYDDWYDD. *edr.* GWYDDFID.

GWYFON; Ribes *Uva crispa;* Smooth Gooseberry.

GWYFON BARFOG; Ribes *Grossularia;* Rough Gooseberry.

GWYFYNOG; Verbascum *Blattaria;* Moth Mullein.

GWYG; GWYGBYSEN; } Vicia *Cracca;* Tufted Vetch.

GWYG Y MOR; Fucus;——Sea weed, Wrack.

GWYGYRNDDAIL; Ceratophyllum;——Hornwort.

GWYLAETH; Lactuca;——Lettuce.

GWYLAETH CHWERW; Picris *echioides;* Bristly Ox-tongue.

GWYLAETH Y FAGWYR; Prenanthes *muralis;* Ivy-leaved Lettuce.

GWYLAETH Y MOCH; Hyoseris *minima;* Swine's Succory.

GWYLAETH YR WYN; Valeriana *Locusta;* Corn Salad.

GWYLYS; Glycyrrhiza;——Liquorice.

GWYLLT-GEIRCH. *edr.* FFETTUR.

GWYMON. *edr.* GWMMON.

GWYN Y DILLAD; Scandix *odorata;* Sweet Cicely.

GWYN Y MERCHED; Potentilla *anserina;* Silver weed, Wild Tansy.

Y mae 'r ddeilen hon yn esmwyth rwymawl; gwedi ei sychu ai mân bwyo, hi a iacha y cryd mwyth; cymmered y claf lonaid llwy o 'r pylor pob teirawr, rhwng y gloesau.

GWYNDDAIL. *edr.* RHOSCAMPAU.

GWYNWYDD. *edr.* GWYDDFID.

GWYRAN; Arundo *colorata;* Canary Reed-grass.

Y gwelltyn hwn a wna lawer gwell tô ar deisi, yn enwedig ar fythod, a llawer mwy parhaus na gwellt cyffredin.

GWYRDD Y COED. GWYRDD Y GAUAF. } *edr.* COEDWYRDD.

GWYRDDLING; Myrica *Gale;* Sweet Gale.

Tarflyngyr llesol ydyw 'r llyswydd hwn, gan gymmeryd y dail naill ai yn bylor, neu gwedi eu mwydo mewn dwr berwedig. Ei arferir yn gyffredin yn agos i welyau i darfu chwain.

GWYROS. *edr.* CWYROS.

GWYSGLYS; GWYSGONLYS; } Viscum *album;* Mistletoe. *edr.* UCHELFAR, &c.

GWYTHDYDD; Hottonia *palustris;* Featherfoil, Water Violet.

GYLFINOG; Narcissus;——Daffodil, Primrose peerless.

GYSPLYS; Œnanthe *crocata;* Hemlock Water Dropwort.

Pob rhan o'r llysieuyn hwn sydd dra gwenwynig, yn enwedig y gwraidd; yr hwn, er ei fod yn echryslonaf o bob gwenwyn llysieuaidd a dyfant yn y gwledydd yma, sydd etto yn llesol iawn i'w ddodi yn blastr neu sugaethan ar y gweliau, a ddigwyddant ar draed anifeiliaid corniog, y rhai a elwir yn gyffredin y *Llaid.*

GYSTLYS; Tanacetum *vulgare;* Common Tansy.

Chwerwyn cynnes ydyw y llysieuyn hwn, a gwasanaethgar i symmudo rhwystrau yn y cylla a'r colydd; yr hâd a ddifa lyngyr yn hynod; y mae hefyd yn llesol i gryfhau 'r cylla, a rhag y famwst; dogn yn bylor yw un dram; eithr y modd rhwyddaf, a mwyaf cyffredin yw ei gymmeryd yn rhith *tê,* gan dywallt arno ddwr berwedig.

HAD Y GRAMANDI. *edr.* MAENHAD.

HAD Y LLYGAID. *edr.* TORFAGL.

HAD Y LLYNGYR; Semen Artemisiæ *Santonicæ;* Wormseed.

Y dogn yw ynghylch dram.

HAIDD; Hordeum;——Barley.

HAIDDWELLT; Hordeum;——Barley grass.

HANNERPAN; Verbascum *Lychnitis;* White Mullein.

HEBOGLYS; Hieracium;——Hawkweed.

HEDDIG; Raphanus;——Radish.

HEGYDD; Bunias *Cakile;* Sea Rocket.

HEL-LAS; Glaux *maritima;* Black Saltwort.

HELESG; Iris *fœtidissima;* Stinking Iris, Gladwyn.

HELOGAN; Apium *graveolens;* Smallage, Wild Celery.

Meddyginiaeth rhagorol ydyw y daìl a 'r gwraidd o'r llysieuyn hwn, gwedi eu berwi mewn diod frâg fain, rhag y dyfrglwyf.

Benyw ieuaingc ar drangcedigaeth gan y dyfrglwyf, a lwyr adferwyd iw hiechyd gan y meddygiaeth hwn yn unig, gwedi methu o lawer o foddion eraill gan feddygon enwog.

HEL-LYS; Salsola *Kali;* Prickly Saltwort.

HELYGEN; Salix;——Willow.

Rhisgl amryw rywogaethau o'r tylwyth hwn, sef y *deirgwrryw hìrddail,* y *frau,* a'r *wen (edr. tu. dal.* 92, 93.) sydd feddyginiaeth

hynod rhag y cryd mwyth; y dogn yw dram neu ddwy yn bylor, i'w gymmeryd ddywaith neu dair rhwng y gloesau.

HELYGEN MAIR. *edr.* GWYRDDLING.

HELYGLYS; Epilobium;——Willow-herb.

HENLLYDAN; Aristolochia *rotunda;* Round Birthwort.

HENLLYDAN Y FFORDD. *edr.* LLYRIAD MWYAF.

HENWR; Artemisia *campestris;* Field Southernwood.

HEONLLYS. *edr.* GWYSGLYS, ac UCHELFAR.

HESGEN; Carex;——Sedge. *edr. tu dal.* 84—88.

HESGEN MELFEDOG; Typha;——Cat's-tail, Reed mace.

HEUFFRAS. *edr.* EFFROS.

HIAWL. *edr.* GREOL.

HILGEIRCH; Avena *nuda;* Naked Oat.

HIR EI HOEDL; Gnaphalium *margaritaceum;* American Cudweed.

HIRWLYDD. *edr.* EURWALLT Y FORWYN.

HOCCYSEN; Malva;——Mallow.

HOCCYSEN GYFFREDIN; Malva *sylvestris;* Common Mallow.

Unnaws ydyw, ac yn gyfrannog o'r un rhinweddau, a'r *Malw yr hel,* ond ysgatfydd mewn ychydig îs radd; eithr y mae i hon y fantais o'i bod yn fwy cyffredin, ac yn hawsach i'w chael. *edr.* MALW 'R HEL.

HOCCYSEN BENDIGAID; Alcea *rosea;* Hollyhock.

HOCCYSEN WYLLT; Malva *moschata;* Musk Mallow.

HOCCYSEN Y GORS; Althæa *officinalis;* Marsh Mallow.

HOCCYSEN Y MÔR; HOCCYSWYDDEN; } Lavatera *arborea;* Sea Tree-mallow.

HOLLIACH. *edr.* UCHELAWG.

HOPPYS. *edr.* LLEWIG Y BLAIDD.

HOSANAU 'R GOG; Orchis *mascula;* Early purple Orchis.

HUDDIGL. *(llygrair.) edr.* RHUDDYGL.

HWL. *edr.* GREOL.

HWP YR YCHEN; Ononis *arvensis;* Rest-Rarrow, Cammock.

HYDYF. *edr.* BLODAU 'R GÔG.

HYDDGWYR; Prunus *Cerasus nigra;* Black Cherry.

HYLITHR; HYLYF; } Helleborus *fœtidus;* Stinking Hellebore.

HYLLGRUG; Iris *fœtidissima;* Stinking Iris, Gladwyn.

IORWG. *edr.* EIDDIORWG.

IEUDAWDD. } *edr.* GWRNERTH.
IEUTAWD. }

ISOBL; } Hyssopus *officinalis;* Hyssop.
ISOP; }

ITHROG. *edr.* GITHROG.

KLOWS. *edr.* CLOWS, ac PENNIGEN RHUDDGOCH.
KNAPPIA. *edr.* EIDDIL-WELLTYN.

LAFANT; Lavendula *Spica;* Lavender.
LAFANT Y MOR. *edr.* LLEMYG.
LAWR. *edr.* LLAFAN.
LAWR-SIRIANEN; Prunus *Laurocerasus;* Cherry Bay, commonly, Laurel.

O herwydd natur gwenwynllyd dail y pren hwn, ni ddylid eu harferu mewn un math o fwyd, neu luniaeth, fel y mae rhai yn rhy chwannog i wneud. Eithr myfi, ym mhlith eraill, a gefais lawn brawf o'u rhinwedd, nid yn unig i esmwythau, eithr, í lwyr íachau cûr, neu waew yn y pen, y cefn, neu 'r cymmalau, gan ddodi 'r ddalen lâs, neu gynnifer ac a fyddo angenrheidiol i orchuddio 'r man lle byddo 'r cwyn, gan eu ysgafn bwytho ar ddarn o wlanen, neu 'r cyffelyb beth, a'u rhwymo yno hyd na chrinont, ac yna eu newid os bydd achos.

LAWRYF. *edr.* LLAWRWYDDEN.
LEMYG. *edr.* LLEMYG.
LENTYSGBREN *(Hist. Susan.)* Pistacia *Lentiscus;* Mastick tree.
LETTUS. *edr.* LLAETHYGEN.
LICORUS. *edr.* MELUSWRAIDD.
LILI. *edr.* ELESTREN.
LILI 'R DWR. *edr.* ALAW, MAGWYR, a BWLTYS.

LILI 'R DYFFRYNNOEDD. } *edr.* ALAW CREWYLL.
LILI 'R MAI. }

LINNÆA; Linnæa *borealis;* Two-flowered Linnæa.
LOBELIA. *edr.* BIDAWGLYS.
LWFACH. *edr.* LLWFACH.
LYRCADEIS. *edr.* LLYRCADYS.

LLADDFRWYN; Iunci *articulati;* Jointed-leaved Rushes.

LLAETH BERLLYS; Selinum *palustre;* Marsh Milky Parsley.

LLAETH BRON MAIR; Pulmonaria *officinalis;* Common Lungwort.

Y mae i'r ddeilen hon yr hen air o fod yn llesol rhag y peswch, poeri gwaed, ac amryw glwyfau yr ysgyfaint. Cymmerer hi yn rhith *tê;* a melyser ag ychydig fêl, neu siwgr *candi.*

LLAETH Y CYTHRAUL. *edr.* FFLAMGOED FECHAN.

LLAETH Y GEIFR. *edr.* GWYDDFID.

LLAETH YR YSGYFARNOG; Euphorbia *helioscopia;* Sun Spurge, Wart-wort.

LLAETHLYS. *edr.* AMLAETHAI.

LLAETHWYG; Astragalus;——Milk-vetch.

LLAETHYGEN; Lactuca;——Lettuce.

LLAETHYSGALLEN; Sonchus *oleraceus;* Common Sow-thistle.

Sydd lawn cystal a *bresych* ynghyd a chigfwyd.

LLAFAN; Ulva;——Laver.

LLAFANOG. *edr.* LLYFANNAWG.

LLAFN Y BLADUR; Narthecium *ossifragum;* Lancashire Asphodel.

LLAFRWYNEN. *edr.* LLADDFRWYN.

LLASARLLYS. *edr.* GWEDDLYS.

LLAWEGOR; Carduus *arvensis;* Creeping Thistle.

LLAWENLYS. *edr.* GLESYN.

LLAWETHAN; Polemonium *cæruleum;* Jacob's ladder, Greek Valerian.

LLAWREDYNEN; Polypodium *vulgare;* Common Polypody.

Y gwraidd îr sydd ysgarthaidd esmwyth; hanner peintiaid o ddwr berwedig ar chwe dram o hono a ellir ei gymmeryd ar ddwywaith. Yr ydys yn disgwyl iddo fod ym mwy llesol rhag peswch, diffyg anadl, a chlefydau yr ysgyfaint, ynghyd a'r *meluswraidd.*

LLAWRIG; Vinca *major;* Greater Periwinkle.

LLAWRSIRIANEN. *edr.* LAWRSIRIANEN.

LLAWRWYDDEN; } Laurus *nobilis;* Laurel, Bay tree.
LLAWRYF; }

LLEFANOG. *edr.* LLYFANNAWG.

LLEIDLYS; Limosella *aquatica;* Mudwort.

LLEMYG; Statice *Limonium;* Sea Lavender.

LLER; Bromus *secalinus;* Smooth Rye Brome Grass.

LLEULYS; Delphinium *Staphisagria;* Staves-acre.

Yr had sydd wenwyn marwol, o herwydd hyn hynod effeithiol yw i lâdd llau a phryfaid eraill, am ba achos henw y llysieuyn ym mhob iaith yn ewrop sydd o'r un ystyr a'r cymreig.

LLEWGWYN. *(llygrair.) edr.* LLYGWYN.

LLEWPARD-DAG; Doronicum *Pardalianches;* Great Leopard's bane.

LLEWYG Y BLAIDD; Humulus *Lupulus;* Hop.

Trwyth o'r gwraidd a bair chwysu, cystal a'r *sarsaparilla.*

LLEWYG YR IAR; Hyoscyamus *niger;* Henbane.

Er bod y llysieuyn hwn yn wenwynawl, y mae yn feddygiaeth llesol iawn mewn dwylau cyfarwydd. Y dail yn sugaethen neu blastr a esmwythant benddüyn, tynchwydd, crangen, a'r cyffelyb. Dywedir i'r dail, os gwasgerir hwy yma a thraw ar loriau, darfu llygod.

LLEWYG Y LLAU. *edr.* LLEULYS.

LLEWYG Y LLYNGYR. *edr.* HYLITHR.

LLEWYN. *edr.* LLYGWYN.

LLEYNLYS. *edr.* LLWYLYS.

LLIFLYS. *edr.* DANT Y PYSGODYN.

LLIN; Linum;——Flax.

Trwyth neu dywallt chwart o ddwr berwedig ar lonaid llwy neu wns o'r had sydd llesol iawn rhag crygni, y peswch, a doluriau yr ysgyfaint. Hwy a wnant hefyd sugaethan neu blastr tra buddiol rhag poethwynau, neu wres oddiallen i'r corph.

LLIN Y FORWYN;
LLIN Y LLYFFAINT; } Antirrhinum *Linaria;* Common Toad-flax.

Tywalltiad dwr berwedig, ar ddail y llysieuyn hwn sydd droethbair ac ysgarthaidd, ac yn ddilynol yn llesol rhag y dyfrglwyf, a chlefydau eraill, y rhai a ofynant garthddiodydd. Y mae efe hefyd yn dda rhag y cryd melyn; eithr ei rin mwyaf hynod sydd yn y blodau a'r dail mewn eli, neu dwymolch, neu sugaethan rhag y lledewigwst, neu glwyf y marchogion. Y blodau ynghyd a blodau Sircyn y melinydd yn rhith *tê,* a iachaodd darddiadau yn y croen, neu grugdarddiadau, gwedi methu o foddion eraill, gan feddygon dros flynyddoedd, eu gorchfygu.

LLIN Y TYLWYTH TEG; Linum *catharticum;* Purging Flax.

Trwyth o ddwy ddram neu ychwaneg o'r planhigyn sych sydd hynod arloes-ddiod; ac yn llesol rhag y crydcymmalau; y mae hefyd yn ddwfr-rhyddhaol, neu droethbair.

LLINCLWM; LLINDAG; LLINDRO; } Cuscuta;——Dodder.

LLINHAD Y DWR; Lemna;——Duckweed.

LLINHESG; Callitriche *aquatica;* Water Starwort.

LLINOS. *(llygrair.) edr.* LLINHESG.

LLINWYDD YR AFON; LLINWISG } Conferva;——Crow-silk, Hair weed.

LLIWIOG LAS. LLIWLYS. } *edr.* GLAS.

LLOERLYS; LLOER-REDYNEN; } Osmunda *Lunaria;* Moon-wort.

LLOERLYS LLAETHOG; Selinum *palustre;* Marsh Milky Parsley.

LLORWYDDEN. *edr.* LLAWRWYDDEN.

LLOSG-FALLDER; Uredo;——Blight.

LLOSGLYS; Daphne *Mezereon;* Spurge-olive.

LLOWRIG. *edr.* LLAWRIG.

LLUDWLYS. *edr.* LLYS Y LLUDW.

LLUGLYS; Lychnis;——Campion.

LLÛS, LLÛSEN; LLUSWYDDEN; } Vaccinium *Myrtillus;* Bilberry, or Bleaberry.

LLÛS Y BRAIN. LL. DUON Y MYNYDD. } *edr.* CREIGLYS.

LLWFACH; Ligusticum *Levisticum;* Lovage.

LLWGR Y TEWLAETH. *edr.* SIRCYN Y MELINYDD.

LLWYD BONEDDIG; Santolina *maritima;* Sea Cotton-weed.

LLWYD Y CWN; Marrubium *vulgare;* White Horehound.

Y ddeilen hon sydd lesol rhag attalfa neu rwystrad yn y coludd a'r afu, rhag y llyngyr, a'r cryd melyn; y mae hi yn hynod rhag diffyg anadl, y peswch, a nychdod, yn enwedig i ddynion oedranus; sef trwyth o honi, neu dywalltiad dwr berwedig arni, gwedi ei felysu ag ychydig fêl; eithr dalier sulw yma, gan nad ydyw mêl yn cyttuno a thymmer pob dyn, y dylid ei buro gan ei ddiewynu uwch ben tân

araf, cyn yr arferer ef mewn meddyginiaeth, rhag iddo wneuthur mwy o ddrwg nac o les.

LLWYD Y DIN. *edr.* GWYN Y MERCHED.

LLWYD YR EITHIN. *edr.* CHWERWLYS.

LLWYD Y FFORDD; Gnaphalium *germanicum;* Common Cudweed.

LLWYDLAS; Glaucium;——Horned Poppy.

LLWYDLYS; Artemisia *vulgaris;* Mugwort.

LLWYDNI; Mucor;——Mould.

LLWYF; LLWYFANEN; } Ulmus;——Elm-tree.

Trwyth yr ail risgl, i'w yfed yn helaeth, a wybuwyd yn dra llesol rhag y dyfrglwyf, tarddiadau yn y croen, (nid anghyffelyb i'r gwahanglwyf,) dyfrwreinyn a'r cyffelyb; pedair wns o'r rhisg mewn deuchwart o ddwr, a berwer hyd leiheir yr hanner; yfer hanner peintiaid o hono ddwywaith yn y dydd; os y clefyd fydd gyndyn, angenrheidiol fydd cymmeryd y trwyth dros fisoedd.

LLWYGLYS; Inula *Helenium;* Elecampane.

LLWYLYS; Cochlearia; Scurvy-grass.

Hynod ydyw 'r ddeilen hon am bureiddio 'r gwaed, a meddygiaeth llesol iawn yw rhag diffyg anadl llysnafeddawg, a'r cryd cymmalau a fo yn deillio oddiwrth ammhurdeb gwaed. Gellir ei harferu yn fwydlys ynghyd a'r *suran dairdalen;* neu yfer ei sug. Y mae hi yn droethbair ac yn ysgarthaidd.

LLWYNHIDYDD; Plantago *lanceolata;* Ribwort Plantain.

LLWYN COTTYMMOG; Santolina *Chamæcyparissus;* Lavender Cotton.

LLWYN Y CYTHRAUL. *edr.* LLYGAD.

LLWYNAU 'R FAGWYR; Sedum *reflexum;* Yellow Stonecrop.

LLWYN Y NEIDR. *edr.* LLWYNHIDYDD.

LLWYN Y TEWLAETH. *edr.* SIRCYN Y MELINYDD.

LLYCH-GEN; Lichen *pulverulentus;* Powdery Liverwort; a division of the genus LICHEN.

LLYCHLYN Y DWR; Veronica *Becabunga;* Brooklime.

Llysieuyn tyner yw a sugawl, a bwydlys iachus yn y gwanwyn.

LLYDAN Y FFORDD; Plantago *major;* Greater Plantain.

LLYFANNAWG; Conferva;——Hairweed, Crowsilk.

LLYFENWY; Saxifraga;——Saxifrage.

LLYGAD CRIST. *edr.* GOLWG.

LLYGAD Y CI; Triticum *repens;* Couch-grass.

LLYGAD Y CYTHRAUL; Papaver *Rhæas;* Common Red Poppy.

LLYGAD Y DYDD; Bellis *perennis;* Common Daisy.

Y mae y llysieuyn bychan cyffredin hwn yn feddiannol o rinweddau buddiol iawn; yn y dail y mae y daioni. Canmolir ef yn fawr rhag y mall-gryd di-ddyspaid a phob math o wrês oddimewn, ym mha ran bynnag o 'r ymysgaroedd y bo. Tywallter ar y dail ddwr berwedig dros nôs, a berwer ef drannaeth dros ddau funud neu dri, yna yfed y claf y trwyth yn gymmysgedig a llefrith, yr un mesur o bob un, ddwywaith neu dair yn y dydd. Pan yf dyn cwla laeth asen, megis meddygiaeth, e fyddai yn dra mwy effeithiol pe cymmysgid ef a llyn oddiar y ddeilen hon.

LLYGAD Y DYDD MAWR. *edr.* ASPYGAN.

LLYGAD Y DYNIAWED. } *edr.* BRONWST.
LLYGAD EBRILL. }

LLYGAD EIRIAN. *edr.* LLYGAERON.

LLYGAD Y GOEDIAR; Adonis;——Pheasant's eye.

LLYGAD YR YCH; Anthemis *tinctoria;* Ox-eye Chamomile.

LLYGAD YSGYFARNOG; Comarum *palustre;* Marsh Cinquefoil.

LLYGADLYM; } Chelidonium *majus;* Celandine.
LLYGADLYS; }

LLYGAERON; Vaccinium *Oxycoccus*; Cranberry, Bogberry.

LLYGWYN; Atriplex;——Orache.

LLYGWYN DREWLLYD. *edr.* TRWYNSOR.

LLYM Y LLYGAD. *edr.* LLYGADLYS.

LLYMDREINIOG; Schœnus *Mariscus;* Prickly Bog-rush.

LLYMEIDFWYD; Sonchus *oleraceus;* Sowthistle.

LLYMFRWYNEN; Iuncus *acutus;* Great Sharp Sea Rush.

LLYNDDAIL; Potamogeton;——Pondweed.

LLYNGWREN; Prunus *Padus;* Bird Cherry.

LLYNORLYS; Stellaria *media;* Common Chickweed.

LLYNWLYDDYN CORNIOG; Zannichellia *palustris;* Horned Pondweed.

LLYREN; Alisma;——Water Plantain, Thrumwort.

LLYRCADYS; Mentha *Pulegium;* Pennyroyal.

LLYRIAD; Plantago;——Plantain.

LLYRIAD MWYAF; Plantago *major;* Greater Plantain.

Y dail gwedi eu hysigo ydynt llesol i'w dodi ar archollion, neu friwiau newydd, a dolur neu anafad yn y cnawd. I'w cymmeryd buddiol ydynt rhag cwyn yn yr ysgyfaint, poeriad gwaed, ac amryw ddylif, neu ddolur rhydd. Yr had o herwydd ei natur tra llysnafeddawg sydd oreu rhag y cwyn yn yr ysgyfaint. Y dogn yw wns neu ddwy o 'r sug, neu drwyth cryf o 'r llysieuyn; ac yn ddognau helaethach dywedir iddo ro'i 'r wrach ar ffo, os cymmerir yn nechreuad y loes.

LLYRIAD Y DWR; Alisma;——Water Plantain.

LLYRIAD LLWYDION; Plantago *media;* Hoary Plantain.

LLYRIAD LLYMION; LLYRIAD Y LLYNAU; } Alisma *Plantago β.;* Greater Water Plantain.

LLYRIAD Y MOR; Plantago *maritima;* Sea Plantain.

LLYRLYS; Salicornia;——Marsh Samphire, Jointed Glasswort.

LLYSUAWG; LLYSYRAWT; LLYSYRLYS; } Sanguisorba *officinalis*; Great Burnet.

LLYS* AMMOR; Amaranthus;——Flowergentle.

LLYS F' ANWYLYD; Geum *urbanum;* Common Avens, Herb Bennet.

LLYS YR AFU; LLYS YR AU; } Marchantia;——Livergreen.

LLYS YR AIS. *edr.* LLWYN HIDYDD.

LLYS YR ANGEL; Angelica;——Angelica.

LLYS YN ANGEL PERAROGLAIDD; Angelica *Archangelica;* Garden Angelica.

Llysieuyn peraroglaidd a thwymn ydyw, ac yn dueddol i chwalu gwynt; arferer yn yr un modd a 'r tê.

LLYS YR ANGEL Y GOEDWIG; Angelica *sylvestris;* Wild Angelica.

Sydd o'r un naws, eithr gwannach. Y llysieuyn hwn a liwia felyn têg.

LLYS YR ARCHOLL. *edr.* BRIWLYS.

LLYS Y BARA. *edr.* BARLYS.

* Er mwyn crynôad mi arferaf y gair LLYS, (yn lle *llysiau*) gan nas gallaf ddirnad pa ham nad ydyw mor gyfaddas o flaen pob enw, ag ydyw o flaen y gair dwyfawg. *edr. Geirlyfr* y Dr. Davies am y gair Llys; a'r *Botanol.* yr un gair.

LLYS BENED. *edr.* F' ANWYLYD.

LLYS Y BLAIDD. *edr.* BLEIDD-DAG.

LLYS Y BLEURWG. *edr.* YSGOL FAIR.

LLYS Y BRONNAU. *edr.* BRONWYS.

LLYS Y BYSTWN; Draba *verna;* Common Whitlow-grass.

LLYS CADWALADR; Teucrium *Chamædrys;* Wall Germander.

LLYS CADWGAN; Valeriana *officinalis;* Great Wild Valerian.

Y mae 'r gwraidd yn rhinweddol iawn rhag yr wrwst, neu gwlwm y gwythi; ac hefyd rhag y famwst, a'r clwyf dygwydd; ac yn enwedig rhag cynnefin rwymedd y coluddion. Dogn o hanner *dram* i *ddram* yn bylor.

LLYS Y CLEFYD MELYN. *edr.* DILWYDD FELEN.

LLYS Y COLUDD; Mentha *Pulegium;* Pennyroyal.

LLYS Y CRIBAU. *edr.* CRIBAU 'R PANNWR.

LLYS CRIST. *edr.* AMLAETHAI.

LLYS CRISTOFFIS; Actæa *spicata;* Herb Christopher, Bane-berries.

LLYS Y CRYMMAN. *edr.* GWLYDDYN MAIR.

LLYS Y CWLWM; Symphytum *tuberosum;* Tuberous-rooted Comfrey.

LLYS Y CWN. *edr.* MEL Y CWN.

LLYS Y CWSG; Papaver *somniferum;* White Poppy.

LLYS Y CYFOG. *edr.* CARN YR EBOL Y GERDDI.

LLYS Y CYRPH; Artemisia *campestris;* Southernwood.

LLYS Y CYWER; Galium *verum;* Yellow Bedstraw, Cheese rennet.

Y blodau a arferir mewn mannau yn lle caul i wneuthur caws. Rhai a ddywedant yn dda am danynt rhag y famwst a'r clwyf dygwydd. Ynghyd ag *alwm* hwy a liwiant wlân yn felyn. Y gwraidd, yn yr un modd, a liwiant goch hynod, llawn cystal a'r *gochwraidd,* neu 'r *madr.*

LLYS Y DEFAID; Plantago *maritima;* Sea Plantain.

LLYS Y DIN; Polygonum *Hydropiper;* Biting Arsesmart.

LLYS Y DOMMEN; Polygonum *lapathifolium;* Pale-flowered Persicaria.

LLYS Y DRINDOD; Viola *tricolor;* Pansy Violet.

Meddyg enwog a ddywed iddo iachau yn ddifeth y dolur crachlyd, ym mhenau plant, yr hwn a elwir *crusta lactea* a'r ddeilen hon; efe a ferwai lonaid llaw o 'r dail gleision; neu hanner *dram* o 'r sychion mewn hanner peintiaid o lefrith, ac a roddai y llaeth iddynt

i'w yfed hwyr a boreu, dros rai wythnosau, gwnae hefyd sugaeth neu blastr o'r llaeth ynghyd a bara ac a'i dodai ar y fan glwyfus. Y mae hi hefyd yn llesol rhag diffyg anadl, gwelioedd crawn llyd, a'r cyffelyb. Hi a wna garthlyn esmwyth.

LLYS Y DRYW. *edr.* CWLYN Y MEL.

LLYS DWYFAWG. *edr.* CRIBAU ST. FFRAID.

LLYS Y DYFRGLWYF; Asparagus *officinalis;* Sperage, Asparagus.

LLYS Y DDANNODD; Imperatoria *Ostruthium;* Masterwort.

LLYS Y DDIDOL; Cyclamen *europæum;* Sowbread.

LLYS Y DDRAIG; Arum *Dracunculus;* Dragons.

LLYS Y DDUEG; Scolopendrium *Ceterach;* Scaly Spleenwort.

LLYS YR ECHRYSHAINT; Ruta *graveolens;* Rue,

Meddyginiaeth nerthol a wna y llysieuyn hwn i goethi y cyfangorph, ac yn ddilynol y mae yn llesol rhag yr wrwst neu gwlwm y gwythi; ac hefyd rhag y llyngyr, ac i chwalu rhwystrau yn y coludd. Y mae hefyd yn fuddiol rhag y clefydau y fam, a fyddant yn deilliaw oddiwrth dosparthiadau llesg a gweinion. Nid rhaid onid bwrw arno ddwr berwedig, ac yfed y claf hwnnw fel y bo achos yn peri. Eithr os cymmerer yn sylwedd, y dogn yw pwys o bymtheg i ugain gronyn.

LLYS EFA; Plantago *Coronopus;* Buck's-horn Plantain.

LLYS EFFROS. *edr.* EFFROES.

LLYS YR EGLWYS; Pedicularis *sylvatica;* Pasture Lousewort.

LLYS YR EIDDIGEDD; Gomphrena; Globe Amaranth.

LLYS YR ERYR; Asperula *odorata;* Woodruff, or Sweet Woodroof.

LLYS YR ESGYRN. *edr.* EIDRAL.

LLYS YR EWINOR; Draba *verna;* Whitlow grass.

LLYS Y FAM;
—— FAMMOG; } Leonurus *Cardiaca;* Motherwort.

Trwyth o'r llysieuyn hwn gwedi ei felysu sydd dra hynod feddyginiaeth rhag llamiad y galon, clefyd y fam, a'r dduegwst, neu glefyd y ddueg.

LLYS Y FAMAETH; Euphorbia *paralia;* Sea Spurge.

LLYS Y FAGWYR. *edr.* LLWYNAU 'R FAGWYR.

LLYS Y FORS; Herniaria;——Rupturewort.

LLYS Y FORWYN; Spiræa *Ulmaria;* Meadow sweet.
LLYS Y FUDDAU; Agrimonia *Eupatoria;* Agrimony.
LLYS Y GALON. *edr.* LLYS Y FAM.
LLYS Y GEINIOG; Hydrocotyle *vulgaris;* Marsh Pennywort.
LLYS GERWYN; Glecoma *hederacea;* Gill, Ground Ivy.
LLYS Y GIAU; Ruscus *aculeatus;* Butcher's Broom.
LLYS Y GINGROEN; Senecio *Jacobæa;* Common Ragwort.
LLYS Y GROES; Galium *cruciatum;* Crosswort, Mugweed.
LLYS Y GWAED; Mentha *Pulegium;* Pennyroyal.
LLY Y GWAEDLIF; Achillea *Millefolium;* Yarrow.

Y dail gleision gwedi eu pwyo neu eu ysigo ydynt enwog i'w dodi ar friw neu archoll erfyn i ddiddosi y gwaed. Rhai hefyd a ddywed fod dwr berwedig ar y dail a 'r blodau yn llesol rhag clefyd y gwaed, a phob math o waedlif tu fewn a thu allan i'r corph.

Meddyginiaeth hynod a wnaed o 'r ddeilen hon ynghyd ag Ysop, yr un faint o bob un; Merch ieuangc fonheddig a iachawyd o ganger echryslon yn ei bron gan iddi yfed llwyad o'r sug mewn ynghylch dwy wns o wîn gwyn bob boreu ar ei chythlwng.

Wallis's Northumb.

LLYS Y GWAEW. *edr.* LL. PENTAI.
LLYS Y GWALCH; Crepis;——Hawk's beard.
LLYS Y GWENYN. *edr.* GWENYNDDAIL.
LLYS Y GWEWYR. *edr.* GWEWYRLLYS.
LLYS Y GWRDA; Chenopodium *Bonus Henricus;* Mercury Goose foot.
LLYS Y GWRÎD; Anchusa *tinctoria;* Alkanet.
LLYS GWYDDELIG; Pastinaca *sativa;* Parsnep.
LLYS Y GWYNT; Anemone *nemorosa;* Wind flower.
LLYS Y GYMMALWST; Ægopodium *Podagraria;* Goutweed.
LLYS Y GYNDDAREDD. *edr.* EDAFEDDOG LWYD.
LLYS YR HEBOG; Hieracium;——Hawkweed.
LLYS YR HEDYDD. *edr.* YSPARDYN Y MARCHOG.
LLYS YR HIDL; Galium *Aparine;* Goosegrass, Cleavers.
LLYS YR HUDOL; Verbena *officinalis;* Vervain.
LLYS YR HYCHGRYG. *edr.* HYLLGRYG.
LLYS IAGO; Senecio *Jacobæa;* Common Ragwort.

LLYS IEUAN; } Artemisia *vulgaris;* Mugwort.
—— IFAN; }

LLYS Y LLAU. *edr.* LLEULYS.

LLYS Y LLAW; Cheiranthus *fruticulosus;* Wild Wallflower.

LLYS LLEWELYN; Veronica;——Speedwell. *edr. t. d.* 3.

LLYS Y LLIW. *edr.* GLAS.

LLYS Y LLUDW; Cineraria;——Fleawort.

LLYS Y LLWY. *edr.* LLWYLYS.

LLYS LLWYD. *edr.* LLYS IEUAN.

LLYS Y LLWYNOG; Geranium *Robertianum;* Herb Robert, Stinking Crane's-bill.

LLYS Y LLYGAID; Chelidonium *majus;* Celandine.

LLYS MAIR; Ajuga *reptans;* Common Bugle.

LLYS MAIR FADLEN; Tanacetum *Balsamita;* Costmary.

LLYS MARTIGAN; Lilium *Martagon;* Martagon.

LLYS MEDDYGLYN. *edr.* MEDDYGLYN.

LLYS Y MEL; Cerinthe;——Honeywort.

LLYS MELYN; Genista *tinctoria;* Dyer's Greenweed.

Hynod yw y llysieuyn hwn am liwio melyn.

Dogn o ddram a hanner o'r hâd yn bylor sydd garthfeddygiaeth esmwyth. Tywalltiad dwr berwedig ar y llysieuyn sydd droethbair, ac yn ddilynol yn fuddiol rhag y dyfrglwyf.

LLYS Y MEHERYN; Medicago *polymorpha;* Heart medick, Claver.

LLYS MEUDWY. *edr.* LL. Y GWRDA.

LLYS Y MILWR; Lythrum *Salicaria;* Purple Grasspoly.

LLYS Y MÔCH; Solanum *nigrum;* Common Nightshade.

LLYSIAU 'R MÔR; Fucus, Ulva, &c. *Sef* GWMMON, DYLYSG, LLAFAN, &c. Sea weed, Laver, &c.

LLYS Y MUROEDD. *edr.* MURLYS.

LLYS Y NEIDR; Polygonum *Bistorta;* Bistort, Snakeweed.

Gwraidd y llysieuyn hwn sydd un o'r cryfaf, a mwyaf effeithiol, o'r holl lysieuaidd rhwymyddion; y mae iddo air rhagorol am iachau llesgedd y coludd, y cryd dyspeidiawl, y dolur rhudd neu 'r daryymred, clwyf y gwaed, a phob math o ddylif anghymedrol arall, naill ar ei ben ei hun, neu ynghyd a'r *Ysgol Fair;* gellir ei gym'ryd

deirgwaith yn y dydd. Dogn o 'r gwraidd yn sylwedd, gwedi ei falu, yw o ugain gronyn hyd ddram.

LLYS YR OEN; Valeriana *Locusta;* Corn salad, Lamb's lettuce.

LLYS Y PANNWR. *edr.* CRIBAU 'R PANNWR.

LLYS Y PARED. *edr.* MURLYS.

LLYS Y PARLYS; Primula *veris;* Cowslip, Paigle.

LLYS PAUL; Primula;——Primrose.

LLYS PEDR; Hypericum *quadrangulum*; St. Peter's wort.

LLYS PENTAI; Sempervivum *tectorum;* Houseleek. *edr.* BYDDARLYS.

LLYS PERFIGEDD; Hypericum *Androsæmum;* Tutsan, Park leaves.

LLYS Y POER; Silene *inflata;* Bladder Campion, Bladder Catchfly.

Bwydlys iachus a blasus, gwedi ei ferwi, yw ynghyd a chigfwyd; y mae iddo flâs nid annhebyg i bys gleision.

LLYS Y PWDIN. *edr.* LL. Y COLUDD.

LLYS ROBERT. *edr.* LL. LLWYNOG.

LLYS SILIN; Plantago *Psyllium;* Flea-bane-wort.

LLYS SIMWNT; Malva *moschata;* Musk Mallow.

LLYS Y SIPSIWN; Lycopus *europæus;* Gipsey-wort, Water Horehound.

A 'r llysieuyn hwn y lliwia y Sipsiwn eu hwynebau a'u cyrph, y modd y bo rhagoriaeth rhyngddynt a dynol ryw yn gyffredin.

LLYS STEPHAN; Circæa;——Enchanter's Nightshade.

LLYS TALIESYN; Sedum *Telephium;* Orpine, Livelong.

LLYS TANEWYN; Aster *Tripolium;* Sea Star-wort.

LLYS Y TARW; Centaurea *Scabiosa;* Greater Knapweed, Bullweed.

LLYS Y TENEWYN; Aster *Amellus;* Attic Star-wort.

LLYS TORMAEN; Saxifraga;——Saxifrage.

LLYS Y TRYFAL; Thlaspi *Bursa Pastoris;* Shepherd's Purse.

LLYS Y TWRCH. *edr.* BLONEG Y DDAEAR.

LLYS Y WENNOL; Chelidonium;——Celandine.

LLYS YR YCHEN; Lychnis *dioica;* Wild Campion.

LLYS YR YSGYFAINT; { Pulmonaria *officinalis;* Common Lungwort.
Lichen *pulmonarius;* Tree Lungwort.

LLYS YR YSGYFARNOG; Satyrium *viride;* Frog Satyrion.

MABGOLL; Geum;——Avens.

MABGOLL BENDIGEIDLYS; Geum *urbanum;* Common Avens.

Y mae canmoliaeth mwy na chyffredin i amryw rinweddau y llysieuyn hwn, yn enwedig megis tarfgryd. Amryw awduron a dystiolaethasant pa mor effeithiol ydyw rhag y cryd dyspeidiol, gwedi methu o'r *Peruvian Bark;* gellir ei gymmeryd yn bylor, neu yn drwyth ac at yr un dognedd ag a ddodir o'r meddygiaeth tramor, sef o un scrwpl i ddram neu ddwy. Megis rhwymydd, ac i gryfhau'r cylla, a'r cyfangorph, yr ydys yn tybied ei fod yn amgenach meddygiaeth na 'r dywededig risgl tramor.

MADARCHEN; Boletus;——Porous Toadstool.

MADFELEN. *edr.* PENGALED.

MADYWYDD; Myrica *Gale;* Sweet Gale, Dutch Myrtle.

MADWYSG; Aquilegia *vulgaris;* Columbine.

MADYR; MADR; } Rubia *peregrina;* Wild Madder.

MAENHAD; Lithospermum;——Gromwell. *edr.* GRAWN YR HAUL.

MAENHAD MEDDYGAWL; Lithospermum *officinale;* Common Gromwell, Gray mill, Grey Millet.

Yr hâd a gyfrifir yn droethbair, yn enwedig yn rhith meddygfaeth, neu gan dywallt dwr berwedig ar yr hâd, gwedi ei ysigo; yfer o hono yn helaeth.

MAESEIFUAN; Lichen *caninus;* Ground Liverwort.

MAESWELLT; Agrostis;——Bent-grass.

MAFONLLWYN; Rubus *idæus;* Rasp-berry bush.

MAGL CHWANNEN; Cineraria;——Fleawort.

MAGLYS; Medicago;——Medick.

MAGWYR WEN; Nymphæa *alba;* White Water Lily.

MAINSURAN; Rumex *acetosa;* Common Sorrel.

MALW'R HEL; Althæa *officinalis;* Marsh Mallow.

Y mae pob rhan o'r llysieuyn hwn, ond yn enwedig y gwraidd, yn helaethlawn o lws, gan hynny tywalltiad dwr berwedig arno a ganmolir, ac a wna fawrlles lle bo diod dyner, feddalaidd, llyslynaidd yn ffuddiol, sef rhag crygni, peswch, surni yn y cylla a'r coludd, ac hefyd rhag y tostedd a'r cyffelyb. Y gwraidd gwedi ei ferwi sydd hynod sugaethan neu blastr tynerawl.

MALLDER. *edr.* LLOSG.

MAMLYS. *edr.* LLYS Y FAM.

MAMMOG DDREWLLYD. *edr.* TRWYNSOR.

MAN Y DON. *edr.* GWEROG.

MANDON. *çdr.* LLYS YR ERYR.

MANDRAGLYSIEUYN; Atropa *Mandragora;* Mandrake.

MANTELL Y COR; } Alchemilla *vulgaris;* Common Ladies' Mantle.
MANTELL FAIR; }

Pob rhan o'r ddeilen hon sydd ymysgar-rwymawl.

MANWYDD-GEN; Lichen *fruticulosus;* Shrubby Liverwort: a division of the genus LICHEN.

MANYGLOG. *edr.* ELINOG.

MARCHALAN; Inula *Helenium;* Elecampane.

Llysieuyn yw hwn o fawr rinwedd, nid oes ond prin ei gyffelyb rhag clefydon yr ysgyfaint, sef y peswch, poeri gwaed, diffyg anadl, ac hefyd rhag surni yn y cylla. Y dogn cyffredin yw dram mewn dwr berwedig. Y mae efe yn hynod rhag y pâs ar blant. Gellir ei barottoi yn y modd hwn, nadder y gwraidd yn fân defyll, ac ar bedair wns o hono tywallter tri pheintiaid o ddwr berwedig, gadawer iddo sefyll dros nos, a berwer ef drannoeth dros ychydig funudiau, a phan oero hidler ef, at beintiaid o'r trwyth hwn doder chwarter peintiaid o win gwyn, rhag clwyf y cylla; ac yfed y clwyfus lonaid gwydr-gwîn deirgwaith yn y dydd, sef un ar gythlwng, arall yn-ghylch awr o flaen prydnawn-fwyd, a 'r trydydd ar bryd gwely; eithr rhag y pâs, hanner y swm o 'r gwraidd, sef dwy wns, fydd ddigon; ac nid rhaid ond tywallt arno ddwr berwedig, a gadael iddo sefyll; yna yn lle 'r gwin, doder atto dair wns o fêl gwedi ei buro ar dan araf, ac yfed y claf ddwy lwyaid o hono pedeirgwaith yn y dydd. Y mae 'r Dr. *Hìl* yn mynegi esampl o enethig, yr hon oedd ar drangcedigaeth, a iachawyd yn hollol a'r meddyglyn hwn, gwedi i bob moddion eraill fethu. Y mae 'r parottoad hwn yn dra llesol hefyd rhag y tostedd.

Dywedir i drwyth o 'r gwraidd iachau'r clafr ar ddefaid.

MARCHBERLLYS. *edr.* LLWFACH.

MARCHFEILLIONEN; Trifolium *pratense;* Common purple Trefoil, Clover.

MARCHFIAREN; Rosa *canina;* Common Dog-rose. *edr.* CIROS.

MARCHFINT; Mentha *sylvestris;* Horse Mint.

MARCHFFENIGL; Ferula *communis;* Giant Fennel.

MARCHREDYNEN; Aspidium;——Shield-fern.

MARCHREDYNEN WRRYW; Aspidium *Filix mas;* Male Fern.

Pylor o wraidd y rhywogaeth hon o redyn sydd enwog am ddifetha y llyngyr hirion teneuon, neu'r euad, yn yr ymysgaroedd; dwy ddram neu dair yw'r dogn i'w gymmeryd mewn dwr ar gythlwng. Un dram sydd ddigon i blentyn. Meddyginiaeth hynod *Madam Nouffer* ydyw; ac y mae Dr. *Withering* yn mynegi iddo ef ei arferu yn fynych, ac o'r rhan amlaf yn llwyddiannus.

MARCHRUDDYGL. *edr.* RHUDDYGL MAWRTH.

MARCHYSGALLEN; Carduus *lanceolatus;* Spear thistle.

MARCHYSGALLEN Y GERDDI; Cynara *Scolymus;* Artichoke.

Dwr berwedig ar y dail i'w yfed sydd fuddiol troethbair, ac a wybuwyd i fod yn llesol iawn i'w gymmeryd, hwyr a bore, rhag y dyfrglwyf.

MARDDANADLEN } DDU; Ballota *nigra;* Black or Stinking Hore-
MARWDDANADLEN } hound.

Y ddeilen hon a gyfrifir yn llesol rhag clefyd y fam.

MARDDANADLEN BER. *edr.* LLWYD Y CWN.

MARDDANADLEN FELEN; Galeobdolon *luteum;* Yellow Dead-nettle.

MARDDANADLEN GÔCH; Lamium *purpureum;* Red Dead-nettle, or Archangel.

MARDDANADLEN WEN; Lamium *album;* White Dead-nettle, or Archangel.

MAS. *edr.* GYSTLYS.

MASARNEN; Acer *Pseudoplatanus;* Greater Maple, Sycamore.

MASWELLT; Holcus;——Soft-grass.

MEDDALAI; Malva;——Mallow. *edr.* HOCCYSEN.

MEDDALAI Y MORFA; Althæa *officinalis;* Marsh Mallow.

MEDDLYS; Spiræa *Ulmaria;* Meadowsweet.

MEDDYG Y BUGAIL; } Conyza *squarrosa;* Plowman's Spikenard.
MEDDYG MAIR; }

Dywedir fod y llysieuyn hwn yn dra llesol rhag y maen tostedd.

MEDDYGES; } Viola;——Violet.
MEDDYGYN;

MEDDYGES DDU; Scrophularia *nodosa;* Common Figwort.

MEDDYGES FELEN; Crocus *sativus;* Saffron Crocus.

MEDDYGES LAS; Prunella *vulgaris;* Selfheal.

MEDDYGES LWYD; Betonica *officinalis;* Betony.

MEDDYGLYN. *edr.* MORONEN Y MAES.

MEDDYGLYS. *edr.* BRIWLYS.

MEDDYGYN MENYW. *edr.* WERMOD WEN.

MEFUSEN; Fragaria *vesca;* Wood Strawberry.

MEFUSBREN; Arbutus *Unedo;* Strawberry tree.

MEILLIONEN; Trifolium;——Trefoil.

MEILLIONEN FELEN; Anthyllis *vulneraria;* Kidney vetch, Ladies' finger.

MEILLIONEN GORNIOG; Medicago *falcata;* Yellow Medick.

MEILLIONEN Y GORS; *edr.* FFAEN CORS.

MEILLIONEN GRAGENOG; Medicago *polymorpha;* Heart Medick, Claver.

MEILLIONEN OLWEN; Trifolium *repens;* Dutch Clover.

MEILLIONEN Y CEIRW; } Trifolium *officinale;* Common Melilot.
MEL Y CEIRW;

MEIPEN; Brassica *Rapa;* Turnep. *edr.* ERFINEN.

MEIPEN BENDIGED; } *edr.* GREOL.
MEIPEN FAIR;

MEIPEN YR YD; Brassica *Napus;* Rape, Navew, Cole-seed.

MEIRION; Cannabis *sativa;* Hemp. *edr.* CYWARCH.

MEIWYN: Datura *Stramonium;* Thorn-apple.

MELAWG; Lonicera *Periclymenum;* Common Honeysuckle, Woodbine.

MEL Y CWN; } Pedicularis *sylvatica;* Pasture Lousewort.
MELAWG Y BORFA;

Y mae i'r ddeilen hon y gair o fod yn niweidiol i ddefaid, gan e'u gwneuthur yn grestlyd ac yn lleuog.

MEL Y GWEUNYDD; } Pedicularis *palustris;* Marsh Lousewort.
MELAWG Y WAUN;

MELENGU; Reseda *Luteola;* Dyers' weed.

Y llysieuyn hwn ynghyd ag *alwm* a liwia wlan, sidan, a llin o felyn têg rhagorol.

MELFEDOG. *edr.* TEWBANNOG

MELGED; Beta *maritima;* Sea Beet.

MELICWELLT; Melica;——Melicgrass.

MELOTTAI; Malva; Mallow.

MELSUGN; Pedicularis; Lousewort.

MELUSWRAIDD; Glycyrrhiza *glabra;* Liquorice.

MELYN YR EITHIN; } Tormentilla *officinalis;* Common Tormentil. *edr.*
MELYN Y TWYNAU; } TRESGL.

MELYNEURAIDD; Solidago *Virgaurea;* Golden-rod.

MELYN Y GAUAF; Cheiranthus *fruticulosus;* Wild Wall-flower.

MELYN Y GWANWYN; Ranunculus *Ficaria;* Pilewort.

MELYNLLYS. *edr.* DILWYDD FELEN.

MELYNOG Y WAUN. *edr.* LLYS MELYN.

MELYNWELLT; Anthoxanthum *odoratum;* Sweet-scented Vernal Grass.

MELYNYDD; Hypochæris *radicata;* Longrooted Cat's ear.

MENYG ELLYLLON. }
MENYG Y LLWYNOG. } *edr.* BYSEDD COCHION.
MENYG MAIR. }

MENYG Y GOG; Silene *inflata;* Bladder Campion.

MERDDRAENEN; Rosa *canina; edr.* CIROS.

MERHELYGEN; Salix *vitellina;* Yellow Willow.

MERLLYS; Asparagus;——Sperage.

MERS. *edr.* HALOGEN.

MERWYDD. *edr.* MORWYDDEN.

MERYDD; }
MYRYDD; } Arundo *arenaria;* Sea Reed, Marrom, Sea Matweed.

MERYSWYDDEN; Mespilus *germanica;* Common Medlar.

MERYWEN; Juniperus *communis;* Common Juniper.

Tywalltiad dwr berwedig ar y grawn a wna ddiod droethbair hyfryd. Hi fydd hefyd yn llesol ir cylla, ac i chwalu gwynt; yn chwysbair; ac ynghyd ag ychydig *genefa* a wna ddiod hynod i gleifion tan y dyfrglwyf; neu scrwpl neu ddau o'r grawn sydd lesol rhag wynt yn y colydd. Y brigau irion a allant wasanaethu i drwyth, yn niffyg y grawn.

MESBREN. *edr.* DERWEN.

MESURIAD; Origanum;——Marjoram.

Mwydiad o honi mewn dwr berwedig sydd hynod lesol rhag

attalfeydd yn yr ysgyfaint, o 'r afu, ac yn ddilynol rhag y clefyd melyn, clefyd y fam, diffyg anadl a 'r peswch. Dywedir fod y dail gwedi eu sychu yn beraidd iawn yn lle *tê*. Y mae hi hefyd yn llesol at dwym olchiadau.

MIAREN.
MIERIEN. } *edr.* MWYAREN.
MIERYNLLWYN.

MIGIN;
MIGWYN; } Sphagnum;——White Bog-moss.
MYGN;

MILDDAIL;
MILFYD; } Achillæa *Millefolium;* Common Yarrow, or Milfoil. *edr.* LLYS Y GWAEDLIF.
MILFYDD;

MILED, MILEDWELLT; Milium;——Milletgrass.

MILFYW; Ranunculus *Ficaria;* Pilewort.

MILWYDD. *edr.* CAMRI.

MILLFEILLIONEN; Trifolium *repens;* White Trefoil, or Dutch Clover.

MILLYN; Viola *odorata;* Sweet Violet.

MINFEL. *edr.* MILDDAIL.

MINTYS; Mentha;——Mint. *edr.* YSPER FINTYS, a PUPUR FINTYS.

MINTYS YR AR-DIR; Mentha *arvensis;* Corn Mint.

Dalier sulw nad hawdd gwneud caws o laeth buchod a fwytasant o 'r llysieuyn hwn; yr hyn beth, o herwydd nas gwybyddid yr achos, a berodd aml ddyryswch.

MINTYS BAWN; Achillea *Ageratum;* Maudlin.

MINTYS Y CREIGIAU. *edr.* MESURIAD.

MINTYS Y DWR; Mentha *hirsuta;* Water-mint.

MINTYS Y GATH; Nepeta *Cataria;* Nep, Catmint.

Mwydiad o hon mewn dwr berwedig a dybir ei bod yn effeithiol rhag y glasglwyf.

MINTYS MAIR; Tanacetum *Balsamita;* Costmary.

MINTYS Y MEIRCH; Mentha *sylvestris;* Horse Mint.

MINTYS Y TWYNAU. *edr.* ERBIN.

MOCHLYS; Solanum *nigrum;* Common Nightshade.

Pwys o un i dri gronyn o 'r dail gwedi eu mwydo mewn dwr berwedig, a wna ddiod yr hon os hyfer ar bryd gwely, a bair chwysiad

digonol, a ryddhâ 'r arennau, ag yn gyffredinol a bair arloesiad drannoeth. Eithr gan ei bod yn ddeilen nerthol, e ddylid ei thrin a mawr ofal a phwyll. Oddiallan y mae hi yn dda i ddofi gwres, ac i esmwythau gwayw.

MOCHWRAIDD; Cyclamen *europæum;* Sowbread.

MOCHYSGALLEN. *edr.* YSGALLEN Y MOCH.

MORDDANADLEN. *edr.* MARDDANADLEN.

MORDYWYDD; Myrica *Gale;* Sweet Gale, Dutch Myrtle.

MORDYWYS; Fucus *Phyllitis;* Hart's-tongue Seaweed.

MORDDYNAD BER. *edr.* LLWYD Y CWN.

MOREDAFEDDOG. *edr.* LLWYD BONEDDIG.

MORFRWYNEN; Iuncus *maritimus;* Lesser Sharp Sea Rush.

MORGAREIAU; Fucus *Filum;* Sea-laces.

MORGELYNEN; Eryngium *maritimum;* Sea Eryngo, Sea Holly.

MORHESGEN. *edr.* MERYDD.

MORHOCCYSEN; Lavatera *arborea;* Sea Tree Mallow.

MORLWYAU. *edr.* LLWYLYS.

MORONEN BIGOG; Echinophora *spinosa;* Prickly Samphire.

MORONEN Y DWR. *edr.* DYFRFORONEN.

MORONEN FELEN; Sium *Sisarum;* Skirret.

MORONEN GOCH; Daucus *Carota;* Cultivated Carrot.

MORONEN Y MAES; Daucus *Carota*; Wild Carrot.

Had y llysieuyn hwn a bair droethi, ac y mae yn llesol i chwalu gwynt yn y cylla; dywedir yn glodfawr am dano rhag y tostedd a'r graeanwst, a mwydiad o wns o hono mewn peintiaid o dwr berwedig sydd dra buddiol tan iasau llym y clefyd hwnnw; dylid cymmeryd diod helaeth o hono, a hynny yn aml: ac yma cymmwys yw i mi fynegi esampl tra hynod o 'i rinwedd, ynghyd a 'r *Gedowrach,* yr hwn a ddarllenwn mewn traethawd, a ysgrifenwyd yn unswydd ar yr achos gan y prif feddyg *Nicolas Robinson,* yr hwn ei hun a hollol adferwyd i' w iechyd, gwedi dioddef dros rai blynyddoedd y cystudd tostaf, tan glefyd y garreg, er dim cymmorth a allai ef ei hun, neu feddygon eraill ei ddwyn. A dyma ei gyfarwyddiad ynghylch y cyffyriau uchod; sef i ysigo neu ddarnfalu hâd y *Gedowrach* a 'r *Foronen* a 'u cymmysgu, yr un faint o bob un, ac o 'r cymmysg hwn, rhoi dwy ddram mewn llestr *té* a gynwys beintiaid, a thywallt arno

ddwr berwedig, a gadael iddo fwydo dros bedair awr neu bump, yna ei dywallt ef allan, a 'i roddi heibio er gwasanaeth. Eithr gwell fydd bwrw ar y cyffyriau chwart o ddwr a 'u berwi dros ennyd. Yna ef a ddywed, hwn yw y meddyginiaeth goreu, a wyr y byd am dano, rhag clefyd y garreg, a 'r graeanwst. Y gwr hwn a 'i cymmerai, o fesur yr hanner peintiaid, yn gyffredin ddwywaith yn y dydd, sef ar gythlwng, ac ar bryd gwely, ac weithiau y drydedd waith, ynghylch awr o flaen ei brydnawnfwyd. Er ei fod yn hytrach oedranus pan ddechreuodd e 'i glefyd, ac iddo ddioddef dros raî blynyddoedd y poenau mwyaf llymdost, etto ar ol ei iachad, efe a fu fyw nifer o flynyddoedd ac ni chlywodd byth drachefn argoel o 'i glefyd. Er mwyn cael y trwyth yn flasus gellir ei felysu ag ychydig fêel, neu siwgr llwyd.

Gwraidd *moron y gerddi* gwedi eu berwi yn feddalion, a'u dodi yn sugaethan, neu blastr, a esmwythânt wayw, ac a leihânt y drygsawr a ddilyn gweliau mall a changcraidd, gan ei newid unwaith neu ddwy yn y dydd.

MORONEN Y MEIRCH. *edr.* EFWR.

MORONEN Y MOCH; Pastinaca *sativa;* Wild Parsnep.

MORONEN WEN; Pastinaca *sativa;* Cultivated Parsnep.

MORWIALEN; Fucus *digitatus;* Sea-girdle and Hangers.

"Crynnu mal y morwialen." *diarh.*

MORWREGYS; Fucus *saccharinus;* Sea Belts.

MORWYDDEN; Morus; Mulberry-tree.

MURLWYN; } Parietaria *officinalis;* Pellitory of the wall. *edr.* PELYDR
MURLYS; } Y GWELYDD.

MURWYLL; Cheiranthus *fruticulosus;* Wild Wall flower.

MWCCOG; Rosa *spinosissima;* Burnet Rose.

MWG Y DDAEAR; Fumaria;——Fumitory.

Hynod fuddiol ydyw 'r ddeilen hon i bureiddio y gwaed, ac i ddiwygio surni yn y cylla, ac i'w gryfhau. Y mae hefyd yn dra llesol rhag attalfeydd yn yr ymysgaroedd, yn enwedig yr afu, a'r afiechyd a dardda o 'r unrhyw; rhag brech neu darddiadau yn y croen, a phob peth cyffelyb i 'r gwahanglwyf; y sug ydyw 'r goreu i'w gymmeryd; y dogn yw dwy wns neu dair beunydd. Gellir ei

harferu gan dywallt arni ddwr berwedig, ac yfer yn helaeth o hono; neu yn gymmysgedig a llaeth yn ddiod gyffredin.

MWGLYS; Nicotiana *Tabacum;* Tobacco.

MWSGLYS; Adoxa *Moschatellina;* Tuberous Moschatel.

MWSOGL; Muscus;——Moss.

MWSTARDD. *edr.* CEDU. The English word *Mustard* is certainly taken from this significant compound of *Mws* and *tardd.*

MWSWG; } Muscus;——Moss.
MWSWGL; }

MWYAR Y BRAIN. *edr.* LLÛS.

MWYARBREN. *edr.* MORWYDDEN.

MWYAREN; Rubus;——Bramble.

"Cas myharen mwyeri." *Diarh.*

MWYAREN Y BERWYN; } Rubus *Chamœmorus;* Mountain Bramble,
MWYAREN DOEWAN; } Cloudberry.

MWYAREN MAIR; Rubus *cœsius;* Dewberry.

MWYDON Y DDAEAR; Lycoperdon;——Puff-ball.

MYDARCHEN. *edr.* MADARCHEN.

MYGLYS. *edr.* MWGLYS.

MYLTYS. *edr.* BWLTYS.

MYLLYNEN. *edr.* MILLYN.

MYNAWYD Y BUGAIL; Geranium;——Crane's-bill.

MYNAWYDLYS; Subularia;——Awlwort.

MYNCOG; Erica;——Heath.

MYNYGLOG. *edr.* ELINOG.

MYRDDAIL; Myriophyllum;——Water Milfoil.

MYRHAFNWYDD; Hippophae *rhamnoides;* Sallow Thorn, Sea Buckthorn.

MYRTWYDD; Myrtus;——Myrtle.

MYRYDD. *edr.* MERYDD.

NEIDRLYS. *edr.* LLYS Y NEIDR.

NELE; Hypericum;——St. John's wort.

NIDWYDDEN; Daphne *Mezereon;* Spurge Olive.

NODWYDD Y BUGAIL; Scandix *Pecten Veneris;* Needle Chervil, Venus's comb, Shepherd's needle.

NYDDOES. *edr.* YSPIGAWGLYS.

NYTH ADERYN. *edr.* MORONEN Y MAES.

OESTRWYDDEN; Carpinus *Betulus;* Hornbeam.

OGFAENEN; ffrwyth yr

OGFAENLLWYN; Rosa *canina;* Dogrose.

"Dwy ogfaenen deg fwynaidd." *D. ab Gwil i ruddiau merch.*

OLBRAIN; OLFRAN; } Coronopus *Ruellii*; Wart-cress, Swine's cress.

OLEWYDDEN; OLIWYDDEN; } Olea *europæa;* Olive tree.

OLEWYDDEN WYLLT; Eleagnus;——Wild Olive, Oleaster.

ONWYDDEN; ONNEN; } Fraxinus *excelsior;* Common Ash-tree,

Trwyth o hanner wns, i wns a hanner, o'r dail gleision sydd garthddiod dda iawn, a dyferwad dwy ddram o'r rhisg, neu chwe dram o 'r dail a arferwyd rhag y cryd mwyth; a lludw y coed sydd hynod o olch-ludw.

ORAITS. *edr.* AFAL EURAID.

"Fel aur neu afal Oraits." *D. Nanmor i wallt merch.*

ORFANGC. *edr.* GORFANADL.

ORPIN. *edr.* CANHEWIN.

PABI; Papaver;——Poppy.

PABI CORNIOG; Glaucium *luteum;* Yellow Horned Poppy.

PABI 'R GWENITH; Agrostemma *Githago;* Corn-Cockle.

PABWYREN; Iuncus *effusus;* Soft Rush.

PADERAU 'R GATH. *edr.* GWINWYDDEN DDU.

PALADR HÎR. *edr.* GORFANADL.

PALADR TRWYDDO; Bupleurum *rotundifolium;* Thorow-wax.

PALALWYF. PALWYFEN. } *edr.* PALMWYDDEN.

PALF YR ARTH; Helleborus *fœtidus;* Stinking Hellebore.

PALF Y BLAIDD; Lycopodium *clavatum;* Common Clubmoss.

PALF Y GATH BALI; Ajuga *Chamœpitys;* Ground Pine.

PALF Y LLEW; Alchemilla *vulgaris;* Common Ladies' Mantle.

PALMWYDDEN; PALMIDWYDDEN; } Phœnix *dactylifera;* Palm tree. *edr.* GWRTHBWYS.

PANNASEN. (S. W.) *edr.* MORONEN WEN.

PANNASEN Y DWR. *edr.* DYFR-FORONEN.

PANNOG. *edr.* SIRCYN Y MELINYDD.

PAPURFRWYNEN; (Es. xix. 7.) Cyperus *Papyrus;* Paper Reed.

PAREDLYS. *edr.* MURLYS.

PARFYG. *edr.* LLEWYG YR IAR.

PAWEN YR ARTH. *edr.* CRAFANGC.

PAWR-WELLT; Bromus;——Brome-grass.

PEDOL Y MARCH; Hippocrepis *comosa;* Tufted Horse-shoe Vetch.

PEFR-WELLT; Phalaris;——Canary-grass.

PEISG-WELLT; Festuca;——Fescue-grass.

PEISGWYN. *edr.* POPLYSEN.

PELANLLYS; Pilularia *globulifera;* Pillwort.

PELYDR DU; Helleborus *niger;* Black Hellebore.

PELYDR Y GWELYDD. *edr.* MURLYS.

Troethbair llesol ydyw y ddeilen hon. Trwyth o honi a gafwyd yn bur wasanaethgar, nid yn unig i'w yfed i ruddhau rhwystrau, ac i yrru ymaith y graean o bibelli y dwr yn y corph, eithr hefyd o 'r tu allan yn dwym-olch rhag y tostedd.

PELYDR GWYLLT; Pyrethrum *sylvestre. Ger.*

PELYDR YSPAEN; Anthemis *Pyrethrum;* Pellitory of Spain.

PELYDR GAU YSPAEN. *edr.* POETHWRAIDD.

PEN Y NEIDR; Viola *canina;* Dog's Violet.

Cafwyd yn ddiweddar y gwybodaeth fod gwraidd y rhywogaeth hon o'r *wiolydd* yn gyfogbair, ac yn ysgarthaidd. Dogn o hanner dram i ddram a hanner.

PENBOETH; Galeopsis *Tetrahit;* Common Hemp-nettle.

PENDDU; Gnaphalium *uliginosum;* Marsh Cudweed.

PENEURAIDD; Ranunculus *auricomus;* Goldilocks, Wood Crowfoot.

PENFELEN; Senecio;——Groundsel.

PENGALED; Centaurea;——Knapweed.

PENGOCH; Polygonum *amphibium;* Amphibious Persicaria, or Knotgrass.

PENLAS; Scabiosa *arvensis;* Field Scabious.

Y llysieuyn hwn sydd o natur gwan rwymawl, chwerwaidd a sebonllyd.

PENLAS WEN;
PENLAS YR YD; } Centaurea *Cyanus;* Corn Blue-bottle.

PENLLWYD. *edr.* LLWYD Y FFORDD.

PENMELFED; Typha *latifolia;* Great Cat's tail, Reedmace.
PENNAU 'R GWYR. *edr.* LLWYNHIDYDD.
PENNIGAN; Dianthus;——Pink.
PENNIGAN RHUDD-GOCH; Dianthus *Caryophyllus;* Clove Pink.
PENRUDD; Oviganum *vulgare;* Common Marjoram.
PENSAG; } Humulus *Lupulus;* Hop. *edr.* LLEWYG Y BLAIDD.
PENSOEG; }
PERADYL; Hedypnois;——Hawkbit.
PERBREN; } (S. W.) Pyrus *communis;* Pear-tree.
PERWYDDEN; }
PERCHWERWYN. *edr.* LLWYD Y CWN.
PERERINBREN; Pinus;——Fir.
PERFAGL; Vinca;——Periwinkle.
PERLLYS; Apium *Petroselinum;* Parsley.

Had y llysieuyn cyffredin hwn sydd dwymn a llesol rhag gwynt yn y cylla, &c. y dogn yw ynghylch scrwpl neu ddau gwedi ei ysigo, neu gellir gwneuthur dyferwad o hono i'r un perwyl. Y gwraidd yn yr un modd sydd droethbair, ac a chwâl rwystrau yn yr ymysgaroedd. Y gwraidd sydd hefyd yn gyffyr cyfaddas iawn mewn diod feddygawl.

PERLLYS YR HEL. } *edr.* HELOGAN.
PERLLYS Y MORFA. }
PERSLI. } *edr.* PERLLYS.
PERSYLL. }
PERSLI 'R MEIRCH. *edr.* LLWFACH.
PERTHEURDDRAENEN. *edr.* EURDDRAENEN.
PERTHLYS; Polygonum *Convolvulus;* Climbling Buckwheat.
PERWELLT. *edr.* MELYNWELLT.
PERWHERWYN. *edr.* LLWYD Y CWN.
PERWRAIDD; Glycyrrhiza *glabra;* Liquorice.
PESYCHLYS. *edr.* CARN YR EBOL.
PEUROS; Fritillaria *imperialis;* Crown imperial.
PIBENAWG; Eriocaulon *septangulare;* Jointed Pipewort.
PIBFRWYNEN. *edr.* LLYMDREINIOG.
PIBLYS; Sisymbrium *Sophia;* Flixweed.

Cyfrifir y llysieuyn hwn yn llesol rhag dolur y fam, a chlefyd y gwaed; yr had a ddifa lyngyr.

PIDYN Y GOG; Arum *maculatum;* Cuckow-pint, Wake Robin.

Y dail a'r gwraidd ydynt dra llymsur, ac nid diberygl ydyw ymhel a hwynt, er y gallant fod yn llesol mewn dwylaw celfydd.

PIDYN FY MODRYB. *edr.* GLYS.

PIG YR ARAN; Geranium;——Crane's bill.

PIG Y BWN; Equiseti *fluviatilis* turiones;——Young shoots of River Horse-tail.

PIG Y CREYR; Erodium;——Stork's bill.

PIGL; PIGYL; } Cynoglossum *officinale;* Common Hound's tongue. *edr.* TAFOD Y BYTHEUAD.

PIGOGA; PIGOWGLYS; } Spinacia *oleracea;* Spinage.

PILCOES; Platanus *orientalis;* Plane-tree

PINC. *edr.* PENNIGEN.

PINBREN; PINWYDDEN; } Pinus;——Pine-tree.

PISGEN; PISGWYDDEN; } Tilia *europæa;* Lime-tree, Linden-tree.

PISWYDDEN; Euonymus *europæus;* Spindle tree, Prickwood.

Y grawn ydynt cyfog ac arloes-feddygiaeth llym. Gwedi eu malu ynllwch a'u taenellu ar y gwallt, lladdant lau; y maent yn angeuol i ddefaid.

PLANWYDDEN; Platanus;——Plane-tree.

PLISGWRN. PLISGYRNEN. } *edr.* PISGEN. a GWAGLWYFEN.

PLUAIDD-FWSOGL; Hypnum;——Feather-moss.

PLUAIDD-WELLT; Stipa *pennata;*——Feather-grass.

PLUCEN; Anthyllis *vulneraria;* Kidney-vetch, Ladies' finger.

PLU'R GWEUNYDD; Eriophorum;——Cotton-grass.

POERLYS. *edr.* POETHWRAIDD.

POETHFLAM; Ranunculus *Flammula;* Lesser Spearwort.

POETHWRAIDD; Imperatoria *Ostruthium;* Master-wort.

Y mae gwraidd y llysieuyn hwn yn boethaidd, yn chwysbair, yn droethbair, yn llesol i 'r dyfrglwyf, a rhag llesgedd y cylla, a'r ymysgaroedd; hanner dram o'r sylwedd; neu ddram tan dywalltiad dwr berwedig, sydd ddogn. Ac os cnoir dernyn o'r gwraidd, ef a

bair boerlif ac a dyr y gwaew yn y genau, a gamenwir yn aml y ddannodd.

POMGRANADEN. } *edr.* AFAL GRONYNOG.
POMGRANADWYDDEN. }

PONAR; Vicia *Faba;* Bean.

PONCNELL. *edr.* NODWYDD Y BUGAIL.

POPLYSEN; Populus *alba;* Great White Poplar, Abele tree.

PORPIN; Peplis *Portulaca;* Water Purslane.

PREN AFALÆ. *edr.* AFAL.

PREN AWYR; Viscum *album;* Misseltoe.

PREN CERI. *edr.* CERI,——CRIAFALLEN.

PREN Y DDANNODD; Rhodiola *rosea;* Rose-root.

PREN DAT. *edr.* GWRTHBWYS.

PREN Y GERWYN; Laurus *nobilis;* Baytree.

PREN GWRTHBWYS. *edr.* GWRTHBWYS.

PREN MASTIG. *edr.* LENTISG-BREN, o'r hwn y difera gwm mastig.

PREN MELYN; Berberis *vulgaris;* Barberry.

Y ffrwyth sydd fuddiol rhag y dylif geriaidd, ac lle y bo gwres, llymsurni, a mallder o wlybyrau y corph yn ymdrechu. Mall-haint a iachawyd gan yfed, megis diod gyffredin, y llyn a wneir gan fwydo, dros pedair awr ar ugain, y ffrwyth mewn deuddeg cymmaint o ddwr, ynghyd ag ychydig o had ffenigl; a'i felysu fel y bo y claf yn dewis.

PREN TERPENTIN; Pistacia *Terebinthus;* Turpentine tree.

PRIALLEN; } Ligustrum *vulgare. edr.* YSWYDDEN.
PRIELLYN; }

PRINWYDDEN; *(Hist. Sus.)* Quercus *coccifera;* Scarlet Oak.

PRYSEG; Ruscus *aculeatus;* Butcher's Broom.

PRYFET. *edr.* YSWYDDEN.

PUMBYS; } Potentilla *reptans;* Common Cinquefoil.
PUMNALEN; }

Rhisgl gwraidd y llysieuyn hwn sydd esmwyth rwymawl; trwyth o hono sydd lesol i olchi'r safn, pan fyddo 'r dannedd yn siglo, o achos llesgedd cig y dannedd. Y mae ef o'r un natur a'r *Tresgl melyn* a *llys y neidr*, eithr yn wannach.

PUMBYS YR ALBAN; Sibbaldia *procumbens;* Procumbent Sibbaldia.

PUPUR Y DDAEAR. *edr.* PELANLLYS.

PUPUR Y FAGWYR; Sedum *acre;* Biting Stonecrop, Wall Pepper.

Deilen dra surboeth yw hon; cyfyd chwysigl ar y croen; eithr mewn dwylaw celfydd y mae hi yn feddyginiaeth hynod rhag y *scyrfi*, i ba berwyl berwer lonaid llaw o 'r llysieuyn mewn galwyn o lefrith, hyd na leiheir yr hanner; a chymmered y clwyfus dair wns neu bedair o'r trwyth hwn bob boreu, neu bob yn ail boreu. Gweliau, nid yn unig o ryw y *scyrfi*, eithr hefyd manwynawg, ïe, hyd yn oed cangcraidd, a iachawyd gan y ddeilen fechan hon, a ddodwyd yn blastr ar y cyfryw weliau mall crawnllyd; llesol hefyd yw ar y fenddiged gwedi iddi dorri, i beri bwrw ei gôr, ac i'w iachau. Y mae iddi hefyd yr enw o iachau y cryd dyspeidiawl a'r mwyth.

PUPUR FINTYS; Mentha *piperita;* Pepper Mint.

Nid oes odid ym mhlith llysiau, dylwyth mwy buddiol, ac o fwy gyffredinol wasanaeth mewn meddyginiaeth na 'r MINTYS.

Tywalltiad dwr berwedig ar y dail, os gadawer iddo sefyll dros rai munudiau, sydd dra llesol rhag y clefydon canlynol; sef cnofeydd yn y cylla, neu'r coluddion, y rhai sydd yn deilliaw oddiwrth wynt; a rhag llesgedd y cylla, a diffyg awydd i fwyd, a gwrthduedd i luniaeth, a'r dolur rhydd; rhag diffyg anadl a 'r peswch; ac i attal yr eigian a'r cyfog; heblaw hyn da ydyw rhag y graeanwst, a rhwystrau yn yr afu; ac i hwylio teithi gwragedd; e bair hefyd gyssur i glaf o 'r parlys, a phenysgafnder; ac os gosodir y dail yn blastr ar yr arleisiau neu'r iâd hwy a esmwythant gur yn y pen. Yfed y trwyth, a dodi y dail yn blastr ar fronnau benywod a rwystrant i 'r llaeth geulo. MINTYS YR AR sydd ysgatfydd oreu i'r perwyl hwn.

Yr Ysper Fintys, yr hon rywogaeth a faethir yn gyffredin mewn gerddi, sydd dda iawn i'r holl ddybenion a grybwyllwyd; eithr y Pupur Fintys sydd gryfach, a gwell, os gellir ei chael; ond y BRYMLYS sydd gryfaf a mwyaf effeithiol o 'r tair rywogaeth. Y mae hefyd rywogaethau eraill, sef Mintys y dwr,—Mintys y meirch, &c. y rhai a allant fod yn llesol iawn pan nad ellir gael y lleill. Da fyddai cynhauafa 'r llysiau fel y byddent ger llaw pan ddigwyddai achos. *Edr.* YSPER FINTYS.

PUPUR Y MYNYDD; Daphne *Gnidium;* Flax leaved Mezereon.

PWLTARI GWYLLT. *edr.* PELYDR.

PWMPLEREN; } (*Brecn.*) Populus *nigra;* Black Poplar.
PWPLEREN; }

PWRPIN; Peplis *Portula;* Water Purslane.

PWRS Y BUGAIL; Thlaspi *Bursa Pastoris;* Common Shepherd's-purse.

PYBYRLLYS; Lepidium *latifolium;* Broad-leaved Pepperwort, Dittander.

PYGBREN; } Pinus *Abies;* Common Fir, or Pitch-tree.
PYGWYDDEN; }

PYGLYS; Peucedanum *officinale;* Sulphurwort, Hog's Fennel.

PYMYSTL. *edr.* CEGYR MAWR.

PYSEN; Pisum;——Pea.

PYSEN YR ADAR; } Ervum;——Tare.
PYSEN YR ARAN; }

PYSEN Y CEIRW; Lotus *corniculatus;* Bird's foot Trefoil.

PYSEN Y COED; Orobus;——Heath Pea.

PYSEN Y FWYALL; Coronilla;——Hatchet-vetch.

PYSEN Y GARANOD; Ervum;——Tare.

PYSEN Y LLYGOD; Cicer;——Chick Pea.

PYSEN Y WIG; Vicia;——Vetch.

PYSWYDDEN; Cytisus *Laburnum;* Bean-trefoil tree.

REDEINS. } *edr.* RHUDDYGL.
REDYNS. }

RHAFNWYDDEN; Rhamnus *catharticus;* Buckthorn.

RHAWN YR EBOL; Chara;——Colt's tail, Stonewort.

RHAWN Y GASEG; Hippuris *vulgaris;* Mare's-tail.

RHAWN Y MARCH; Equisetum;——Horse-tail.

RHEDEGOG Y DERW; Lichen *plicatus;* Tree Lichen, or Liverwort.

RHEDYN BENYW; Aspidium *Filix femina;* Female Shield Fern.

RHEDYN Y CADNO. *edr.* MARCHREDYNEN WRRYW.

RHEDYN Y CLOGWYN; } Asplenium *septentrionale;* Forked Spleen-
RHEDYN Y GRAIG; } wort.

RHEDYN CYFRDWY; Osmunda *regalis;* Osmund Royal.

RHEDYN Y DERW; } *edr.* LLAWREDYNEN.
RHEDYN Y FAGWYR; }

RHEDYN ERYRAIDD. *edr.* ADAIN-REDYNEN.

RHEDYN GOGOFAU; Scolopendrium *Ceterach;* Common Scaly Spleenwort.

RHEDYN GWIB; Blechnum *boreale;* Rough Spleenwort.

RHEDYN MAIR; Aspidium *Oreopteris;* Heath Shield-fern.
RHEDYNACH; Hymenophyllum *tunbridgense;* Filmy-leaved-fern.
RHEONLLYS; Rheum;——Rhubarb.
RHESINWYDD; Ribes;——Currants.
RHODELL. *edr.* CYNFFON Y GATH.
RHODRI. *edr.* RHUDDYGL.
RHOGAI; RHOGLUS; } Chenopodium *olidum*; Stinking Goosefoot.
RHOLBRYN. *edr.* FFON Y PLANT.
RHONELL Y MARCH; Equisetum;——Horsetail.
RHONELL Y WENNOL; Coronilla *Securidaca*; Hatchet, or Axe-vetch.
RHONWELLT Y CADNAW; Alopecurus;——Fox-tail-grass.
RHONWELLT Y CI; Cynosurus;——Dog's-tail-grass.
RHONWELLT Y GATH; Phleum;——Cat's-tail-grass.
RHOS; RHOSWYDD; RHOSYN; } Rosa;——Rose.
RHOSCAMPAU. *edr.* TEWBANNOG WEN.
RHOSYN Y GRAIG. *edr.* COR-ROSYN.
RHOSLYS; Rhodiola *rosea;* Rosewort, Rose-root.
RHOS MAIR; RHOS MARI; } Rosmarinus *officinalis*; Rosemary.

Y mae i'r rhosmari yr enw o fod yn un o'r llysiau mwyaf rhinweddol am goethi a chryfhau y giau; ac yn ddilynol ei canmolir rhag cûr yn y pen, byddarwch, pendro, parlys, mamwst, hunglwyf, a malldrael bwyd yn y cylla. Gellir ei barottoi yn yr un modd a 'r *té* a'i yfed yn rhan o luniaeth, neu ar gythlwng, ac ambell waith yn y dydd.

RHOS MARI GWYLLT; Andromeda *polifolia;* Wild Rosemary.
RHOSYN Y MYNYDD; Pœonia *officinalis;* Pœony.
RHUD. *edr.* GORDDAWN.
RHUDDOS; Calendula *officinalis;* Marigold.
RHUDDOS Y GORS. *edr.* GOLD.
RHUDDWERNEN; Prunus *Padus;* Bird Cherry.
RHUDDYGL; Raphanus *sativus;* Radish.

RHUDDYGL MAWRTH; } Cochlearia *Armoracia;* Horse-radish.
RHUDDYGL Y MEIRCH; }

Y gwraidd yn unig o'r llysieuyn hwn a arferir ym meddyginiaeth. Llesol iawn ydyw rhag y parlys, a'r dyfrglwyf, gan ei fod yn droethbair, a 'i wres yn cynhyrfu teimlad bywiog yn y corph, oddi fewn ac oddi allan. Da ydyw rhag y cryd melyn. Un modd o 'i barottoi ydyw crafu un dram o'r gwreiddyn îr a thywallt pedair wns o ddwr berwedig arno, a gadael iddo sefyll dros ddwy awr, a chaead ar wyneb y llestr, yna cymmysger ef a dwywaith ei bwys o siwgr; a hwn sydd hynod rhag crygni, a dolur o gorn y gwddf, os cymmerer llonaid llwy *dê* o hono a'i lyngcu yn arafaidd, a hynny ambell waith yn y dydd. Heblaw hyn, gellir tywallt dwr berwedig ar y gwraidd gwedi ei ysigo; a'i yfed fydd llesol iawn i'r cylla llesg, i'w nerthu, a'i gyweiriaw i dreulio 'r ymborth; a buddiol fydd hefyd rhag y dyfrglwyf, y cryd cymmalau, a'r palsi; ac nid oes odid ddim mwy effeithiol nag ydyw i bureiddio y gwaed.

RHUT. } *edr.* GORDDAWN.
RHUTAIN. }
RHYW. }

RHWNEN; } Pyrus *communis;* Pear.
RHWNINGWYDD; }
RHWNYNEN; }

RHWYDDLWYN; Veronica;——Speedwell. *edr. tu dal.* 3.

RHWYDDLWYN BLEWYNAWG; Veronica *Chamædrys;* Germander Speedwell.

Mwy dewisaidd yw y rywogaeth hon na 'r *Wrnerth* yn lle *tê*, gan ei bod yn fwy blasus, a llai ueddol i rwymo 'r coludd.

RHWYMYN Y COED; Tamus *communis;* Black Bryony.

RHYF; } Ribes;——Currant.
RHYFON; }
RHYFWYDDEN; }

RHYFWYDDEN DDU; Ribes *nigrum;* Black Currants.

Y mae pob rhan, (sef y ffrwyth, y dail, a 'r rhisgl) o'r prwysgwydden hon yn dra llesol rhag dolur o'r gwddf, yn enwedig y rhyw ennynol. Triner y dail neu 'r rhisgl yn rhith *tê*, a golcher y safn a'r gwddf ag ef.

RHYG; Secale *cereale;* Rye.
RHYSWYDDEN. *edr.* YSWYDDEN.
ROTBOLLIA. *edr.* CORWELLTYN.
RWPPIA. *edr.* TUSWDDYFRLLYS.
RYT. } *edr.* LLYS YR ECHRYSHAINT.
RYW. }
RYW 'R MURIAU; Asplenium *Ruta muraria;* Wall-rue Spleenwort.

SAETHBENNIG; Triglochin;——Arrowgrass.
SAETHLYS; Sagittaria *sagittifolia;* Common Arrowhead.
SAETS. *edr.* CEIDWAD.
SAETS CAERSALEM. *edr.* LLAETH BRON MAIR.
SAETS GWYLLT. *edr.* CHWERWLYS YR EITHIN.
SAFIN. *edr.* EITHINFYW.
SAFRI. *edr.* SEWYRLLYS.
SAFFRWM; } Crocus *sativus;* Saffron Crocus.
SAFFYR; }

Meddygon yr oes hon a ddywedant fod i'r llysieuyn hardd hwn fwy o glod nag e haedda; ac y mae 'r meddyg *Cùlen* yn mynegu y gellir yn gyfiawn ddywedyd am dano, " Nec poteris *Croci* dotes numerare nec usus." Eithr yn y gwrthwyneb i'r ystyr a amcanwyd i'r geiriau hyn ar y cyntaf; sef " nad ellir rhifo ei rinweddan," o herwydd nad oes iddo un.

SAFFRWM Y GWEUNYDD; Colchicum *autumnale;* Meadow Saffron.
SAMPIER. *edr.* CORN CARW Y MÔR.
SAMPIER Y DEFAID. *edr.* GWEROG.
SAMPIER Y GEIFR; Inula *crithmoides;* Golden Samphire, Samphire leaved Fleabane.
SAMMWL; } Samolus *Valerandi;* Brookweed, Water Pimpernel.
SAMYLEN; }
SARFF; } Pyrus *domestica;* True Service-tree.
SARFFWYDDEN; }
SATAEN; } Fagus *Castanea;* Chesnut-tree.
SATAIN; }
SAWDL CRIST; Plantago *lanceolata;* Ribwort Plantain.

SAWDL Y CRYDD; Chenopodium *Bonus Henricus;* Mercury Goosefoot.

Y ddeilen hon a wna fwydlys iachus a blasus, ynghyd a chigfwyd, gwedi ei berwi, ac a ryddhâ y coluddion yn arafaidd.

SEBONLLYS; Saponaria *officinalis;* Soapwort.

Y llysieuyn hwn sydd o 'r un natur a rhinwedd a sebon, ac yn llesol rhag y gymmalwst, cryd cymmalau, cryd melyn, ac amryw rwystrau, neu attaliadau yn yr ymysgaroedd; gwneler trwyth o'r gwraidd a'r dail. Y mae dyferwad o hono yn olch llesol rhag y cosi.

SEIFYS. *edr.* CIBELLYN.

SEITHNALEN. *edr.* TRESGL.

SEL SELYF; Convallaria *multiflora;* Common Solomon's seal.

SELIDON. *edr.* DILWYDD FELEN.

SENSEG; *(Brec.)* Calendula *officinalis;* Marigold.

SENSIGL; Chrysanthemum *Leucanthemum;* Great Daisy, White Ox-eye.

SERAIDD YSGALLEN; Centaurea *Calcitrapa;* Common Star-thistle.

SEREN FETHLEHEM; Ornithogalum;——Star of Bethlehem.

SERENLLYS; Aster;——Starwort.

SERENYN; Scilla *verna;* Vernal Squill.

SESLERIA. *edr.* CORSWELLTYN RHUDDLAS.

SEWYRLLYS; Satureja *hortensis;* Savory,

SHERARDIA. *edr.* CORWREIDDRYDD.

SIBBALDIA. *edr.* PUMBYS.

SIBTHORPIA. *edr.* CEINIOGLYS.

SIDAN Y BRAIN. *edr.* CYFLAFAN.

SIDAN Y WAUN; Eriophorum;——Cottongrass.

SIDWRMOT. *(Llygrair.) edr.* BRYTWN.

SIMMWR Y CÒR; Alchemilla *vulgaris;* Common Ladies' mantle.

SINSIR; Amomum *Zingiber;* Ginger.

Y gwreiddyn hwn sydd iw gael am y geiniog ym mhob pentref; ac hynod llesol ydyw rhag gwendid a llesgedd y cylla, ac i chwalu 'r gwynt, a fo yn peri cnofeydd yn y coludd, ar ymysgaroedd.

Gellir cymmeryd y sylwedd, gwedi ei falurio, ar ychydig o ryw wlyb, neu tywallter arno, gwedi ei ysigo, ddwr berwedig, ac yfed y claf hwnnw, yn gryf, neu yn wan, fel y bo yr achos yn gofyn; gellir ei felysu ag ychydig siwgr llwyd. Nid oes odid ei gyffelyb am gynhesi, ac adfywio cyfangorph henaint.

SINSIR Y GORS. *edr.* POETHWRAIDD.

SIRCYN Y MELINYDD; Verbascum *Thapsus;* Great Mullein, High Taper.

Trwyth o ddwy wns o'r dail, mewn chwart o ddwr, sydd lesol iawn rhag dolur rhydd o hîr barhad, sef pedair wns bob teirawr. Chwart o hono yn y dydd a roddwyd i esmwythau cnofeydd yr ymysgaroedd. O'r tu allan y mae yn llesol iawn yn rhith sugaethen, i esmwythau dargod, a'r lledewigwst.

Trwyth o'r dail mewn llefrith sydd fuddiol iawn rhag yr unrhyw glefyd, sef y lledewigwst, iw yfed ddwywaith neu dair yn y dydd.

SIRIANEN; Prunus *Cerasus;* Cherry-tree.

SIRIG; Byssus;——Byssus.

SISLI PER; Scandix *odorata;* Sweet Cicely, Great Shepherd's-needle.

SITTIM-COED; (*Deut.* x. 3.) Pinus *Larix;* Larch-tree.

SIWDR MWDR. (*llygrair.*) *edr.* BRYTWN.

SMAELAES. (*llygrair.*) *edr.* MERS.

SOWDL. *edr.* SAWDL.

SUGN Y GEIFR. *edr.* GWYDDFID.

SURAN Y COED;
SURAN Y GÔG;
SURAN DEIRDALEN; } Oxalis *Acetosella;* Wood Sorrel.

Mwydiad o 'r suran flasus hon, mewn dwr berwedig, a wna ddiod hyfryd a llesol iawn i ddyn tan y cryd poeth; ac os berwir hi mewn llefrith hi wna faidd rhagorol i'r un perwyl. Ym mhob rhith hi a gryfha yr cylla, ac a bair awydd at fwyd, rhwystro llygrad y gwaed, ardymheru gwres, ac attal chwysu.

SURAN Y CWN,—Y FRAN;
SURAN Y MAES,—Y WAUN; } Rumex *Acetosa;* Common Sorrel.

Y llysieuyn cyffredin hwn, os cymmerir yn rhwydd helaeth yn fwydlys, naill ai yn lâs neu gwedi ei drin, naill ai ar ei ben ei hun, neu ynghyd a rhyw llysiau eraill, a wna fawr les i oeri, ac i bureiddio y gwaed, os parheir i'w gymmeryd dros ennyd o amser. Efe a wna ddiod pur gymmwys i ddyn tan y cryd poeth, lle na bo *suran y coed* i'w chael.

SURAN HIR. *edr.* TAFOLEN Y DWR.

SURAN YR YD; Rumex *Acetosella;* Sheep's Sorrel.

SURAN GODOG; Physalis *Alkekengi;* Winter cherry.

SWYN ESGRAS; Calendula *officinalis;* Marigold.

SWYNFRI. *edr.* YSWINFRI.

SWYNYDDLYS. *edr.* LLYS STEPHAN.

SYCOMORWYDDEN; Ficus *Sycomorus;* Sycomore tree, *of Scripture.*

SYFI; } Fragaria *vesca;* Strawberry.
SYFIEN;

"Lle amyl y syfi, amyl y neidredd."—*Diar.*

SYMWL; } Primula *vulgaris;* Common Primrose.
SYMYLEN;

"Mor ddiwair a Symylen."—*Diarh.*

SYNSEG. *edr.* SENSEG.

TAFOD YR AFR; } Echium *vulgare;* Common Viper's Bugloss.
TAFOD Y BWCH;

TAFOD Y BYTHEUAD; Cynoglossum;——Hound's tongue.

TAFOD Y BYTHEUAD MEDDYGAWL; Cynoglossum *officinale;* Common Hound's tongue.

Sydd sugawl, a llysnafeddawg, yn enwedig y gwraidd, yr hwn a gyfrifir oreu; trwyth o 'r gwraidd iw yfed, a'r gwraidd yn sugaethan, neu blastr, iw dodi ar y tynchwydd, a chwarenau manwynawg, a fuant yn aml yn dra llesol i drueiniaid tan y clefyd blin, sef clwy'r brenin. Y dail o herwydd eu rhin llyslynaidd, rhwymawl, esmwythâawl, ydynt fuddiol iawn rhag y peswch, poeri gwaed, dolur rhudd, a chlefyd y gwaed; gwasanaethgar hefyd ydynt iw dodi ar weliau mall crawnllyd.

TAFOD Y CÎ; Potamogeton *natans;* Broad-leaved Pondweed.

TAFOD YR EDN; Stellaria;——Stitchwort.

TAFOD YR HEDYDD. *edr.* YSPARDYN Y MARCHOG.

TAFOD YR HYDD; Scolopendrium *vulgare;* Common Hart's tongue.

Y rywogaeth hon o redyn sydd unnaws a *Gwallt y forwyn,* ac y mae iddi y gair o fod yn llesol i gryfhau'r coluddion, i attal dolur rhydd, a chlefyd y gwaed, a phob dylif o 'r ymysgaroedd, i chwalu y graean, ac i ryddhau rwystrau yn yr afu, a'r ddueg; ac i esmwythau clwyfau yr ysgyfaint, a'r peswch. *Edrych* GWALLT Y FORWYN.

TAFOD Y LLEW; Picris *echioides;* Bristly Ox-tongue.

TAFOD Y MARCH; } Ruscus *hypoglossum;* Horse-tongue.
TAFOD Y PAGAN;

TAFOD Y NEIDR; Ophioglossum *vulgatum;* Common Adder's tongue.

TAFOD YR OEN; Plantago *media;* Hoary Plantain.

TAFOD YR WYDD; Achillea *Ptarmica;* Sneeze-wort Yarrow.

TAFOD Y FUWCH; } Borago *officinalis;* Common Borage.
TAFOD YR YCH;

TAFOD YR YCH ANWYW; Anchusa *sempervirens;* Evergreen Alkanet.

TAFOD YR YCH CULDDAIL; Lycopsis *arvensis;* Small Bugloss.

Y ddeilen hon, gwedi ei hysigo, a'i dodi wrtho, a iachâ'r Boethfflam neu 'r tandde chwyddedig; rhwymer hi ar y dolur dros bedair awr ar ugain, a newidir hi os bydd angenrheidiol; yna tacler y briw rhagllaw a'r eli *basilicon. Curtis Fl. Lond.*

TAFOD YR YCH LLIWIOL. *edr.* LLYS Y GWRÎD.

TAFOD YR YCH MEDDYGAWL; Anchusa *officinalis;* Garden Bugloss.

TAFOLEN; Rumex;——Dock.

TAFOLEN Y CWN; Rumex *obtusifolius;* Broad-leaved Dock.

TAFOLEN Y DWR; } Rumex *aquaticus;* Great Water Dock.
TAFOLEN HIR;

Trwyth o wraidd y llysieuyn hwn sydd feddygiaeth o fawr effaith, ac yn haeddu pob canmoliaeth, iw gymmeryd rhag y llwg, *(ysgyrfi,)* a 'r cryd cymmalau, a chlefydau nychlyd, y rhai a darddant oddiwrth rwystrau yn yr ymysgaroedd. Y dywededig drwyth sydd dra llesol i olchi y genau pan fo cîg y dannedd yn llesghau; neu gwneler y gwraidd yn bylor i rwbio 'r dannedd; nid oes gwell deintlwch. Y mae hefyd yn hynod i olchi hen ddoluriau a gweliau mall iw glanhau.

TAFOLEN GÔCH; } Rumex *sanguineus;* Bloody-veined Dock.
TAFOLEN WAEDLYD;

TAFOLEN GRYCH; Rumex *crispus;* Curled Dock.

Y mae tywalltiad dwr berwedig ar yr hâd, gwedi ei ysigo, yn llesol rhag clefyd y gwaed. Trwyth neu eli o'r gwraidd a iachâ y cosu.

TAFOLEN MAIR; Rumex *acutus;* Sharp Dock. *edr.* TRYTHON.

TAFOLEN Y MÔR; Rumex *maritimus;* Golden Dock.

TAGARADR; Ononis *arvensis;* Rest-harrow, Cammock.

Trwythiad o risgl y gwraidd a ganmolir rhag y tostedd, a'r clefyd melyn.

TAGLYS; Convolvulus *arvensis;* Small Bindweed.

TAGLYS YR YD; Polygonum *Convolvulus;* Black Bindweed.

TAGLYS MAWR; } Convolvulus *sepium;* Great Bindweed.
TAGWYDD; }

TAGWYG; Vicia *Cracca;* Tyfted Vetch.

TALFEDEL. *edr.* LLYS YR ANGEL PER.

TAMAID Y CYTHRAUL. *edr.* GWREIDD-DON.

TAMARISC. *edr.* GRUG-BREN.

TANCLYS. } *edr.* GYSTLYS.
TANSI. }

TANSI GWYLLT. *edr.* GWYN Y MERCHED.

TAPR DUNOS. } *edr.* TEWBANNOG.
TAPR MAIR. }

TAPR Y DWR; Typha;——Cat's tail, Reed-mace.

TARFGRYD. *edr.* WERMOD WEN.

TARFWGAN; Hypericum *perforatum;* Perforated St. John's wort.

TAWDDRYDD. *edr.* TODDAIDD.

TEGEIRIAN; Orchis;——Cullions, Dog's-stones, Orchis.

TEGEIRIAN Y WAUN; Orchis *Morio;* Meadow Orchis.

Y gwraidd, gwedi ei berwi hyd yn feddalion, a roddant luniaeth tyneraidd, a buddiol i gleifion tan glefyd y gwaed, y dolur rhydd, y tostedd, a 'r peswch.

TEGWCH MEINWEN. *edr.* TAGARADR.

TEILAI GWYLLT; Dipsacus *sylvestris;* Wild Teasel.

TEILAI MAWR; Dipsacus *fullonum;* Fuller's Teasel.

TEIM. *edr.* GRUWLYS.

TEIRCAILL; Ophrys *spiralis;* Spiral Ophrys, Ladies' Traces.

TEREBINTHUS. *edr.* PREN TERPENTIN.

TETHAU'R GASEG. *edr.* GWYDDFID.

TEWBANNOG; Verbascum *Thapsus;* Great Mullein, High Taper.

TEWBANNOG FECHAN; Primula *veris;* Cowslip.

TEWBANNOG WEN WRRYW; Agrostemma *Coronaria;* Rose-campion.

TILÆA. *edr.* ANWYWIG.

TINDOLL; } Mespilus *germanica;* Common Medlar.
TINAGORED; }

TINBOETH; Polygonum *Hydropiper;* Biting Persicaria, Arsemart.

Trwyth o 'r llysieuyn hwn sydd lesol iawn rhag y dolur o'r genau, yr hwn a enwir y gân; golcher y safn yn aml ag ef yn gymmysg ag ychydig fel. Y rywogaeth hon, a 'r *Elinog gôch,* a liwiant wlan yn felyn.

TINLLWYD. *edr.* GWYN Y MERCHED.

TIWLIP; Tulipa *sylvestris;* Wild Tulip.

TODDAIDD } FELEN; Pinguicula *vulgaris;* Common Butterwort.
TODDEDIG }

"Ai blodeuyn glâs diffaeth."—*Medd. Myddfai.*

Eithr y ddeilen a iacha y mân agenau ar biwod (neu byrsau) buchod.

TODDAIDD } RUDD; Drosera;——Sundew.
TODDEDIG }

Y sug, yn gymmysgedig a llefrith, a dyn ymaith frychni neu losg haul; a'r sug digymmysg a ddifetha ddafadenau dofion ar ddwylaw, neu wyneb, a chyrn ar y traed.

TODDAIDD } WEN; Hydrocotyle *vulgaris;* White-rot, Marsh Pennywort
TODDEDIG }

TOFFIELDIA; Tofieldia;——Marsh Asphodel.

TORFAGL; Salvia *Verbenaca;* Wild English Clary, Cleere eye. *Ger.*

TORGOS; } Veratrum *album;* White Hellebore.
TORLAITH; }

TORLLWYD; } Hieracium *Pilosella;* Mouse-ear Hawkweed.
TORLLWYDIG; }

TORMAEN; Saxifraga;——Saxifrage, *Llyfenwy.*

TORMAENWYDD; Laurus *Sassafras;* Sassafras-tree.

TORMWYTH. *edr.* WERMOD WEN.

TORORTH; Seseli *Hippomarathrum;* Hartwort of Marseilles.

TORWENWYN; Ruta *graveolens;* Rue.

TOSTFRWYNEN; Scirpus *lacustris;* Bull-rush.

TRAETURIAID Y BUGEILYDD. *edr.* LLWYNHIDYDD.

TREIGLEDLYS; Polygonum *minus;* Creeping Persicaria, or Knotgrass.

TRESGL YR EITHIN;
TRESGL MELYN;
TRESGL Y MOCH; } Tormentilla *officinalis;* Common Tormentil.

Gwraidd y ddeilen hon a gyfrifir yn rhwymawl ym mhlith y cryfaf o 'r holl lysiau, ac yn llesol iawn lle bo y cyfryw yn addas; sef rhag y dolur rhydd, clefyd y gwaed, ymadael a dwr o anfodd, &c. Y dogn yw o hanner dram i ddram, neu ychwaneg, yn bylor, mewn ychydig ddwr neu ddiod; neu gellir ei roddi yn drwyth o wns a hanner gwedi ei falu a'i ferwi mewn tri pheintiaid o ddwr hyd na leiheir y drydedd ran, gan ddodi atto, tu ag at ddiwedd y berwad, ddram o *Sinamon;* O 'r meddyglyn hwn gwedi ei hidlo, a'i felysu yn y modd y gwelir oreu, yfed y claf ddwy wns, bedair gwaith neu bump yn y dydd. Y mae trwyth o hon yn bûr effeithiol rhag clefyd y gwaed ar wartheg.

TREWYNYN; Lysimachia *vulgaris;* Yellow Loose-strife.

Y llysieuyn hwn, ynghyd ag *alwm,* a liwia felyn têg.

TRIAGL Y CWN; Triticum *repens;* Couch-grass.

TRIAGL Y CYMRO. *edr.* CHWERWLYS YR EITHIN.

TRIAGL TAIRDALEN. *edr.* SURAN Y GÔG.

TRIAGL Y TLAWD; Allium *vineale;* Crow-Garlick.

TRIAGLOG; Valeriana;——Valerian.

TRILLIW; Viola *tricolor;* Pansy Violet, Heart's ease.

TRINGOL; Rumex *Acetosella;* Sheep's Sorrel.

TROED YR ADERYN; Ornithopus *perpusillus;* Common Bird's foot.

TROED YR ARTH. *edr.* CRAFANGC.

TROED YR ASEN. *edr.* GARLLEGOG.

TROED Y BARCUD; Thalictrum *flavum;* Common Meadow-rue.

Sugaethan neu blastr o'r dail a arferir rhag y glinwst.

TROED Y CEILIOG; Dactylis *glomerata;* Cock's-foot grass.

TROED Y CYW; Caucalis;——Bur-parsley, Hedge Parsley.

TROED Y DRYW; Alchemilla *arvensis;* Parsley Piert, Field Ladies' mantle.

TROED YR EBOL. *edr.* GOLD Y GORS.

TROED YR ERYDD. *edr.* CRAFANGC.

TROED Y GATH; Gnaphalium *dioicum;* Mountain Cat's foot.

TROED Y GOLOMEN; Geranium *molle;* Dove's foot Crane's bill.

TROED Y GYWEN; Peplis *Portulaca;* Water Purslane.
TROED YR HEDYDD. *edr.* YSPARDYN Y MARCHOG.
TROED Y LLEW. *edr.* MANTELL FAIR.
TROED Y TARW; Tussilago *Farfara;* Colt's foot, Bull-foot, *Ger.*
TROED YR WYDD; Chenopodium;——Goose-foot.
TROED YR YSGYFARNOG; Trifolium *arvense;* Hare's foot Trefoil.
TROEDRUDD; Geranium *Robertianum;* Stinking Crane's bill, Herb Robert.
TROELLGORYN; Iuncus *squarrosus;* Moss Rush, Goose-corn.
TROELLIG; Spergula;——Spurrey.
TROGENLLYS; Ricinus *communis;* Palma Christi.
TRWYN Y LLO; Antirrhinum;——Snapdragon.
TRWYNSOR; Chenopodium *olidum;* Stinking Goose-foot.
TRYDON. *edr.* CWLYN Y MEL.
TRYTHON; Rumex *acutus;* Sharp Dock.

Pur fuddiol ydyw gwraidd y llysieuyn hwn rhag y gymmalwst, yn enwedig y rywogaeth honno o'r clefyd ag sydd yn deilliaw oddiwrth ammhurdeb gwaed. Crafer o hono ynhylch hanner wns, a thywallter arno beintiaid o ddwr berwedig, a safed dros nôs a chaead ar wyneb y llestr; yfer o'r meddyglyn hwn lonaid gwydr-gwnin neu o ddwy *wns* i ddwy *wns* a hanner bob dydd rhwng y boreufwyd a'r prydnawn-fwyd dros rai wythnosau. Myfi fy hun a gefais brawf o'i effaeth; adnabum hefyd rai, ac a glywais sôn am nifer eraill, a iachawyd o'r clefyd tost hwnnw trwy y modd hynny, ac ar ol eu iachâad a fuant hir-hoedlog, heb onid prin argoel o'r clefyd gwedi hynny. Cymmwys fydd gwarchod, rhag dychweliad y clefyd, trwy gymmeryd y trwyth hwn dros dair wythnos neu fîs yn y gwanwyn, a thu a diwedd y cynhauaf, efe a wna fawr lles rhag pob ammhurdeb y gwaed. Yn nifyg y rywogaeth hon, gellir arferu y dafolen gyffredin, neu 'r grych. *edr.* t. d. 35. o'r *Rhan gyntaf.*

TRYW. *edr.* TRYDON.
TUSWDDYFRLLYS; Ruppia *maritima;* Tassel-pondweed.
TWRGED; Turritis;——Tower-mustard.
TYBACO. *edr.* MYGLYS.
TYWODWLYDD; Arenaria;——Sandwort.

UCHELAWG, UCHELAWR, UCHELFA, UCHELFAL, UCHELFAR, UCHELFEL, UCHELWYDD; Viscum *album;* Misseltoe.

Gwiwbarch a dalai y Derwyddon gynt i'r llysieuwyddyn hwn, nid yn unig o ran y lliosog, a 'r nefolaidd rinweddau meddyginiaethawl, a dybiasant iddo feddiannu, gan ei enwi yn HOLLIACH, ac iddo iachau pob clefyd, ar ddyn ac ar anifail; eithr hefyd mewn dull crefyddawl, gan iddynt dybio ei ddisgyn o'r nef, a chan nad ydyw ond megis cangen yn unig, ac nad oes iddo gyff i'w gynnal, na gwraidd daearol, meddyliwyd fod mawr debygoliaeth rhyngddo a'r "blaguryn," sef y "Blaguryn cyfiawn," a ragddywedasid yn ei gylch gan y prophwydi, yr hwn oedd "ddymuniad yr holl bobloedd." Eithr y mae meddygon yr oes hon yn credu mai ar ofergoelion yr oedd ei holl rinweddau meddygawl yn sefyll.

URDDON; Lythrum *hyssopifolium;* Hyssop-leaved Loose-strife, or Grass-poly.

WALWRT. (corruption of *Wall-wort.*) *edr.* CORYSGAWEN.

WDRON. *edr.* LLYS YR ERYR.

WDROYTH, WDRWTH, WDRWYTH, WDWYTH; Asphodelus;——Asphodel, King's Spear.

I much suspect all these to be corruptions of *Woodruff* or *Wood-roof; Medd. Myddf.* however, have them thus.

WERMOD LWYD; Artemisia *Absinthium;* Common Wormwood.

Gwraidd y llysieuyn hwn sydd beraroglaidd a thwymn; y dail ydynt wasanaethgar mewn diod frâg a fo ar suro; a dwr berwedig arnynt sydd llesol iawn i'r cylla, ac a bair ymadael a 'r dwr yn rhwydd, ac yn ddilynol y mae yn dda rhag y dyfrglwyf. Y planhigyn gwedi ei fwydo mewn dwr poeth, a'i ddodi yn blastr, a'i aml newid, ar glais neu ysigtod, a ostega y gwaew yn fuan, ac a'i attal rhag chwyddo. Y mae y meddyg *Hìl* yn ei ganmol yn fawr, gan iddo ef ei hun, a nifer o'i gydnabod gael prawf helaeth a digonol o'i rinweddau rhag y gymmalwst, a chlefyd y graean, a gwendid neu lesgedd y cylla; y modd y parattoai efe ef oedd hel y blodau, a'r dail oddi ar y goes, ac ar lonaid llaw o 'r rhâi hyn y tywalltai beintiaid o ddwr berwedig, gadawai iddynt sefyll dros ddeuddeg awr; yna efe a yfai chwarter peint o hono ynghylch awr o flaen ei brydnawnfwyd, a 'r un faint ym mhen y

pedair awr neu bump gwedi hynny: Ac y mae yn dywedyd mae dedwydd fydd y sawl a ymarferant ag ef tan y clefydau a grybwyllwyd uchod.

Y dogn o hono yn bylor yw o scrwpl i scrwpl a hanner, sef deg gronyn ar ugain.

WERMOD Y MÔR; Artemisia *maritima;* Sea Wormwood.

WERMOD WEN; Pyrethrum *Parthenium;* Common Feverfew.

Y mae 'r llysieuyn cyffredin, diniwed, hwn yn feddiannol o rinweddau tu hwnt i bob canmoliaeth, a phob gwerth, mewn perthynas i fenywod; ni wna yr un o gyffyriau y meddygon gyffelyb les, tu ag at rwyddhau a dwyn ymlaen eu teithi, nag i bob math o glefyd y fam. Y mae efe hefyd yn fuddiol i'r cylla, rhag y llyngyr, a'r cryd dyspeidiol. Casgler y dail a thywallter arnynt ddwr berwedig, o 'r dwr hwn, yn o gryf, yfed y clwyfus ddiod, ynghylch hanner peintiaid, ddwywaith neu dair yn y dydd. Gwraig fonheddig rinweddol, yr hon a ddioddefodd mawr gystudd hyd na byddai, ar rai amseroedd, ymron gwallgofi yn ei hieuengtyd, gan gûr echryslon yn ei phen, a hynny agos yn ddibaid, gwedi treilio llawer ar feddygon, yn llwyr ddiles a difydd, ym mhen amser a iachawyd yn hollol gan y moddion hyn; hi a yfodd y dwr oddiar y dail yn helaeth, ac yn aml, ac a ddododd y dail, o ba rai y parottowyd y llyn, yn blastr neu sugaethan gynnes ar y fan honno o'i phen, lle yr oedd y cûr; y clefyd a ymadawodd, ac ni ddychwelodd byth drachefn.

WINIWN; } Allium *Cepa;* Onion.
WINWYN; }

WINWYN GWYLLT; }
WINWYN Y CWN; } Allium *vineale;* Crow Garlick.
WINWYN Y MAES; }

WINWYN Y MÔR; Scilla;——Squill.

WIOLYDD. *edr.* GWIOLYDD.

WROITH. *edr.* GWROITH.

WYDRO. *edr.* GWYDRO.

WYNIONYN. *edr.* WINWYN.

YAIG; Agrostemma *Githago;* Cockle.
YD MEDDW. *edr.* EFRE.
YDBYSEN; } Lathyrus;——Vetchling.
YTBYSEN; }
YDGEIRCH; Avena *sativa;* Cultivated Oat.
YRDDON. *edr.* URDDON.
YRINLLYS. *edr.* EURINLLYS.
YSBEINWYDDEN; Buxus *sempervirens;* Box-tree.
YSBIN. *edr.* YSPINWYDDEN.
YSBWNG. *edr.* YSPWNG.
YSBWYNWYDD; Rosmarinus;——Rosemary.
YSCENLLYS; Marchantia *hemispherica;* Hemispheric Liver-green.
YSCORPIONLLYS; Myosotis *scorpioides;* Mouse-ear Scorpion-grass.
YSGALLEN; Carduus;——Thistle.
YSGALLEN Y BLAIDD; Carduus *lanceolatus;* Spear Thistle.
YSGALLEN DDU; Carthamus *corymbosus;* Black Chameleon Thistle.
YSGALLEN DDRAINWEN; Carlina *vulgaris;* Common Carline Thistle.
YSGALLEN FAIR. } *edr.* YSGALLEN WEN.
YSGALLEN FRAITH. }
YSGALLEN FENDIGAID; Centaurea *benedicta;* Blessed Thistle.
YSGALLEN FOGLYNOG; Eryngium *maritimum;* Sea Eryngo.
YSGALLEN FWYTH; Carduus *heterophyllus;* Melancholy Thistle.
YSGALLEN GANPEN; Eryngium *campestre;* Field Eryngo.
YSGALLEN GOTTYMMOG; Onopordum *Acanthium;* Cotton Thistle.
YSGALLEN Y MEIRCH. *edr.* YSGELLOG.
YSGALLEN Y MÔCH; Sonchus *oleraceus;* Common Sowthistle.
YSGALLEN PANNWR. *edr.* TEILAI MAWR.
YSGALLEN WEN; Carduus *marianus;* Milk Thistle.
YSGALLEN WYLLT. *edr.* YSG. Y BLAIDD.
YSGARLLYS. *edr.* ESGORLLYS.
YSGAWEN GYFFREDIN; Sambucus *nigra;* Common Elder.

Yr ail, sef y glas risgl, neu'r dail a wnant garth-ddiod gref, pan fo 'r cyfryw yn addas; yn fân ddognau y mae yn droethbair effeithiol, ac a wna fawr lês rhag chwarren-rwystrau, a 'r dyfr-glwyf. Y sug yn fân ddognau o ddram neu lai sydd fuddiol i

ruddhau, a symmud rhwystrau yn y coludd, &c. neu sûg y ffrwyth addfed yn ddognau mwy, sef o hanner wns i wns, a wasanaetha i'r un perwyl. Tywalltiad dwr berwedig ar y blodau sydd esmwyth garth-ddiod. Y blodau a'r dail a wnant hynod feddyg-olch brwd, lle bo achos. Cyffyr da mewn eli ydynt. Lle bo yr pwd ar ddefaid, os caniatheir iddynt gyfleusdra i ddirisglio y cangau ieuaingc, hwy yn fuan a iachânt eu hunain.

YSGAWEN Y GORS. *edr.* CORSWIGEN.

YSGAWEN FENDIGED; YSGAWEN Y DDAEAR; YSGAWEN FAIR; } Sambucus *Ebulus;* Dwarf Elder, Danewort. *edr.* CORYSGAWEN.

YSGEDD; Crambe *maritima;* Sea Kale.

YSGELYNLLYS. *edr.* LLWYNHIDYDD.

YSGELLOG; Cichorium *Intybus;* Wild Succory.

Cyfan unnaws ydyw y llysieuyn hwn a'r *Dant y llew.* Gallwn ddywedyd yn hyf bod sug neu drwyth cryf o bob un o'r ddau yn llesol iawn, os cymmerir hwy yn ddognau go helaeth, sef wns neu dwy neu ychwaneg, rhag nych-dod neu glefyd yr ysgyfaint. *Edr.* DANT Y LLEW.

YSGLAREI. *edr.* COCHLAS.

YSGOL FAIR; YSGOL GRIST; } Chironia *Centaurium;* Common Centaury.

Mwydiad o'r llysieuyn rhînweddol hwn, mewn dwr berwedig, sydd feddygiaeth mwy hynod rhag llesgedd y cylla, mall draul bwyd, a drwg ansawdd y corph, nag yr un o 'r holl chwerwaidd lysiau, Dr. *Cùlen* a ddywed ei fod yn mwy buddiol na 'r *Gentian* na 'r *Peruvian Bark;* ac ynghyd a gwraidd y *Tresgl* neu *afal y derw,* unfaint o bob un, a iacha yn ddifeth ddyn o'r cryd a'r mwyth. Trwyth o hono a lâdd lau, ac a iachâ yr cosi. Rhai a ddywedant iddo gyfrannu ei rinweddau yn mwy cyflawn i boethlynodd (sef *brandi* a'r cyffelyb) nag i ddwr.

YSGORDIWM. *edr.* DERLYS Y DWR.

YSGORPIONLLYS. *edr.* YSCORP.

YSGRAS. *edr.* TRESGL.

YSGRIF-GEN; Opegrapha;——Lettered Liverwort: a division of the genus LICHEN.

YSGYRFI. *edr.* LLWYLYS.

YSGYRFI GWRRYW; Atriplex *portulacoides;* Shrubby Orache.

YSGYRR. *edr.* YSGORDIWM.

YSLAFAN Ulva;——Laver.

YSNIAB; Sinapis;——Mustard.

YSNODEN FAIR; Cyperus *longus;* English Galingale.

YSNODEN Y MÔR; Fucus *loreus;* Sea thongs.

YSNODEN LAS-WERDD Y MÔR. *edr.* GWELLT Y GAMLAS.

YSOP; Hyssopus *officinalis;* Hyssop.

YSPARDYN Y MARCHOG; Delphinium *Consolida;* Lark's spur.

YSPER FINTYS; Mentha *viridis;* Spear Mint.

Ei natur sydd gyffelyb i'r *Pupur Fintys,* ynghylch pa un y gallwm yn hyf ddywedyd mai hynod yw rhag clefyd y gwynt, y parlys, a'r wrwst, neu gwlwm y gwythi.

Tywalltiad dwr berwedig arnynt sydd lesol iawn i'r cylla, i'w gryfhau ac i attal tueddiad i sych-gyfogi; da hefyd yw rhag clefyd y fam, a'r cyffelyb. *Edr.* PUPUR FINTYS.

YSPIGAWGLYS; Spinacia *oleracea;* Spinach.

YSPINWYDDEN. } *edr.* PRENMELYN.
YSPINYS. }

YSPWNG; Spongia;——Spunge.

YSPYDDADEN; Mespilus *Oxyacantha;* Hawthorn, Whitethorn.

YSTREWLYS. *edr.* DYSTREWLYS.

YSWINFRI; Bellis *perennis. edr.* LLYGAD Y DYDD.

YSWTHORNAT. *edr.* BRYTWN.

YSWYDDEN; Ligustrum *vulgare;* Privet, Prim-print.

Y grawn, cyn gynted ag y bont addfed, ynghyd ag *alwm,* a liwiant wlan a sidan o liw gwyrdd têg, a pharhäus; y dail ydynt chwerwaidd ac ychydig rwymawl.

"Gorwyn blaen celli, gogyhyd YSWYDD."

——— evenly trim'd is the Privet.

Llyw. Hen.

YTBYSEN. *edr.* YDBYSEN.

YTTAG. *edr.* TAGLYS YR YD.

YW; } Taxus *baccata;* Yew-tree.
YWEN; }

" Ywen *coed* pymtheg ceiniog a dâl; Ywen *sanct* punt a dâl."
Cyfr. How. Dda.

" Pwy sydd mor gampus heddyw,
" Pwy a wyr nerth y pren YW!"
Marwnad Rhobert ab Siôn gan Dudur Aled.

ZANNISHELIA. *edr.* LLYN-WLYDDYN.

ADDITIONS.

Page.

62. After C. *officinalis,* insert C. *groenlandica ;* groenland Scurvy - grass; *Morlwyau groenlandaidd.*

This plant, though it grows so near me as the beach below Friars, escaped my ken, *in this shape,* till April, 1813; but, when it creeps to some distance from thence, and occupies the old roofs and walls in Beaumares, which it does plentifully, it becomes, as I have now had an opportunity of ascertaining, "Cochlearia minor rotundifolia nostras," &c.—R. Syn. 303. 4. in which state I have known it for many years past.—*See Trans. Lin. Soc.* v. X. 344.

65. l. 7. After *yd,* add *Cadafarth.*

111. Let the following be inserted alphabetically, under the division LEPROSUS.

L. *abietinus.*

L. *albellus.*

L. *atro-flavus.*

L. *atro-rufus.*

L. *byssinus.*

L. *candelarius,* E. B. is the

Page.

L. *concolor,* Dicks. *v.* p. 114.

L. *candidus.*

L. *exanthematicus.* Above Baron-hill, on a rock near the poultry-yard.

L. *graniformis.*

L. *luteus.* Baron-hill lawn on trees.

112. L. *maurus.* E. B.

L. *rufus* is *byssoides.* E. B.

L. *sinopicus.* E. B. If the botanical tourist should be disappointed in his search for this very rare plant in Anglesey, and if the line of his ramble leads him towards Beddcelert, he can scarcely fail of finding it near the antique family - seat, or resting-place, at *Nant,* the mansion of Sir Robert Williams, Baronet.

L. *squamulosus.* E. B.

L. *varius.* Near Llysdulas, on deal pales.

L. *vernalis.* Near Bodorgan.

L. *umbrinus.* This is included in the *niger* of Hudson.

Page.

Spiloma *versicolor*. N. B. not L. *versicolor* of Ach.

113. After L. *sinuatus*, insert L. *sinuosus*.

114. After L. *fraxineus*, add L. *fuciformis*. Very rare; on a rock in Bodowen-park.

118. The repetition of F. *fruticulosus* is unnecessary, as that of Mr. Turner and Wulfen have been proved to be the same, since I wrote the above. I found it near Aberffraw and Llangwyfan.

After F. *crispus*, insert F. *cristatus*, γ.

119. After F. *rubens*, add F. *ruscifolius*. This I found near the Point, Beaumares.

The F. *sarniensis* I have found on different parts of our coast, viz. N. E. and S. W.

Page.

Vaucheria *geminata*. E. B. In a ditch in Llanfaes.

Rivularia *calcarea*. E. B. On the bottoms of rivulets, particularly those which run through marly grounds; Rhos y Meirch, &c.

126. After A. *turfosus*, A. *varius*.

133. After ACTÆA, insert ADIANTUM; True Maidenhair; *Diwlydd, Gwallt Gwener*.

134. After BUPLEURUM, insert BUXBAUMIA; Buxbaumia; *Bwcsbawmia*.

219. After MENYG Y GOG, insert MENYG Y MERCHED, *edr*. MENYG Y GOG.

MYNEGAI *o'r Clefydon, &c. a draethir amdanynt yn y dalenau rhagflaenol.*

Agenau ar biwod, neu byrsau, buchod, 239.
Ammhurdeb gwaed, 241.
Anafad yn y cnawd, 209.
Ansawdd drwg y corph, 245.
Archoll, (*Wound*) 162, 165, 189, 193, 198, 209, 212.
Arlocs-feddygiaeth, (*Cathartic*) 182, 190, 195, 206, 221, 224, *edr.* Carth, ac Ysgarth.
Arloes-feddygiaeth i anifeiliaid corniog, 195.
Atgyweirio tymmer y corph, 187.
Attalfeydd yn yr afu, 177, 220, 222, 229.
Attalfeydd yn y coludd, 168, 222.
Attalfeydd yn yr ysgyfaint, 182, 220.
Awydd i fwyd, 164, 235.

Bara, 172, 196.
Braen-ddolur } (*Gangrenc,*) 182, 191.
Braenedd }
Bras, rhy, 190.
Brech, (*Eruption*) *edr.* Dyfrwraint, a Tarddiadau.
Brenhinbren y gannllwyd, 183.
Briw, *edr.* Archoll.
Brychni neu losg-haul, 239.
Bwydlys, 157, 169, 178, 181, 193, 207, 214, 234.
Byddardod, 175, 231.

Caethder yn nghledr y ddwyfron, 174.
Caled-chwydd, 172, *edr.* Crangen, a Chwarren.
Cangcr, 163, 173, 212, 229.
Carn yr ebol, i ladd, 166.
Carth-feddygiaeth, *esmwyth,* 168, 176, 182, 184, 204, 211, 213, 224, 234, 245.
Carth-feddygiaeth *cryf, neu lym,* 160, 163, 171, 174, 192, 227, 244.
Cawl, (*Oleracea*) *edr.* Bwydlys.
Clafr, *edr.* Llwg.
Clais, 242.
Clefyd y fam, (*Hysterics*) 161, 162, 164, 167, 188, 195, 201, 210, 211, 217, 220, 226, 231, 243, 246.
Clefyd y giau, (*Nervous,* &c.) 131, *edr.* Iselni ysprydoedd.
Clefyd y garreg. *edr.* Graean.
Clefyd y gwaed, 165, 168, 178, 182, 185, 189, 199, 212, 213, 226, 236, 237, 238, 240.
Clefyd y gwaed ar wartheg, 185, 240.

Clefyd y gwres, *edr.* Cryd poeth.
Clefyd y gwynt, 155, 161, 164, 188, 190, 209, 219, 221, 226, 229, 234, 246.
Clefyd melyn, *edr.* Cryd.
Clefyd yr ysgyfaint, (*Decay*) 154, 165, 181, 188, 198, 204, 205, 209, 216.
Clwyf dygwydd, 159, 210.
Clwyf y brenin, 166, 229, 236.
Clwyf y marchogion, *edr.* Lledewlgwst.
Clwyf tegle, *edr.* Cl. dygwydd.
Clipenau, eu twyll, 175.
Cnofa 'r coludd, 164, 188, 229, 234, 235; neu 'r cylla, 195, 219.
Coethaidd-feddygiaeth, (*Stimulants.*)
Coethi y cyfangorph, 211, 232, 234.
Coethi y ffroenau, a'r pen, 166, 176, 185, 192.
Coethi unrhyw gwr o'r corph, 168.
Corn ar draed, 191, 239.
Corn y gwddf. *edr.* Dolur.
Cosi, *edr.* Ymgrafu.
Crangen, (*Schirrous tumor*) 205.
Cryd cymmalau, 168, 169, 171, 188, 190, 203, 206, 232, 234, 237.
Cryd melyn, (*Jaundice*) 178, 179, 181, 183, 186, 190, 196, 205, 206, 220, 232, 234, 238.
Cryda mwyth, (*Ague*) 162, 200, 202, 224, 229, 245.
Cryd diddyspaid, (*Hectic*) 208.
Cryd dyspeidiol, (*Intermitting*) 182, 183, 213, 215, 229, 243.
Cryd poeth, 176, 178, 180, 188, 197, 235.
Cryfhaol, 177, 182.
Cryfhau'r coludd, 236.
Cryfhau'r cyfangorph, *edr.* cyfangorph.
Crygboeth-flam, *edr.* Tandde Chwydde dig.
Crygdardd, 163, 265.
Crygni, 155, 168, 198, 205, 213, 215, 232.
Curiaw. *edr.* Didycciant ymborth.
Cwlwm y gwythi, (*Cramp.*) 161, 167, 195, 246, *edr.* Gwrwst.
Cwrw, diod yn lle, 186.
Cyfangorph i gryfhau, 177, 215, 243.
Cyfog, i attal, 229.
Cyfogbair, (*Emetic*) 158, 160, 163, 164, 166, 168, 177, 187, 190, 225, 227, 234, 235, 242, 245, 246.
Cylla llesg, 155, 161, 164, 188, 190, 195, 198, 201, 235, 242, 243, 245, 246.
Cymhibau, (*Lochia*) 188.
Cymmalwst, 162, 168, 181, 234, 241, 242.
Cyweiriaw, (*to restore*) 187.
Cywer, 181, 210.
Chwain, i darfu, 200.
Chwarrenau yn y bronnau, 173.
Chwarrenau yn yr afu, 196.
Chwarrenau Manwynawg, 236.
Chwarren-rwystrau, 244.
Chwydd penddig, *edr.* Penddiged.
Chwysbair, (*Diaphoretic*) 167, 191, 205, 219, 220, 227.
Chwysiad y nos, 169, 235.
Chwysigl ar ddwylaw plant, 165.
Chwysigl-blastr, } (*A Blister,*) 158,
Chwysiglydd, } 176, 229.

Dafadenau, 180, 183, 191, 239.
Dannedd yn siglo, *edr.* Llesgedd.
Dannodd, 166, 191, 192.

Dargod,. *edr.* Crangen.
Darymred, *edr.* Dolur rhydd.
Deîrton. *edr.* Cryd a mwyth.
Didycciant ymborth, (*Atrophy*) 187.
Diffyg anadl, 165, 168, 174, 182, 188, 191, 198, 204, 206, 211, 216, 220, 229.
Diffyg anadl llysnafeddog, 207.
Diffyg awydd i fwyd, 229. *edr.* Cylla llesg.
Diod i glaf, 197.
Dolur corn y gwddf, 168, 155, 184, 232.
Dolur crachlyd ym mhenau plant, 210.
Dolur safn. *edr.* Safn.
Dolur rhydd, 165, 177, 178, 182, 189, 192, 209, 213, 229, 235, 236, 238, 240.
Doluriau, hen. 237.
Dyfrglwyf, 156, 160, 174, 181, 190, 192, 198, 201, 205, 207, 213, 217, 219, 227, 232, 242, 244.
Dyfrwreinyn. *edr.* Tarddiadau.
Dylif geriaidd, 228.

Eglwys rhufain, 194.
Eigian, i attal, 229.
Eisglwyf, (*Pleurisy*) 154.
Eli i anifeiliaid, 179.
Eli briwiau, 193.
Ennynfa, 163, 188.
Eryr, *edr.* Tarddiadau.
Euod, (*Tape-worm*) 217.

Ffroenau. *edr.* Coethi.

Gàn, (*Thrush*) 163, 239.
Genau, 155, 198.
Glaswst, (*Chlorosis*) 220.
Glinwst, 168.
Golch-ludw, 224.
Gormwyth, (*Rheum*) 182.
Gormwythiad, (*Defluxion of rheum*) 19.
Graean, Graeanwst, 164, 165, 168, 170, 174, 181, 189, 221, 229, 236, 242.
Gwaed, rhwystro llygrad, *edr.* Pureiddio.
Gwaed-boeriad. *edr.* Poeriad.
Gwaedlif, (*Hemorrhage*) 165, 199, 212.
Gwallt, i dewychu, 159.
Gwaew, 221.
Gwaew yn y cefn, 203.
Gwaew yn y dannedd. *edr.* Dannodd.
Gwaew yn y genau, 198, 228.
Gwaew yn ypen. *edr.* Pen.
Gwaew yn yr ystlys, 154.
Gweliau, mall, a changcraidd, 173, 202, 211, 222, 229, 236, 237.
Gwlyau, 196.
Gwendid, a gwynt yn y cylla, *edr.* Cyllallesg.
Gwenwyn, 162, 194, 201, 203, 205.
Gwrach, (*Ague,*) 164, 209.
Gwres, 163, 198, 205, 221, 235.
Gwres yn yr elwlenau, 165.
Gwres oddimewn, 208, 228.
——— yn y llygaid, 165, 166, 176, 186.
Gwrthduedd i luniaeth, 229 *edr.* Cylla llesg.
Gwrwst, (*Cramp,*) 164, 167, 210, 211, 246.

Haint y gwres, *edr.* Cryd poeth.
Henaint, i gynhesu ac adfywio, 234.
Hoppys, *edr.* Pensoeg.
Hunglwyf, (*Lethargy*) 166, 231.

Iselni ysprydoedd, 165.

Llaeth yn y bronnau, 229.
——— asen, 208.
Llaid ar draed gwartheg, 201.
Llammiad y galon, 211.
Llau, i ddifa, 172, 205, 227, 245.
Lledewigwst, (*Hemorrhoids*) 158, 205, 235.
Llesgedd, (*Debility*) 190, 229, 232.
——— cig y dannedd, 228, 237.
——— y coludd, 155, 213, 227.
——— y corph a'r cylla, 182, 227, 229, 232, 234, 245.
Lliain parhäus, 181.
Lliwio, 167, 181, 192, 209, 210, 213, 218, 229, 240, 246.
Llosgfa, *edr.* Gwres.
Llosg eira, 180.
Llosg tàn, 163.
Llwg, (*Scurvy*) 174, 181, 190, 198, 229, 237.
Llws, llyslyn, (*Mucilage.*)
Llygod, i darfu, 174, 205.
Llygad. *edr.* Gwres.
Llymsurni, 228.
Llyngyr, i ddifa, 159, 165, 171, 172, 174, 175, 182, 187, 190, 201, 206, 211, 217, 226, 243.
Llysnafeddawg (*Mucilaginous,*) 158.

Madredd, (*Gangrene*) 191.
Magl ar lygad, 183.
Malldrael bwyd yn y cylla, 229, 231, 245.
Mallgryd diddyspaid, (*Hectic fever*) 208.
Mallhaint, 228.
Mamwst, *edr.* Clefyd y fam.
Manwyn, (*Scrophula*) 166, 229, 236.
Marchwraint, 183.
Meddygfaeth, (*Emulsion*) 215.
Meddyglyn, (*Medicinal draught.*)
Meddygolch, (*Fomentation*) 164, 245.
Mel, i buro, 206.
Moch crestlyd, 182.
Mynyglog, (*Quincy*) 160. *edr.* Dolur corn y gwddf.

Nychdod, (*Decay*) 172, 198, 206, 237, 245. *edr.* Clefyd yr ysgyfaint.

Parlys, 166, 168, 181, 229, 231, 232, 246.
Pâs, 161, 216.
Pen, dolur neu waew, 164, 166, 175, 176, 192, 195, 203, 229, 231, *edr.* Coethi.
Penysgafnder, 195, 229, 231.
Penddiged, } (*Boil, Inflammation*) 167,
Penddüyn, } 205, 229.
Pensoeg, a ellir arferu yn lle, 179, 190.
Peswch, 155, 165, 174, 179, 182, 186, 198, 204, 205, 206, 213, 215, 216, 220, 229, 236, 238.
Peswch-boeriad, (*Expectoration*) 154, 155, 162, 172, 174, 176, 186.
Peswch gormwythawl, (*Catarrhal cough*) 154.
Poeriad gwaed, 168, 189, 195, 204, 209, 216, 236.
Poerlif, 228.
Poethwyn. *edr.* Penddiged.
Pureiddio gwaed, (*Anti-scorbutics*) 155, 157, 158, 163, 167, 176, 187, 188, 191, 207, 222, 232, 235, 241.
Pwd ar ddefaid, 245.
Pyrsau buchod, 239.

Rhwymawl, 177, 184, 199, 200, 213, 215, 216, 225, 228, 240, 246.

Rhwymedd cynnefin y coludd, 210.
Rhwystr, (*Obstruction*) 157, 177, 181, 196, 201, 211, 226, 234, 244.
Rhwystr yn yr afu, 177, 206, 236, *edr.* Attalfeydd.
Rhwystr, chwalu yn ngholuddion anifeiliaid corniog, 160, 195.
Rhwystr o'r llaeth geulo yn y bronnau, 229.

Safn, dolur, 168, 184, 228, 232.
Scyrfi. *edr.* Llwg.
Sipsiwn, 214.
Sugaethan, *(Poultice)* 162, 163, 164, 173, 195, 201, 205, 211, 215, 222, 243.
Surni yn y cylla, &c. 215, 216, 222.
Surni yn y gwaed, 169.
Sych-gyfogi, i attal, 246.
Syfrdanedd, 195.

Tan iddwf, (*Herpes*) *edr.* Tarddiadau, &c.
Tandde chwyddedig, (*Carbuncle*) 163, 237.
Tarddiadau yn y croen.
Tarddwreinyn, (*Eruptions*) 162, 163, 181, 183, 184, 192, 198, 205, 207, 222.
Tarfgryd, (*Febrifuge*) 165, 174, 215.
Tarflyngyr, (*Vermifuge*) 200. *edr.* Llyngyr.
Tê, 170, 184, 186, 199, 220, 232.
Teithi gwraig, i rwyddhau, 187, 188, 229, 243.
Tô, ar fythod, &c. 173, 196, 200.
Tostedd, (*Dysuria*) 176, 178, 190, 215, 216, 217, 221, 238.
Troethbair, (*Diuretic*) 155, 156, 158, 168, 174, 176, 181, 191, 205, 206, 207, 215, 219, 221, 225, 226, 227, 232, 242, 244.
Troeth gwaedlyd, 165.
Troethlif, (*Diabetes*) 240.
Trwyth, Decoction.
Twym-olchiad, neu-fwydiad, (*Fomentation*) 182, 220, 225.
Tynchwydd, (*Tumor*) 173, 195, 205, 236.
Tywalltiad dwr berwedig ar lysiau, &c. (*Infusion*).
Tywyllni ar lygad, 183, 186.

Ymadael a dwr o anfodd, *edr.* Troethlif.
Ymgrafu, 183, 234, 237, 245.
Ymysgaroedd, 196, 234, 235, 237.
Ysgafnder mewn pen, *edr.* Pen.
Ysgarth-feddygiaeth, (*Cathartic*) 177, 187, 205, 207, 225. *edr.* Arloes, a Carth.
Ysgyfaint, 155, 165, 172, 175, 176, 181, 182, 191, 204, 205, 209, 216, 236.
Ysigtod, 242.
Ysigtod, oddimewn, 165, 193
Ysgyrfi. *edr.* Llwg.

W. Marchant, Printer,
Ingram-Court, Fenchurch-Street,
London.

96